
BBC

# RHAN 2
# AROLWG AC ASESIAD BWRDD GWEITHREDOL Y BBC



## Rhan 2
## Bwrdd Gweithredol y BBC

**Trosolwg**
2-1 Cyflwyniad y Cyfarwyddwr Cyffredinol
2-2 Dod i ddeall cyllid y BBC
2-4 Perfformiad fesul gwasanaeth
2-8 Teledu
2-9 Radio
2-10 Newyddion
2-11 Cyfryngau'r Dyfodol
2-12 Y Gwledydd a'r Rhanbarthau
**Rhoi ein strategaeth ar waith**
2-14 Cyflawni Pwrpasau'r BBC
2-16 Y newyddiaduraeth orau yn y byd
2-20 Gwybodaeth, diwylliant a cherddoriaeth sy'n ysbrydoli
2-24 Drama a chomedi uchelgeisiol o'r DU
2-28 Cynnwys eithriadol i blant
2-32 Dod â'r genedl ynghyd
2-36 Amcanion *Sicrhau Ansawdd yn Gyntaf*
**Rheoli'r busnes**
2-38 Arolwg y Prif Swyddog Gweithredu
2-39 Cynyddu gwerth
2-50 Edrych i'r dyfodol
**Llywodraethu**
2-52 Bwrdd Gweithredol
2-54 Risgiau a chyfleoedd
2-56 Adroddiad llywodraethu
**Rheoli ein cyllid**
2-68 Arolwg y Prif Swyddog Ariannol
2-69 Perfformiad ariannol cryno
2-70 Trosolwg ariannol
2-79 Edrych i'r dyfodol
2-80 Y tu hwnt i ddarlledu
2-82 Geirfa
2-83 Cysylltu â ni/Rhagor o wybodaeth


| Mynegai pwnc | Rhan 1 | Rhan 2 |
|---|---|---|
| Mynegai gwerthfawrogiad fesul gwasanaeth | | 2-4 i 2-7 |
| Cymeradwyaeth y gynulleidfa – Dangosydd Perfformiad Allweddol | 1-6 | 2-23 |
| Cydnabyddiaeth y Bwrdd o 2011/12 | | 2-61 |
| Cydnabyddiaeth y Bwrdd 2010/11 | 1-20 | 2-60 |
| Cwmnïau masnachol | 1-19 | 2-46/2-69 |
| Gwariant ar gynnwys fesul gwasanaeth | 1-19 | 2-4 i 2-7 |
| *Sicrhau Ansawdd yn Gyntaf* | 1-7 | 2-36 |
| Newid i ddigidol | 1-9 | 2-40 |
| Natur nodedig – Dangosydd Perfformiad Allweddol | 1-6/1-25 | 2-31 |
| Arbedion | 1-7 | 2-69/2-71 |
| Arloesi | | 2-45 |
| Ffi'r drwydded | 1-24 | 2-3 |
| Gwariant ffi'r drwydded | 1-17 | 2-69/2-73 |
| Cynulleidfaoedd newyddion | 1-8/1-13 | 2-19 |
| Pwrpasau cyhoeddus | 1-8 | 2-14 |
| Ansawdd – Dangosydd Perfformiad Allweddol | 1-6 | 2-27 |
| Radio o'r Gwledydd a'r Rhanbarthau | 1-12 | 2-12 |
| Cyrhaeddiad – Dangosydd Perfformiad Allweddol | 1-6 | 2-35 |
| Cyrhaeddiad fesul gwasanaeth | 1-10 | 2-4 i 2-7 |
| Cyrhaeddiad (sianel BBC News o gymharu â Sky) | | 2-10 |
| Cyrhaeddiad (radio'r BBC o gymharu â'r prif grwpiau masnachol) | | 2-9 |
| Cyrhaeddiad (teledu rhwydwaith y BBC o gymharu â'r prif grwpiau masnachol) | | 2-8 |
| Perfformiad gwasanaeth | 1-10 | 2-4 i 2-7 |
| Rheoli staff a chydnabyddiaeth | 1-37 | 2-41 |
| Costau talent | 1-18 | 2-44 |
| Amser a dreuliwyd gyda'r gwasanaeth | | 2-4 i 2-7 |
| Gwariant yr Ymddiriedolaeth | 1-37 | |
| Ymddiriedolaeth – Dangosydd Perfformiad Allweddol | 1-6 | 2-19 |
| Cydnabyddiaeth yr Ymddiriedolwyr | 1-35 | |
| Cynllun gwaith yr Ymddiriedolaeth 2011/12 | 1-42 | 2-12 |
| Gwariant rhaglennu teledu fesul Rhanbarth | | 2-12 |
| Gwerth am arian: Cost Fesul Defnyddiwr fesul gwasanaeth | | 2-4 i 2-7 |


Clawr blaen: Yn *Pompeii: Life and Death in a Roman Town,* ar BBC Two, cyflwynodd yr athro Mary Beard o Gaergrawnt gipolwg i fywydau'r bobl a oedd yn byw yng nghysgod Mynydd Vesuvius cyn y ffrwydrad trychinebus.

**Cyflwynwyd i'r Senedd yn unol â Siarter Frenhinol y BBC 2006 (adran 45), sydd ar gael yn www.bbc.co.uk/bbctrust/about/how_we_govern/charter_and_agreement/.**

# Cyflwyniad y Cyfarwyddwr Cyffredinol



Ychydig nosweithiau yn ôl, eisteddais gyda'm plant, sydd yn eu harddegau, i wylio rhan gyntaf y gyfres ddogfen gan BBC Three *Our War.* Roedd yn wefreiddiol, yn ingol, yn dorcalonnus. Ac yn hollol afaelgar. Roedd yn nodweddiadol o uchafbwyntiau'r hyn a gyflawnwyd gan y BBC y llynedd.

Adroddodd hanes profiadau milwyr cyffredin o Brydain yn rhyfel Affganistan yn eu geiriau eu hunain a thrwy ddelweddau a recordiwyd ganddynt gan ddefnyddio camerâu helmed.

Drannoeth, clywais fod *Our War* wedi ennill y sgôr cymeradwyaeth uchaf ond un erioed am ansawdd ar gyfer unrhyw un o raglenni ffeithiol y BBC, a'i fod hefyd wedi denu cynulleidfa fawr, ifanc iawn ac amrywiol – gan gynnwys pobl o oedrannau a chefndiroedd tebyg i'r bobl ifanc sy'n ymladd ar ran y wlad hon yn Affganistan, pobl nad ydynt yn aml, os o gwbl, yn gwylio *Panorama*, *Newsnight* (na Sky News nac ITN o ran hynny) ac nad ydynt byth yn darllen papur newydd difrifol.

I mi, mae'r ymrwymiad hwn – nid yn unig i 'bregethu i'r côr', ond i gyflwyno newyddiaduraeth ddifrifol a grymus, gwybodaeth a diwylliant i bawb, gan gynnwys y rheini nad ydynt yn ysu'n naturiol am hynny, ac i sicrhau eu bod mor gymhellol ac ysbrydoledig fel nad yw pobl am eu methu – wrth wraidd yr hyn y mae'n ei olygu i weithredu fel darlledwr cyhoeddus.


Bu'n flwyddyn eithriadol i raglenni gwyddoniaeth – ac nid yn unig ar BBC Radio 4 a BBC Four. Cyflwynodd Brian Cox ryfeddodau'r system solar a'r bydysawd i gynulleidfaoedd eang ar BBC Two, ac yn *Bang Goes The Theory*, cyflwynwyd gwyddoniaeth ddifrifol i wylwyr cyffredin ar BBC One. Roedd *A History of the World in 100 Objects* yn ffenomenon ar BBC Radio 4, ond cafwyd hefyd fynegiadau ac estyniadau ohono ar CBBC, Radio Lleol y BBC ac wrth gwrs ein gwefan, gyda'r bartneriaeth â'r Amgueddfa Brydeinig yn un o blith cyfres gynyddol o gysylltiadau rhwng y BBC a sefydliadau diwylliannol eraill. Roedd opera ar y BBC – menter fawr arall yn 2010 – yn cynnwys nid yn unig yr *Opera Italia* ardderchog gan Tony Pappano, ond hefyd Stephen Fry ar Wagner.

Cafodd Proms y BBC ei dymor mwyaf uchelgeisiol a chyffrous ers tro, a chafodd drama ar y teledu lwyddiant creadigol ar lwyfan eang iawn: o *Sherlock* gan Stephen Moffat i'r *Five Daughters* bythgofiadwy – enghraifft eithriadol o gomisiynu, ysgrifennu a chynhyrchu dewr yn cael eu gwobrwyo gan ymrwymiad cyfatebol gan y gynulleidfa. Bu'n flwyddyn anhygoel o ran newyddion rhyngwladol gyda'r tswnami yn Japan, digwyddiadau yn y Dwyrain Canol a marwolaeth Osama Bin Laden. Ymatebodd ein newyddiadurwyr i bob her, gan aberthu cwsg a'u diogelwch personol.

Bu perfformiad a chymeradwyaeth y gynulleidfa yn gadarn, gyda thwf pellach i lawer o wasanaethau digidol, ond wrth gwrs, cafwyd rhai problemau hefyd. Yn ogystal â chamgymeriadau creadigol achlysurol, atgoffodd achos Miriam O'Reilly y BBC cyfan o'n dyletswydd i adlewyrchu pob rhan o'r gymdeithas a wasanaethir gennym, waeth beth fo'u hoedran, ethnigrwydd neu ffactorau eraill, ar yr awyr ac yn ein holl arferion cyflogaeth. Yn 2011 a thu hwnt, mae angen i ni ddysgu'r gwersi penodol a'r gwersi mwy cyffredinol o'r achos.

Bu digwyddiadau mawr y tu ôl i'r llenni yn ystod 2010/11 hefyd, gan gynnwys yn arbennig y ffaith ein bod wedi llwyddo i gwblhau setliad ffi'r drwydded yn yr amser cyflymaf erioed hydref diwethaf. Mae'r setliad yn rhoi sicrwydd i'r BBC o ran ei gyllid am sawl blwyddyn a bydd yn ein helpu i gynllunio dyfodol ein gwasanaethau yn hyderus. Ond, fel gyda phob sefydliad diwylliannol cyhoeddus arall, mae'r setliad yn golygu bod angen dod o hyd i arbedion a gwneud dewisiadau anodd. Yn 2010, cymerwyd camau sylweddol gennym i flaenoriaethu gwariant ar gynnwys a gwasanaethau, gan leihau cyflogau a niferoedd yr uwch reolwyr a ffioedd ein talentau gorau, a gwneud llawer o arbedion eraill. Eleni, byddwn yn rhoi cam nesaf yr agenda honno ar waith fel rhan o gynllun cynhwysfawr ar gyfer y BBC rhwng nawr a diwedd ein Siarter Frenhinol yn 2016.

Rydym yn gweithio'n galed ar y cynllun hwn ar hyn o bryd. Yn anochel, mae llawer o gwestiynau a phenderfyniadau anodd i'w hystyried. Fodd bynnag, gwyddwn y bydd ein corff llywodraethu, sef Ymddiriedolaeth y BBC, a'r cyhoedd ym Mhrydain yn awyddus i sicrhau y bydd yr ymrwymiad i ansawdd a gwreiddioldeb a oedd yn amlwg yn uchafbwyntiau 2010/11 yn llywio ein holl benderfyniadau am y dyfodol. Nawr fwy nag erioed, rydym yn benderfynol o roi ansawdd yn gyntaf.



**Mark Thompson**
**Cyfarwyddwr Cyffredinol**
**23 Gorffennaf 2011**

# Dod i ddeall cyllid y BBC

Mae'r BBC yn creu, comisiynu a darlledu mwy o oriau o raglennu teledu a radio gwreiddiol nag unrhyw sefydliad darlledu arall – gyda'r mwyafrif helaeth ohono yn cael ei gynhyrchu yn y DU.

Drwy ein holl weithgareddau, gweledigaeth graidd y BBC yw sicrhau mai ef yw'r sefydliad mwyaf creadigol yn y byd a chyfoethogi bywydau pobl â rhaglenni a gwasanaethau gwreiddiol o ansawdd a gwerth uchel sy'n hysbysu, yn addysgu ac yn diddanu.

## Grŵp y BBC

### BBC World Service

**£299m**

Incwm tanysgrifiadau cymorth grant

Dechreuodd **BBC World Service** ddarlledu newyddion a gwybodaeth i'r byd ar y radio yn 1932. Heddiw, mae'r gwasanaeth radio gwreiddiol wedi'i ymestyn a cheir gwasanaeth teledu ac ar-lein.

Y llynedd, trodd dros 240 miliwn o bobl ledled y byd at y BBC i gael newyddion, dadansoddiadau a gwybodaeth ddiduedd ac annibynnol.

Ariennir **BBC Monitoring** gan Swyddfa'r Cabinet. Mae'n gyhoeddwr newyddion a gwybodaeth ffynhonnell agored, sy'n cynnig newyddion, sylwebaeth ac ymatebion bob awr o'r dydd gan wasg, radio, teledu a rhyngrwyd y byd. Caiff adroddiadau eu cyfieithu i Saesneg o dros 100 o ieithoedd, o Afrikaans i Yoruba.

#### Edrych i'r dyfodol

Fel rhan o Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant y Llywodraeth, cytunwyd y byddai'r broses o ariannu BBC Monitoring a BBC World Service yn trosglwyddo i ffi'r drwydded o 1 Ebrill 2013 a 1 Ebrill 2014 yn y drefn honno.

Ym mis Ionawr, cyhoeddwyd toriadau i rai o'r gwasanaethau iaith a'r darllediadau radio gennym, gan gynnwys cau pum gwasanaeth iaith (gyda chymeradwyaeth yr Ysgrifennydd Tramor).

### Gweithrediadau masnachol

**£206m**

Elw cyfun cyn treth

**BBC Worldwide** yw prif is-gwmni masnachol y BBC sydd o dan berchenogaeth lawn, a'i nod yw creu'r incwm mwyaf posibl o hawliau ac eiddo rhaglenni'r BBC, i wrthbwyso ffi'r drwydded.

Mae **BBC Studios and Post Production** yn cydweithio â'r BBC, darledwyr eraill – ITV, Channel 4, Channel Five a Sky – yn ogystal â chwmnïau cyfryngau eraill a chwmnïau cynhyrchu annibynnol i greu cynnwys gwych.

Mae **BBC World News** yn cynnig newyddion, gwybodaeth a dadansoddiadau 24 awr yn Saesneg ledled y byd. Fe'i hariennir drwy refeniw hysbysebu a thanysgrifiadau.

#### Edrych i'r dyfodol

Ni chaiff gweithrediadau masnachol y BBC eu heithrio o'n cenhadaeth gyhoeddus. Yn dilyn arolwg o'r mandad, y strategaeth a'r trefniadau llywodraethu ar gyfer gweithgarwch masnachol y BBC, a gynhaliwyd gan Ymddiriedolaeth y BBC, cyhoeddwyd newidiadau i'r ffordd y dylai BBC Worldwide, yn arbennig, weithredu ym mis Medi 2009.

Ers hynny, bu BBC Worldwide yn gweithio i ail-alinio ei weithgareddau yn gliriach i sicrhau gwerth o eiddo deallusol a brandiau presennol y BBC – ac felly ymateb yn y ffordd orau i fuddiannau talwyr ffi'r drwydded.

### Gwasanaethau a ariennir gan ffi'r drwydded

**£3,513m**

Incwm o ffi'r drwydded

Sefydlir y BBC drwy Siarter Frenhinol ac ariennir ein gweithgareddau darlledu cyhoeddus yn y DU gan ffi'r drwydded, y mae aelwydydd yn y DU yn talu amdani. Y llynedd, gwnaethom gynnig y canlynol i gynulleidfaoedd gartref:

- deg gwasanaeth teledu i'r DU gyfan
- gwasanaethau teledu yng ngwledydd a rhanbarthau Cymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon
- deg rhwydwaith radio i'r DU gyfan
- dau wasanaeth radio cenedlaethol yr un yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon
- 40 o orsafoedd radio lleol yn Lloegr
- Ar-lein

#### Edrych i'r dyfodol

Mae setliad newydd ffi'r drwydded yn golygu y caiff y gost flynyddol fesul aelwyd â thrwydded yn y DU ei chynnal ar ychydig o dan 40c y dydd – ond bydd rhaid i'r BBC dalu'n ychwanegol am BBC World Service a BBC Monitoring, sefydlu cronfa bartneriaeth i hyd at 20 o wasanaethau teledu lleol newydd (cymaint â £25miliwn i ddechrau yn 2013, a £5miliwn y flwyddyn wedi hynny), a sefydlu model partneriaeth newydd i S4C (gan gyfrannu £76miliwn bob blwyddyn yn 2013 a 2014, gyda lefelau ariannu heb eu pennu eto ar gyfer y dyfodol).

Bydd angen arbed mwy na'r bron i £1biliwn a wnaed ers 2008.

## Setliad newydd

Cytunwyd ar setliad chwe blynedd newydd ar gyfer ffi'r drwydded ym mis Hydref y llynedd.

Ar yr un pryd, roeddem wrthi'n diweddaru adroddiad annibynnol gan Deloitte a asesodd effaith economaidd y BBC yn 2008/09. Defnyddiodd diweddariad y BBC yr un fethodoleg ac, ym mis Mawrth, nododd fod ffi'r drwydded, a'r ffordd y mae'r BBC yn ei gwario, yn parhau'n un o gonglfeini economi greadigol y DU.


Mewn hinsawdd economaidd anodd, mae gan ffi'r drwydded effaith sefydlogi gadarn, ac i fusnesau llai a chynhyrchwyr annibynnol, gall sicrwydd cyllid gan y BBC, weithiau dros sawl blwyddyn, fod yn allweddol i'w goroesiad a'u llwyddiant.

Daeth adroddiad y BBC i'r casgliad fod y BBC wedi gwneud cyfraniad economaidd o £8.1biliwn o leiaf i economi'r DU yn 2009/10 (cynnydd o 5.6% o'r gwerth o £7.6biliwn a gofnodwyd yn yr arolwg blaenorol), gan olygu bod dros £2 o werth economaidd yn cael ei gynhyrchu gan bob £1 o ffi'r drwydded. Ein nod yw parhau i ddarparu gwerth economaidd sydd o leiaf ddwywaith gwerth ffi'r drwydded yn y dyfodol, gan ledaenu'r gwerth ledled y DU.


Byddwn yn ailadrodd yr ymarfer hwn bob dwy flynedd ac yn cyhoeddi adroddiad ar ein llwyddiant o ran cyrraedd y targed hwn. I ddarllen adroddiadau 2008/09 a 2009/10 ewch i www.bbc.co.uk/aboutthebbc/reports/.

## Eleni, roedd ffi'r drwydded yn £145.50. Dyma sut y cafodd ei gwario:

### Taliad misol fesul ffi'r drwydded




### Cyfraddau ffi'r drwydded ledled Ewrop £ 2010/11




## Sicrhau gwerth


Mae angen i bawb yn y DU sy'n gwylio'r teledu neu sy'n ei recordio wrth iddo gael ei ddarlledu feddu ar drwydded deledu. Mae hyn yn cynnwys teledu ar gyfrifiaduron, ffonau symudol, recordwyr DVD/fideo a dyfeisiau eraill. Ochr yn ochr ag Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant y Llywodraeth, cytunwyd ar setliad chwe blynedd newydd ar gyfer ffi'r drwydded gyda'r Ysgrifennydd Gwladol ym mis Hydref y llynedd, a wnaeth, i bob pwrpas, rewi ffi'r drwydded ar lefel 2010, sef £145.50, tan ddiwedd cyfnod Siarter Frenhinol bresennol y BBC – sy'n cyfateb i ychydig o dan 40c fesul aelwyd â thrwydded gyfredol fesul diwrnod.

## Testun cenfigen ledled y byd

Lansiwyd y wefan www.proudofthebbc.com, y pwnc cysylltiedig ar Twitter #proudofthebbc ac arlwy cerddorol y digrifwr Mitch Benn ar YouTube – sydd wedi denu dros 127,000 o wylwyr gyda'r nifer yn cynyddu o hyd – oll ym mis Hydref pan gyhoeddodd y llywodraeth y byddai ffi'r drwydded yn rhan o'i Hadolygiad o Wariant. Maent oll yn parhau i ddenu ymwelwyr o bob cwr o'r byd, ac yn ennyn sylwadau cadarnhaol tu hwnt.

Ffynhonnell: Cymdeithas Ffioedd Darlledu. Mae pob trwydded yn rhedeg am flwyddyn galendr ac eithrio'r DU sy'n rhedeg o 1 Ebrill i 31 Mawrth. Defnyddiwyd cyfradd gyfnewid yr Ewro ar 1 Ionawr 2011 (£1=€1.17). Mae'r gost yn cyfateb i'r cyfanswm fesul trwydded i gwsmer domestig ar gyfer teledu a radio. Mae'r rhai wedi'u marcio * yn cynnwys TAW.

### Gwariant y BBC yn yr economi greadigol £m




## Buddsoddi yng ngoreuon Prydain

Gall effaith gronnol a phŵer gwario dros 20 miliwn o drwyddedau teledu ddarparu mwy na dim ond cynnwys. Yn ogystal â thros 17,000 o aelodau o staff mewnol, gallwn roi gwaith i lawer o unigolion llawrydd a miloedd o fusnesau bach a mawr ledled y DU – gan gynnig buddiannau cynaliadwy i ddiwydiannau digidol a chreadigol yn ogystal â'r economi ehangach ym Mhrydain.

# Perfformiad fesul gwasanaeth

## Teledu rhwydwaith

BBC One yw sianel deledu fwyaf poblogaidd y DU, gan ddarlledu'r amrywiaeth ehangaf o raglenni o safon o blith unrhyw rwydwaith prif ffrwd yn y DU. Lansiwyd cyd-ddarllediad HD o BBC One rhwydwaith, gyda'r rhan fwyaf o raglenni oriau brig mewn HD, ym mis Tachwedd.

Daw BBC Two â rhaglenni cynhwysfawr o sylwedd i gynulleidfa eang. Mae'n cynnig y swm a'r amrywiaeth mwyaf o ddeunydd rhaglennu ffeithiol gwreiddiol o blith holl sianelau teledu'r BBC, gan gyfuno hynny â deunydd celfyddydol, comedi a drama nodedig.

Mae BBC Three yn ymrwymedig i gynnwys a thalent arloesol o Brydain. Nod y sianel yw darparu ystod eang o raglenni a anelir at gynulleidfaoedd iau yn bennaf.

Nod BBC Four yw sicrhau mai hi yw'r sianel sy'n cynnig y cyfoeth deallusol a diwylliannol gorau ym Mhrydain, gan gynnig amrywiaeth uchelgeisiol o raglenni celfyddydol, cerddoriaeth, diwylliant a ffeithiol o'r DU ac yn rhyngwladol.

Mae sianel CBBC yn cynnig amserlen gymysg nodedig i blant 6-12 oed, gan ddarlledu rhaglenni o'r DU yn bennaf mewn amgylchedd ysgogol, creadigol a phleserus.

Nod CBeebies yw cynnig cyfuniad o raglenni o ansawdd uchel, wedi'u cynhyrchu yn y DU yn bennaf, sydd wedi'u cynllunio i annog dysgu drwy chwarae mewn amgylchedd cyson ddiogel i blant o dan chwech oed.

Mae sianel BBC HD yn llwyfan teledu manylder uwch ar gyfer amrywiaeth o ddeunydd rhaglennu o bob un o wasanaethau teledu eraill y BBC.

Mae BBC ALBA yn cynnig amrywiaeth nodedig o ddeunydd rhaglennu gwreiddiol i siaradwyr a dysgwyr Gaeleg sy'n adlewyrchu ac yn cefnogi diwylliant, hunaniaeth a threftadaeth Gaeleg.

| | **Cynnwys** £m<br>Gwariwyd cyfanswm o £1,801.3miliwn gennym ar gynnwys ar gyfer y gwasanaethau hyn y llynedd | | **Cyrhaeddiad** %<br>Poblogaeth y DU sy'n defnyddio'r gwasanaeth bob wythnos | | **Amser a dreuliwyd yn gwylio sianel bob wythnos** oriau:munudau<br>Y cyfnod o amser a dreuliodd gwylwyr cyffredin gyda'r sianel bob wythnos | | **Mynegai gwerthfawrogiad fesul gwasanaeth** %<br>Cyfanswm faint y nododd pobl eu bod wedi mwynhau rhaglenni unigol, wedi'i fynegi fel rhif allan o 100 | | **Costau fesul Awr Defnyddiwr** c<br>Faint mae'n ei gostio i gyflwyno pob gwasanaeth i ddefnyddwyr unigol | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| BBC One | 1,130.9 | (1,113.1) | 78.8 | (77.3) | 07:25 | (07:11) | 81 | (81) | 6.4 | (6.7) |
| BBC Two | 421.0 | (450.0) | 55.1 | (55.7) | 03:29 | (03:31) | 83 | (82) | 7.4 | (7.7) |
| BBC Three | 84.7 | (87.5) | 22.7 | (20.7) | 01:45 | (01:38) | 83 | (84) | 7.0 | (8.6) |
| BBC Four | 50.8 | (54.5) | 10.6 | (8.9) | 01:37 | (01:29) | 84 | (83) | 9.8 | (14.0) |
| CBBC† | 78.3 | (39.9) | 7.0 | (5.6) | 02:56 | (02:44) | dd/g | (dd/g) | 8.6 | (8.8) |
| CBeebies† | 28.5 | (18.1) | 8.6 | (8.3) | 04:02 | (04:01) | dd/g | (dd/g) | 2.5 | (1.8) |
| BBC HD | 2.1 | (1.6) | 3.4 | (1.6) | 01:57 | (01:57) | dd/g | (dd/g) | 1.0 | (1.6) |
| BBC ALBA* | 5.0 | (4.3) | 4.3 | (4.3) | dd/g | (dd/g) | dd/g | (dd/g) | 21.8 | (20.6) |

Metrig newydd ar gyfer 2010/11. (Amser a dreuliwyd yn gwylio sianel bob wythnos)

Metrig newydd ar gyfer 2010/11. (Costau fesul Awr Defnyddiwr)

Diffiniad o gyrhaeddiad: 15 munud ar gyfer pob sianel a gwasanaeth ac ar gynulleidfaoedd 4+ oed, yn unol â safonau'r diwydiant.
( ) Ffigurau mewn cromfachau o 2009/10.
Ffynhonnell: BARB.
* Ffynhonnell: TNS SOS; Sylfaen: Pawb 16+ oed yn yr Alban.
† Newidiodd y fethodoleg ar gyfer pennu gwariant ar gynnwys CBBC a CBeebies yn 2010/11, yn dilyn arolwg Ymddiriedolaeth y BBC o wasanaethau plant yn 2009.

# Radio rhwydwaith

Nod BBC Radio 1 yw cynnig gwasanaeth o ansawdd uchel i gynulleidfaoedd ifanc gan gyfuno'r gerddoriaeth a'r artistiaid newydd gorau, ac mae'n cynnig llwyfan i gerddoriaeth fyw, newyddion ac ymgyrchoedd cyngor.

Mae BBC 1Xtra yn chwarae'r gerddoriaeth ddu gyfoes orau â phwyslais cryf ar gyflwyno cerddoriaeth fyw o ansawdd uchel a chefnogi artistiaid newydd o'r DU.

Mae BBC Radio 2 yn cynnig amrywiaeth eang o gerddoriaeth boblogaidd ac arbenigol a pherfformiadau byw i wrandawyr, a ategir gan amrywiaeth eang o allbwn llafar gan gynnwys materion cyfoes, rhaglenni dogfen, crefydd a'r celfyddydau.

Mae BBC Radio 3 yn canolbwyntio ar gerddoriaeth glasurol, gan ddarparu sbectrwm eang o jazz, cerddoriaeth y byd, rhaglenni celfyddydol, crefydd a drama; ceir pwyslais cryf ar berfformiadau cerddorol o bob cwr o'r DU.

Mae BBC Radio 4 yn wasanaeth llafar cymysg, sy'n cynnig newyddion a materion cyfoes manwl ac ystod eang o ddeunydd rhaglennu deallusol arall mewn sawl genre gan gynnwys drama, darlleniadau, comedi, rhaglenni ffeithiol a rhaglenni cylchgrawn.

Mae BBC Radio 4 Extra yn darparu adloniant llafar gan gynnwys comedi, eitemau nodwedd, drama a darlleniadau, yn ogystal â rhaglenni i blant. Daw'r rhan fwyaf o'i allbwn o archif y BBC, er ei fod yn comisiynu rhywfaint o gynnwys gwreiddiol. (BBC Radio 7 gynt).

Mae BBC Radio 5 Live yn darlledu newyddion a chwaraeon byw 24 awr y dydd, gan ddarlledu digwyddiadau wrth iddynt ddigwydd a darparu cyd-destun drwy ddadansoddiadau a thrafodaeth.

Mae BBC Radio 5 Live Sports Extra yn rhwydwaith rhan amser sy'n cynnig darllediadau chwaraeon ychwanegol drwy ddefnyddio hawliau y mae'r BBC eisoes yn berchen arnynt, gan gynnig felly werth gwell i dalwyr ffi'r drwydded.

Nod BBC 6Music yw diddanu'r rhai sy'n mwynhau cerddoriaeth boblogaidd drwy gynnig y gerddoriaeth orau o archif sain y BBC yn ogystal â cherddoriaeth gyfoes o'r tu allan i'r brif ffrwd, wedi'u hategu gan newyddion a rhaglenni dogfen am gerddoriaeth.

Mae BBC Asian Network yn cynnig allbwn llafar a cherddoriaeth sy'n apelio i Asiaid Prydeinig, gyda ffocws cryf ar newyddion a materion cyfoes. Mae'n darlledu yn Saesneg yn bennaf, ond mae'n cynnig rhai rhaglenni mewn ieithoedd eraill.

| | **Cynnwys** £m<br>Gwariwyd cyfanswm o £300.0miliwn gennym ar gynnwys ar gyfer gwasanaethau radio rhwydwaith y llynedd | | **Cyrhaeddiad** %<br>Poblogaeth y DU sy'n defnyddio'r gwasanaeth bob wythnos | | **Amser a dreuliwyd yn gwrando ar sianel bob wythnos** oriau:munudau<br>Y cyfnod o amser a dreuliodd gwrandawyr cyffredin gyda'r sianel bob wythnos | | **Mynegai gwerthfawrogiad fesul gwasanaeth** %<br>Cyfanswm faint y nododd pobl eu bod wedi mwynhau rhaglenni unigol, wedi'i fynegi fel rhif allan o 100 | | **Costau fesul Awr Defnyddiwr** c<br>Faint mae'n ei gostio i gyflwyno pob gwasanaeth i ddefnyddwyr unigol | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| BBC Radio 1 | 36.7 | (32.2) | 22.6 | (21.9) | 08:05 | (08:48) | 77 | (77) | 0.7 | (0.6) |
| BBC 1Xtra | 7.4 | (6.5) | 1.5 | (1.2) | 04:46 | (05:46) | 80 | (dd/g) | 3.9 | (3.6) |
| BBC Radio 2 | 46.7 | (40.4) | 27.2 | (26.9) | 11:54 | (11:54) | 81 | (81) | 0.5 | (0.5) |
| BBC Radio 3 | 37.3 | (40.8) | 4.1 | (3.9) | 05:50 | (06:11) | 82 | (83) | 5.9 | (6.3) |
| BBC Radio 4 | 92.8 | (86.7) | 20.3 | (19.5) | 12:06 | (12:22) | 80 | (79) | 1.4 | (1.3) |
| BBC Radio 4 Extra | 5.3 | (5.0) | 2.0 | (1.8) | 05:56 | (05:58) | 80 | (dd/g) | 1.7 | (1.7) |
| BBC Radio 5 Live | 55.4 | (55.0) | 12.9 | (12.3) | 07:33 | (07:22) | 76 | (75) | 2.1 | (2.3) |
| BBC 5 Live Sports Extra | 2.5 | (2.5) | 1.3 | (1.4) | 02:42 | (02:56) | 84 | (dd/g) | 2.6 | (2.2) |
| BBC 6Music | 7.3 | (6.5) | 2.3 | (1.4) | 08:23 | (06:27) | 81 | (dd/g) | 1.4 | (2.7) |
| BBC Asian Network | 8.6 | (8.9) | 0.9 | (0.7) | 05:19 | (05:28) | 71 | (dd/g) | 6.7 | (8.5) |

Amser a dreuliwyd yn gwrando: Metrig newydd ar gyfer 2010/11.

Costau fesul Awr Defnyddiwr: Metrig newydd ar gyfer 2010/11.

Diffiniad o gyrhaeddiad: 15 munud ar gyfer pob sianel ac ar gynulleidfaoedd 15+ oed, yn unol â safonau'r diwydiant.
( ) Ffigurau mewn cromfachau o 2009/10.
Ffynonellau: RAJAR.

# Cyfryngau'r Dyfodol

BBC

ONLINE MOBILE RED BUTTON

Mae BBC Ar-lein yn darparu cynnwys arloesol a nodedig ar-lein sy'n adlewyrchu ac yn ehangu amrywiaeth gwasanaethau darlledu'r BBC.

Mae BBC Red Button yn cynnig gwasanaethau a chynnwys rhyngweithiol i wylwyr teledu digidol, gan gynnwys y cynnwys a'r wybodaeth ddiweddaraf drwy'r dydd, gan gynnwys newyddion, y tywydd, dysgu, adloniant, rhaglennu rhyngweithiol a chefnogi digwyddiadau o bwys.

| | **Cynnwys** £m<br>Gwariwyd cyfanswm o £140.7miliwn gennym ar gynnwys ar gyfer y gwasanaethau hyn y llynedd | **Cyrhaeddiad** %<br>Poblogaeth y DU sy'n defnyddio'r gwasanaeth bob wythnos | **Amser a dreuliwyd gyda phob gwasanaeth bob wythnos** oriau:munudau<br>Y cyfnod o amser a dreuliodd defnyddwyr cyffredin gyda'r sianel bob wythnos | **Mynegai gwerthfawrogiad fesul gwasanaeth** %<br>Cyfanswm faint y nododd pobl eu bod wedi mwynhau rhaglenni unigol, wedi'i fynegi fel rhif allan o 100 | **Costau fesul Defnyddiwr a Gyrhaeddir** c<br>Faint mae'n ei gostio i gyflwyno pob gwasanaeth i ddefnyddwyr unigol |
|---|---|---|---|---|---|
| BBC Ar-lein | 125.8 (126.7) | 41.0 (37.0) | dd/g | 80 (81) | 8.5 (8.9) |
| BBC Red Button | 14.9 (14.2) | 31.0 (29.0) | dd/g | 77 (75) | 2.3 (2.2) |

Amser a dreuliwyd: Metrig newydd ar gyfer 2010/11.

Costau fesul Defnyddiwr a Gyrhaeddir: Metrig newydd ar gyfer 2010/11.

Diffiniad o gyrhaeddiad: 3+ munud ar gyfer y ddau wasanaeth, ac ar gynulleidfaoedd 16+ oed, yn unol â safonau'r diwydiant.
( ) Ffigurau mewn cromfachau o 2009/10.
Ffynonellau: CMI (Ar-lein); Nunwood (Red Button).

# Newyddiaduraeth, a gwasanaethau radio cenedlaethol a lleol

Mae sianel BBC News yn cynnig newyddion cyfoes, cywir, diduedd ac annibynnol a darllediadau cynhwysfawr o ddigwyddiadau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol. Mae'n cynnig dadansoddiadau arbenigol o'r straeon mwyaf arwyddocaol er mwyn rhoi'r newyddion mewn cyd-destun.

Mae BBC Parliament yn sicrhau bod gwaith cyrff seneddol a deddfwriaethol y DU a Senedd Ewrop yn hygyrch i bawb, ac yn cynnig dadansoddiadau a chyd-destun ar gyfer y materion sy'n sail i ddadleuon seneddol.

Mae BBC Global News yn cyfuno BBC World Service, sianel deledu BBC World News, gwasanaethau newyddion ar-lein rhyngwladol y BBC yn Saesneg, BBC Monitoring ac Ymddiriedolaeth BBC World Service.

Mae Radio Lleol y BBC yn darparu gwasanaeth llafar yn bennaf sy'n cynnig newyddion, gwybodaeth a thrafodaethau, gyda phwyslais cryf ar ryngweithedd.

Mae BBC Radio Scotland yn wasanaeth llafar i oedolion; mae BBC Radio nan Gàidheal yn wasanaeth radio llafar a cherddoriaeth i siaradwyr Gaeleg. Mae'r ddau wasanaeth yn cynnig amrywiaeth eang o genres ac yn adlewyrchu materion, digwyddiadau, diwylliant a buddiannau pobl yr Alban.

Mae BBC Radio Wales yn wasanaeth llafar i oedolion; mae BBC Radio Cymru yn wasanaeth radio llafar a cherddoriaeth i siaradwyr Cymraeg. Mae'r ddau wasanaeth yn cynnig amrywiaeth eang o genres ac yn adlewyrchu materion, digwyddiadau, diwylliant a buddiannau pobl Cymru.

Mae BBC Radio Ulster/Foyle yn wasanaeth llafar sy'n cwmpasu amrywiaeth eang o genres ac yn adlewyrchu pob agwedd ar fywyd cyfoes yng Ngogledd Iwerddon, gan gyfuno darllediadau o faterion, buddiannau a digwyddiadau lleol â darllediadau o ddatblygiadau cenedlaethol a rhyngwladol.

| | **Cynnwys** £m<br>Gwariwyd cyfanswm o £232.50miliwn gennym ar gynnwys ar gyfer y gwasanaethau hyn y llynedd | | **Cyrhaeddiad*** %<br>Poblogaeth y DU sy'n defnyddio'r gwasanaeth bob wythnos | | **Amser a dreuliwyd yn gwylio neu'n gwrando ar sianel bob wythnos** oriau:munudau<br>Y cyfnod o amser a dreuliodd gwylwyr neu wrandawyr cyffredin gyda'r sianel bob wythnos | | **Mynegai gwerthfawrogiad fesul gwasanaeth** %<br>Cyfanswm faint y nododd pobl eu bod wedi mwynhau rhaglenni unigol, wedi'i fynegi fel rhif allan o 100 | | **Costau fesul Awr Defnyddiwr** c<br>Faint mae'n ei gostio i gyflwyno pob gwasanaeth i ddefnyddwyr unigol | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Sianel BBC News | 47.1 | (47.8) | 12.2 | (8.7) | 02:37 | (02:23) | dd/g | (dd/g) | 4.9 | (7.6) |
| BBC Parliament | 2.0 | (2.4) | 0.5 | (0.3) | 01:40 | (01:27) | dd/g | (dd/g) | 8.2 | (14.1) |
| Radio Lleol y BBC yn Lloegr | 114.8 | (110.2) | 17.3 | (16.9) | 09:35 | (09:38) | 80 | (80) | 3.2 | (3.2) |
| BBC Radio Scotland | 23.8 | (24.9) | 22.2 | (21.2)[1] | (Cyfartaledd cyfunol ar draws radio Lleol a'r Gwledydd y BBC) | | 79 | (75)[1] | 6.8 | (7.8) |
| BBC nan Gàidheal | 3.8 | (4.2) | | | | | | | 13.7 | (16.7) |
| BBC Radio Wales | 13.0 | (13.1) | 18.6 | (16.7) | | | 82 | (82)[2] | 5.7 | (5.9) |
| BBC Radio Cymru | 11.8 | (12.3) | 5.9 | (5.8) | | | | | 12.9 | (13.7) |
| BBC Radio Ulster/Foyle | 16.2 | (14.4) | 36.9 | (35.4) | | | 84 | (80) | 4.8 | (4.3) |

Amser a dreuliwyd: Metrig newydd ar gyfer 2010/11.

Costau fesul Awr Defnyddiwr: Metrig newydd ar gyfer 2010/11.

Diffiniad o gyrhaeddiad: 15 munud ar gyfer pob sianel a gwasanaeth, ac ar gynulleidfaoedd 4+ oed (teledu) a 15+ oed (radio).

* Byddai cyrhaeddiad tri munud ar gyfer sianel BBC News a BBC Parliament – yn unol â safonau'r diwydiant ar gyfer gwasanaethau newyddion – yn 18.1% a 1.2% yn y drefn honno, cynnydd eto o gymharu â'r flwyddyn flaenorol.

[1] Mae'r ffigur yn cynnwys BBC Radio Scotland a BBC Radio nan Gàidheal.

[2] Mae'r ffigur yn cynnwys BBC Radio Wales a BBC Radio Cymru.

( ) Ffigurau mewn cromfachau o 2009/10.

Ffynonellau: BARB (teledu); RAJAR (Radio); Lèirsinn.

# Teledu



Ein cenhadaeth yw cynhyrchu rhaglenni arloesol a gwreiddiol o'r ansawdd gorau posibl ar draws pob genre. Mae darllediadau sy'n uno'r DU ar adegau allweddol, gan sicrhau ein bod wrth wraidd digwyddiadau cenedlaethol, yn hollol greiddiol i'n rôl.

George Entwistle
Cyfarwyddwr, Gwasanaethau Gweledol

**Cyrhaeddiad wythnosol teledu rhwydwaith y BBC o gymharu â'r prif grwpiau masnachol %**

| | 2011 | (2010) |
|---|---|---|
| **Holl deledu'r BBC** | 86.1 | (84.9) |
| **Cyfanswm sianelau eraill** | 83.9 | (79.9) |
| **Holl ITV** | 75.6 | (74.8) |
| **Holl Channel 4** | 66.9 | (66.1) |
| **Holl Channel Five** | 44.5 | (43.9) |
| **Holl Sky** | 40.9 | (39.3) |

( ) Cymaryddion 2010 yw'r ffigurau mewn cromfachau.

## 640 awr

Gwnaethom gynhyrchu dros 640 awr o ddrama wreiddiol ar draws ein gwasanaethau rhwydwaith – gan gyflwyno 44 o ddarnau newydd sbon.

## 45m

Gwerthfawrogwyd ein buddsoddiad mewn gwyddoniaeth yn helaeth, gyda mwy na 45 miliwn o bobl yn rhannu ein blwyddyn arbennig o raglenni.

### Ein rôl mewn bywyd cenedlaethol

Mae Teledu'r BBC yn parhau wrth wraidd bywyd cenedlaethol gyda bron i 50 miliwn o bobl, bron i naw o bob deg plentyn ac oedolyn, yn dewis gwylio bob wythnos. Mae cynulleidfaoedd yn gwerthfawrogi Drama'r BBC yn arbennig, gyda theitlau BBC One *Sherlock* a *Five Daughters* yn enghreifftiau o'n huchelgais creadigol.

### *Rhoi Ansawdd yn Gyntaf*

Mae ein sianelau yn gwarantu ansawdd uchel ac amrywiaeth o ddeunydd rhaglennu na ddaw cynulleidfaoedd o hyd iddo unrhyw le arall: drama wreiddiol yn ystod y dydd ac i blant wedi'i chynhyrchu yn y DU; *The One Show*, gyda'i naws lleol arbennig, yn fyw yng nghanol yr amserlen oriau brig; comedi newydd nodedig, er enghraifft *Miranda*, *Rev* a *The Trip* ar BBC Two; rhaglenni ffeithiol grymus a grëwyd ar gyfer cynulleidfaoedd iau ar BBC Three; a BBC Four, llwyfan i'r celfyddydau a diwylliant, o lenyddiaeth a bale i *Reggae Britannia*.

### Dod â chynulleidfaoedd ynghyd

Mae pobl yn troi at y BBC ar adegau o goffáu, myfyrio a dathlu. Darlledwyd y Briodas Frenhinol, achlysur anhygoel ac unigryw i Brydain, gan deledu'r BBC i gynulleidfaoedd ledled y byd. Ac yn y DU, dewisodd 75% o wylwyr wylio'r gwasanaeth gyda ni. Diolch i gefnogaeth hael y cyhoedd, bu hefyd yn flwyddyn eithriadol i *Comic Relief*. Ymunodd dros 35 miliwn o bobl â'n rhaglenni, gan godi'r lefel uchaf erioed o arian i'r elusen.

### Gwella ein gwerth i dalwyr ffi'r drwydded

Dair blynedd ar ôl dechrau rhaglen arbedion pum mlynedd heriol, rydym ar y trywydd cywir o hyd i gyflawni gostyngiad o 25% mewn gwariant erbyn 2012/13. Gyda chymorth gwneuthurwyr rhaglenni mewnol ac annibynnol, rydym yn cyflawni arbedion ymhob maes o gostau cynhyrchu. Ein Cost fesul Awr Defnyddiwr y llynedd oedd 6.6c (2010: 7.0c).

# Radio



Mae radio'r BBC wedi ymdrechu i wneud rhaglenni uchelgeisiol o'r ansawdd uchaf. Yn galonogol, drwy ganolbwyntio ar hyn, yn ogystal ag arloesi mwy o fewn y diwydiant radio, rydym yn parhau i ffynnu mewn oes ddigidol.

Tim Davie
Cyfarwyddwr, Sain a Cherddoriaeth

**Cyrhaeddiad wythnosol radio'r BBC o gymharu â'r prif grwpiau masnachol %**

**Holl Radio'r BBC**
2011 67.0 (66.3)

**Holl Radio Masnachol**
2011 64.6 (61.7)

**Absolute Radio**
2011 2.9 (3.0)

**Classic FM**
2011 11.2 (10.8)

**TalkSPORT**
2011 5.6 (4.8)

( ) Cymaryddion 2010 yw'r ffigurau mewn cromfachau.

# 13,700 awr

Darlledwyd cyfanswm o dros 13,700 awr o raglenni newyddion a materion cyfoes ar draws Radio Rhwydwaith y BBC yn unig yn ystod y flwyddyn.

# 42

Comisiynodd BBC Radio 3 42 o ddarnau cerddorol newydd eleni gan gynnwys *A Table of Noises* gan Simon Holt, a berfformiwyd am y tro cyntaf yn y Proms gan enillydd Cerddor Ifanc y BBC, Colin Currie.

### Siarad â'r DU

Atgyfnerthodd radio'r BBC ei gyrhaeddiad eleni, gan sicrhau ei fod yn parhau i gyflwyno radio byw i ddwy ran o dair o boblogaeth y DU bob wythnos gyda rhaglenni nodedig o ansawdd uchel ar bob un o'i orsafoedd. Yn ogystal, erys yr oriau gwrando wythnosol cyfartalog ar lefel o tua 16.6 awr fesul gwrandäwr.

### Dull gweithredu gwahanol

Yn ystod blwyddyn o ansawdd heb ei ail, daeth *A History of the World in 100 Objects* ar BBC Radio 4, a ddaeth hefyd yn llwyddiant ar-lein gan arwain at fwy nag 11 miliwn o lawrlwythiadau, i'w derfyn, ymunodd BBC Radio 1 â radio'r British Forces Broadcasting Service yn Camp Bastion yn Affganistan gan gymryd yr awenau am gyfnod o ddeg awr, lansiodd Chris Evans y *Children's Story Writing Competition* ar BBC Radio 2, a dathlodd BBC Radio 3 *The Genius of Mozart* drwy chwarae pob nodyn a gyfansoddwyd ganddo dros 12 diwrnod ym mis Ionawr.

### Rhaglenni a gwasanaethau cofiadwy

Enillodd radio'r BBC 54 o Wobrau Academi Radio Sony yn 2010, gan gynnwys Gwobr Gorsaf y Flwyddyn y DU ar gyfer BBC Radio 5 Live. Hefyd, roedd lefelau presenoldeb ar gyfer perfformiadau Proms y BBC yn uwch nag erioed a llwyddodd *BBC Radio 1's Big Weekend* ym Mangor i ddiddanu 40,000 o bobl. Lansiwyd Radioplayer, ein partneriaeth gwrando ar-lein gyda radio masnachol y DU, ym mis Mawrth.

### Rhaeadru gwerth

Erys radio yn werth anhygoel am arian a'r gost fesul awr gwrandäwr ar draws y portffolio o sianelau radio yw 1.6c (2009: 1.6c). Rydym yn gweithio'n galed i sicrhau effeithlonrwydd cynyrchiadau mewnol ac rydym yn wynebu mwy o gystadleuaeth gan gynyrchiadau annibynnol yn y WoCC. Yn ogystal, ein nod yw darparu gwerth drwy ein partneriaethau allanol – er enghraifft, llwyddodd *BBC Radio 1's Big Weekend* ym Mangor i gynhyrchu amcangyfrif o £3miliwn i'r economi leol.

# Newyddion



Ein nod yw cyfuno gohebu nodedig gan ddefnyddio llygaid dystion â dadansoddiadau arbenigol – gan egluro nid yn unig beth sy'n digwydd mewn byd sydd weithiau'n gythryblus ond pam. Drwy wneud hyn, ein nod yw cyfiawnhau ymddiriedaeth barhaus y cyhoedd yn ein natur ddiduedd a'n hannibyniaeth.

Helen Boaden
Cyfarwyddwr, Newyddion

## 49

Darlledwyd 49 o raglenni dogfen newydd ar BBC Radio 1 yn ystod y llynedd.

## 100 awr

Cynigiodd sianel BBC News dros 100 awr o newyddion chwaraeon.

### Diwallu anghenion cynulleidfaoedd

Ar gyfartaledd, denwyd mwy nag 80% o oedolion y DU gan newyddion y BBC bob wythnos y llynedd ar y teledu, y radio ac ar-lein. Denodd *Breakfast*, BBC Parliament, sianel BBC News a News Online oll eu cynulleidfaoedd uchaf erioed, gyda News Online yn llwyddo i ddenu cyfartaledd o 11.7 miliwn o ddefnyddwyr wythnosol drwy gydol y flwyddyn, cynnydd o gymharu â 10.2 miliwn y llynedd. Ym maes radio lleol, cafwyd twf trawiadol o ran gwrandawyr wythnosol yn Lloegr – cynnydd o 722,000 ers y llynedd – yn dilyn ymdrech newydd i ganolbwyntio ar uchelgais golygyddol ac adnoddau. Mae lefelau ymddiriedaeth cynulleidfa newyddion y BBC ar eu huchaf ers tair blynedd (Ffynhonnell PBTS).

### Sicrhau ansawdd

Ein gwerthoedd craidd yw cywirdeb, diduedrwydd ac annibyniaeth, wedi'u llywio gan ein hymrwymiad i ohebu gan ddefnyddio llygad dystion a dadansoddiadau arbenigol gartref a thramor. Mae newyddiaduraeth y BBC yn dibynnu ar ansawdd ein golygyddion a'n gohebwyr arbenigol sy'n gweithio i amrywiaeth o wasanaethau a rhaglenni dyddiol ac wythnosol ar bob llwyfan. Rydym yn buddsoddi mewn ymchwiliadau o bwys a materion cyfoes ar y teledu a'r radio na welir mo'u tebyg yn unrhyw ran arall o'r farchnad.

### Straeon cofiadwy

Denodd digwyddiadau mawr gynulleidfaoedd mawr a oedd weithiau ymhlith y cynulleidfaoedd uchaf erioed – yr Etholiad Cyffredinol, yr ymdrech i achub y glowyr yn Chile, y daeargryn yn Japan a'r ansefydlogrwydd yn y Dwyrain Canol. Archwiliwyd cynlluniau gwariant y llywodraeth gennym ymhob un o wasanaethau Newyddion y BBC, gan gynnwys y gwledydd a'r rhanbarthau, o dan un pennawd – 'The Spending Review: Making It Clear'. Gwelodd dros 21 miliwn o bobl ein newyddion teledu ddiwrnod yr adolygiad. Cafodd *Panorama* gydnabyddiaeth eang am ei annibyniaeth wrth ymchwilio i lygredd o fewn FIFA cyn pleidlais Cwpan y Byd.

### Cydweithio

Rydym yn bodloni ein rhaglen bresennol ar gyfer cyflawni arbedion parhaus dros gyfnod o bum mlynedd tra'n cyrraedd ein targedau perfformiad o ran y gynulleidfa a pharhau i ddarparu darllediadau newyddion cynhwysfawr o ansawdd uchel. Er mwyn helpu i wneud hyn, rydym yn rhannu goreuon timau newyddiaduraeth a gohebu'r BBC ar draws mwy o allfeydd: yn Libya, defnyddiwyd cyflwynydd sianel BBC News hefyd i gyflwyno ar gyfer bwletinau BBC One. Yn Japan, cyd-ddarlledodd sianel BBC News a BBC World. Y gost fesul awr defnyddiwr ar gyfer sianel BBC News a BBC Parliament oedd 5.0c (2010: 7.8c)

**Cyrhaeddiad wythnosol newyddion parhaus (000oedd)**

| | 2009/10 | **2010/11** |
|---|---|---|
| Sianel BBC News | 7,896 | **10,367** |
| Sky News | 5,279 | **6,250** |

Ffynhonnell: BARB. Sylfaen: 4+. Cyrhaeddiad tair munud.

Mewn ymateb i Arolwg Lambert o BBC News 24 yn 2002, cynigiodd y BBC ystyried y gydberthynas rhwng BBC News a BBC World News, gan gynnwys ymarfer meincnodi bob tair blynedd gan ymgynghorwyr annibynnol i gadarnhau bod y prisiau cost ymylol yn parhau'n unol ag arfer y farchnad a chanllawiau Masnachu Teg y BBC. Cwblhawyd yr ymarfer meincnodi diweddaraf ym mis Mai 2010 a chadarnhawyd bod hyn yn wir.

# Cyfryngau'r Dyfodol



Bob wythnos, mae miliynau o bobl yn profi gwasanaethau digidol y BBC. Rydym yn bodoli er mwyn cyfuno arloesedd technolegol â deunydd golygyddol o ansawdd uchel er mwyn sicrhau bod y gwasanaethau hyn yn gymhellol, yn hawdd dod o hyd iddynt ac yn hygyrch i bawb.

Ralph Rivera
Cyfarwyddwr, Cyfryngau'r Dyfodol

## 500,000

*The Archers* yw un o raglenni mwyaf poblogaidd y BBC ar alw, gyda thros 500,000 o bodlediadau yn cael eu lawrlwytho bob mis.

## 12.5m

Ar gyfartaledd y llynedd, defnyddiodd 12.5 miliwn o bobl wasanaethau BBC Red Button bob wythnos – i gael newyddion, chwaraeon fel darts a snwcer, a darllediadau fideo aml-sgrîn o ddigwyddiadau fel T in the Park.

## 11.7m

Denodd y wefan Newyddion 11.7 miliwn o ddefnyddwyr y diwrnod ar ôl yr Etholiad Cyffredinol, gan ragori ar y record blaenorol o 9.4 miliwn adeg buddugoliaeth Arlywydd Obama yn 2008.

## 100m

Denodd BBC iPlayer ymhell dros 100 miliwn o geisiadau am raglenni bob mis ar gyfartaledd a chwaraewyd dros 1.6 biliwn o raglenni yn ystod y flwyddyn.

### Cynnwys digidol i bawb

Defnyddiwyd BBC Ar-lein gan gyfartaledd o 20 miliwn o bobl yn y DU bob wythnos y llynedd. Bydd ein cynllun tair blynedd newydd yn rhoi arlwy golygyddol cliriach iddynt er mwyn iddynt allu dod o hyd i'r hyn y maent am ei weld yn gyflym ac yn hawdd. Bydd gan gynnyrch unigol – fel cynnwys newyddion neu gynnwys i blant – gylchoedd gwaith wedi'u diffinio'n glir gan sicrhau bod BBC Ar-lein yn cynnig rhywbeth i bawb. Mae BBC Red Button yn darparu rhyngweithedd pwysig i lawer o'r naw miliwn o unigolion yn y DU nad ydynt ar-lein eto.

### Cynnwys nad yw ar gael unman arall

Bydd gan bob categori o gynnyrch ar-lein strategaeth cynnwys a fydd yn seiliedig ar flaenoriaethau golygyddol *Rhoi Ansawdd yn Gyntaf*, gan sicrhau eu bod yn wahanol i'r hyn a gynigir gan ddarparwyr yn y cyfryngau masnachol. Mae BBC Red Button yn parhau i chwarae rhan bwysig wrth roi pwrpas newydd i'r cynnwys hwnnw ar y teledu, ac yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i wylwyr yn ogystal â gwahanol ffyrdd o wylio chwaraeon a digwyddiadau.

### Cyfryngau'r dyfodol nawr

Mae arloesedd o fewn BBC iPlayer, yn arbennig yr ail-lansiad yn 2010 a'r cymwysiadau ar gyfer ffonau smart a llechi, wedi profi'n boblogaidd gyda chynulleidfaoedd, gyda cheisiadau wythnosol am raglenni yn cynyddu 41% o gymharu â'r llynedd. Ail-lansiodd BBC News yn 2010 gyda defnydd mwy integredig o fideo a delweddau, a mwy o gysylltiadau allanol â gwefannau eraill. Bydd profiadau di-dor a syml, a gwneud llai o bethau'n well, yn sail i'n gweithgarwch ar gyfer y flwyddyn nesaf.

### Cynyddu gwerth

Nid ychwanegiadau dewisol i deledu neu radio mo gwasanaethau digidol bellach, ond maent ynddynt hwy eu hunain yn elfennau pwysig o dirlun y cyfryngau yn yr 21ain ganrif, ac fe'u defnyddir gan ein cynulleidfaoedd i wella eu profiad o gynnwys y BBC. Mae BBC Ar-lein a BBC Red Button yn parhau i ddarparu gwerth am arian i dalwyr ffi'r drwydded, gan gyfrif am ddim ond 4% o wariant ffi'r drwydded y llynedd, a Chost fesul Defnyddiwr a Gyrhaeddir o 8.6c a 2.3c yn y drefn honno (2010: 8.9c, 2.2c).

# Y Gwledydd a'r Rhanbarthau



Lloegr Ar Radio Lleol, cawn rannu profiadau fel yr Etholiad Cyffredinol, tywydd garw'r gaeaf ac ymuno mewn dathliadau cymunedol fel partïon stryd y Briodas Frenhinol (llun). Mae hefyd yn llwyfan pwysig ar gyfer talent leol. Y llynedd, gwyliodd mwy o bobl raglenni newyddion min nos rhanbarthol yn ystod yr wythnos ar BBC One nag mewn unrhyw un o'r pum mlynedd blaenorol, a chynyddodd cynulleidfaoedd Radio Lleol 720,000 i 7.4 miliwn (Ch4). Cynyddodd nifer y defnyddwyr ar-lein hefyd i 6.7 miliwn (o 5.1 miliwn yn Ch1 2010). I gael rhagor o wybodaeth am y BBC ledled Lloegr, ewch i www.bbc.co.uk/england.



Yr Alban Cafwyd cynnydd o 150% mewn oriau rhaglennu teledu rhwydwaith i 611 awr o 243 awr yn 2008/09. Mae hyn wedi denu buddsoddiadau newydd ac wedi cyflwyno cyfleoedd newydd i'n timau cynhyrchu mewnol a'r sector creadigol ehangach. Cyrhaeddodd y bwletin cenedlaethol yn ystod yr wythnos *Reporting Scotland* uchafbwynt o 710,000 o wylwyr cyfartalog bob nos ym mis Rhagfyr (yr uchaf ers 2002), a chynyddodd cyrhaeddiad cyffredinol bwletinau teledu BBC Scotland i 54% (2010: 51%). I gael rhagor o wybodaeth am y BBC yn yr Alban, ewch i www.bbc.co.uk/scotland neu www.bbc.co.uk/alba. Mae'r llun yn dangos y comedi *Limmy's Show*.




Cymru Mae cynulleidfaoedd yn mwynhau ansawdd ac amrywiaeth yr hyn a gynigir gennym. Mae'r llun yn dangos y gyfres hanes gofiadwy *Snowdonia 1890* (ein cyfres fwyaf llwyddiannus y llynedd). Denodd rhaglenni Saesneg gyfartaledd o un filiwn o wylwyr bob wythnos, a gwelwyd cynnydd trawiadol o 14% o ran gwylwyr ein cynnwys Cymraeg ar gyfer S4C (i fyny i 190,000). Llwyddodd BBC Radio Wales i ddenu bron i 60,000 yn fwy o wrandawyr bob wythnos o gymharu â 2010, a gwellodd BBC Radio Cymru o gymharu â'r llynedd er ei fod ychydig yn is na lefelau 2008/09 o hyd. I gael rhagor o wybodaeth am y BBC yng Nghymru, ewch i www.bbc.co.uk/wales neu www.bbc.co.uk/cymru.



Gogledd Iwerddon Llwyddodd rhaglenni a gwasanaethau yng Ngogledd Iwerddon i apelio'n eang, ac i fwynhau llwyddiant beirniadol, gyda'r uchafbwyntiau yn cynnwys cyfres Fergal Keane ar *The Story of Ireland* (llun). Cynyddodd cyrhaeddiad BBC One i 78% (2010: 73%), a pharhaodd cyrhaeddiad BBC Two yn gyson ar lefel o tua 49%. O ganlyniad i newidiadau i amserlen BBC Radio Foyle, gwelodd Radio Ulster/Foyle gynnydd o 1% ar y cyd o ran cyrhaeddiad o gymharu â'r llynedd. Cyrhaeddodd nifer defnyddwyr unigol wythnosol gwefan BBC Northern Ireland dros un filiwn am y tro cyntaf erioed – i fyny o 0.66 miliwn yn 2010. I gael gwybod pam, ewch i www.bbc.co.uk/northernireland.

**Radio'r BBC: oriau gan y Gwledydd a'r Rhanbarthau**

| | 2009/10 | 2010/11 |
|---|---|---|
| Llundain | 8,760 | **8,760** |
| Lloegr | 243,075 | **238,461** |
| Yr Alban | 14,694 | **15,917** |
| Cymru | 15,670 | **15,790** |
| Gogledd Iwerddon | 9,355 | **9,285** |
| **Cyfanswm** | 291,554 | **288,213** |

Mae mwyafrif helaeth ein horiau radio yn fyw – sy'n ein galluogi i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'n gwrandawyr am ddatblygiadau allweddol a phynciau llosg.

**Gwariant ar raglennu teledu fesul rhanbarth fel % o'r gwariant cymwys**

| | 2009 | 2010 |
|---|---|---|
| **Llundain** | 62.3% | **62.2%** |
| Yr Alban | 6.1% | **7.4%** |
| Cymru | 4.4% | **5.0%** |
| Gogledd Iwerddon | 1.2% | **0.8%** |
| **Cyfanswm y Gwledydd** | 11.7% | **13.2%** |
| Canolbarth Lloegr | 3.8% | **3.9%** |
| Gogledd Lloegr | 8.2% | **7.7%** |
| De Lloegr | 14.0% | **13.0%** |
| **Cyfanswm Rhanbarthau Lloegr** | 26.0% | **24.6%** |
| **Cyfanswm y Gwledydd a'r Rhanbarthau** | 37.7% | **37.8%** |
| **Cyfanswm Cyfan** | 100.0% | **100.0%** |

Yn seiliedig ar ddiffiniadau Ofcom fesul blwyddyn galendr.

# RHOI EIN STRATEGAETH AR WAITH



Cyfres newydd sbon i blant cyn ysgol ar gyfer 2011 yw *Little Charley Bear,* a lansiwyd ar CBeebies ym mis Ionawr. Mae *Little Charley Bear* yn ysbrydoli creadigrwydd, chwilfrydedd a dychymyg, gan ddefnyddio dulliau animeiddio CGI i helpu plant i ddysgu. Am ragor o wybodaeth neu i ymuno yn yr hwyl ewch i www.littlecharleybear.com.

# Cyflawni Pwrpasau'r BBC

Cenhadaeth gwasanaeth cyhoeddus y BBC yw hysbysu, addysgu a diddanu cynulleidfaoedd gyda rhaglenni a gwasanaethau gwreiddiol o ansawdd a gwerth uchel. *Rhoi Ansawdd yn Gyntaf* yw ein strategaeth yn yr 21ain ganrif ar gyfer cyflawni ein cenhadaeth yn yr oes ddigidol drwy:

- y newyddiaduraeth orau yn y byd
- gwybodaeth, diwylliant a cherddoriaeth sy'n ysbrydoli
- drama a chomedi uchelgeisiol o'r DU
- cynnwys eithriadol i blant
- dod â'r genedl ynghyd


Drwy gynnig y cynnwys gorau ar draws ein portffolio o wasanaethau rydym yn rhoi'r hyn y mae cynulleidfaoedd am wrando arno, ei wylio a'i ddarllen ar y we. Mae'r tudalennau canlynol yn rhoi blas ar ein blwyddyn ddiwethaf ac yn dangos sut rydym wedi cadw ein haddewidion i gynulleidfaoedd i'w hysbysu, eu haddysgu a'u difyrru ag amrywiaeth nodedig o raglenni unigryw.



## Dinasyddiaeth

**Hysbysu:** mae gennym enw da ledled y byd am ohebu a dadansoddi'r byd sydd ohoni mewn modd diduedd. Mae ein sianelau a'n gwasanaethau ledled y DU, ac yn rhyngwladol, yn genedlaethol ac yn lleol yn ymdrin ag amrywiaeth eang o straeon, materion a gwybodaeth wedi'u teilwra ar gyfer amrywiaeth helaeth o ddefnyddwyr.

Yn ogystal â rhoi sylw i'r Etholiad Cyffredinol ym mis Mai (llun) a'r etholiadau lleol, a'r cyfnod cyn Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant y Llywodraeth newydd a chanlyniad hynny (a'r ymateb dilynol), gwnaethom ymdrin â straeon domestig mawr eraill a'u dadansoddi, gan gynnwys yr Adroddiad ar Ymchwiliad Bloody Sunday, ymweliad y Pab, a'r frwydr am arweinyddiaeth y Blaid Lafur.



## Dysgu

**Addysgu:** rydym yn hyrwyddo ac yn cefnogi addysg ffurfiol ac anffurfiol i bob grŵp oedran – o blant cyn oedran ysgol i borwyr penwyn, ar draws teledu, radio a'r we.

Mae ein gwasanaethau sydd wedi'u targedu at blant – CBeebies a CBBC – yn ennyn diddordeb ac yn difyrru eu cynulleidfaoedd eiddgar, gan eu cefnogi wrth iddynt ddysgu sgiliau newydd i ymdopi yn y byd o'u cwmpas. Mae'r llun yn dangos Paul Ewing o *Tikkabilla* yn darllen stori i'n gwylwyr ieuengaf gyda help Tamba y pyped, sy'n fwy o drafferth na help weithiau.



## Creadigrwydd

**Difyrru:** rydym yn cynnig cynnwys unigryw ac arloesol sy'n difyrru ac yn ennyn diddordeb cynulleidfaoedd, yn cynnwys cerddoriaeth fyw a'r amrywiaeth mwyaf o ddrama radio, teledu ac ar-lein unigryw o blith holl ddarlledwyr y byd.

Cafwyd tymor o raglenni ar draws BBC One, BBC Two a BBC Four i nodi 70 mlynedd ers Brwydr Prydain. Adroddodd *First Light*, a ddangosir yn y llun, stori ryfeddol Geoffrey Wellum y peilot Spitfire 18 oed drwy gymysgedd o ddrama a'i atgofion personol ei hun.



## Cymuned

Rydym yn adlewyrchu amrywiaeth y DU yn genedlaethol, yn rhanbarthol ac yn lleol gan gynnig gwasanaethau yn Gymraeg, Saesneg a Gaeleg yr Alban, a rhaglenni mewn llawer o ieithoedd eraill. Mae arlwy nodedig y BBC ar draws ein portffolio yn golygu bod gennym rywbeth i bawb.

Ac er y gall chwaeth newid, a synnwyr digrifwch amrywio rhwng un rhanbarth a'r llall, bydd cynulleidfaoedd o bob cwr o'r DU yn gwerthfawrogi cynnwys o safon. Mae Stephen Nolan (fe'i dangosir yn ei stiwdio) yn bodloni disgwyliadau gwahanol y gwrandawyr ar gyfer y rhaglenni y mae'n eu cyflwyno'n lleol ar BBC Radio Ulster a ledled y DU ar BBC Radio 5 Live.



## Byd-eang

Rydym yn cynnig y cynnwys gorau o'r DU i weddill y byd, ac yn cyflwyno'r cynnwys gorau o weddill y byd i'r DU.

Mae ein gwasanaethau newyddion byd-eang yn darparu newyddion a dadansoddiadau annibynnol a berchir yn rhyngwladol, gan ymdrin â straeon allweddol y dydd. Rydym yn parhau i roi sylw i'r gwrthdaro parhaus yn Irac ac Affganistan, yn ogystal â straeon newydd fel y llifogydd diweddar ym Mhacistan, yr etholiad a'r llifogydd yn Haiti, yr olew yn gollwng yng Ngwlff Mecsico, y mwyngloddwyr yn Chile, protestiadau dros ddemocratiaeth ar draws y Dwyrain Canol (mae'r llun yn dangos merched yn protestio yn Sgwâr Tahrir yng Nghairo), a'r daeargryn a'r tswnami yn Japan.



## Digidol

Y BBC yw'r darparwr cynnwys ar-lein a ddefnyddir fwyaf yn y DU, ac mae dros 15 miliwn o oedolion bellach yn gwrando ar ein gwasanaethau radio drwy lwyfannau digidol bob wythnos.

Rydym wedi cymryd rhan flaenllaw yn y gwaith o helpu'r DU i uwchraddio i deledu digidol, a byddwn yn parhau i ddatblygu partneriaethau ag arweinwyr diwydiant a all fod o fudd i gynulleidfaoedd ym mhobman, o radio digidol i fand eang. Ym mis Medi darlledwyd set gan The Charlatans o Lundain i Tokyo mewn Super Hi-Vision. Rydym yn bwriadu defnyddio'r dechnoleg hon, a ddatblygwyd gyda'r darlledwr o Japan, NHK, ar gyfer cyfres o sgriniau mawr y BBC yn ystod Gemau Olympaidd Llundain 2012.

Cyflawni Pwrpasau'r BBC gyda…

# Y newyddiaduraeth orau yn y byd

## Hysbysu bywyd dinesig a democrataidd gartref a thramor – drwy newyddion, materion cyfoes a gwybodaeth annibynnol, diduedd a chywir.

## Ein nod fydd cyrraedd 80% o boblogaeth y DU bob wythnos gyda'n hallbwn newyddiadurol. Ar gyfer 2010/11 y cyfartaledd wythnosol oedd 82%.










1 Ym mis Mehefin, casglodd tyrfa yn y sgwâr y tu allan i Neuadd y Dref yn Londonderry i glywed y Prif Weinidog yn cyhoeddi canfyddiadau Ymchwiliad Saville yn fyw ar BBC Parliament.

2 Gwyliodd 7.4 miliwn o wylwyr, y nifer fwyaf erioed, sianel BBC News ar ddiwrnod ymddiswyddiad Gordon Brown a chyhoeddi llywodraeth glymblaid gyntaf y DU adeg heddwch ers y 1930au.

3 Yn ogystal â dangos effaith y daeargryn ym mis Ionawr 2010, gwnaethom barhau i ddarlledu'r etholiad a'r llifogydd yn Haiti (mae'r llun yn dangos menyw leol yn helpu mewn ysbyty ar gyfer achosion brys).

## Oriau allbwn rhwydwaith y BBC yn ôl genre 2010/11 (ffigurau cymharol 2009/10)

### Newyddion a thywydd

| BBC One | BBC Two | BBC Three | BBC Four | Radio |
|---|---|---|---|---|
| 2,421 | 932 | 32 | 6 | 11,542 |
| (2,407) | (902) | (32) | (6) | (11,833) |

### Materion cyfoes

| BBC One | BBC Two | BBC Three | BBC Four | Radio |
|---|---|---|---|---|
| 224 | 296 | 253 | 150 | 2,164 |
| (235) | (282) | (160) | (165) | (2,172) |

### Newyddion unrhyw bryd

Sianel BBC News yw'r sianel newyddion a gaiff ei gwylio fwyaf yn y DU, gyda mwy o wylwyr na'i phrif gystadleuwr Sky News, gan gyrraedd 10.4 miliwn o wylwyr bob wythnos. Mae'r sianel yn ymrwymedig i apelio at gynulleidfa eang.

Mae sianel BBC News a BBC News online yn cynnig y newyddion diweddaraf a dadansoddiadau arbenigol drwy'r dydd, ond gall y rhai sydd ond am gael cipolwg sydyn ar y straeon mawr a'r prif benawdau fynd i www.bbc.co.uk/news/video_and_audio/.

### Blwyddyn yn y byd gwleidyddol

Prif stori genedlaethol y flwyddyn yn y DU oedd yr Etholiad Cyffredinol, lle cafodd Senedd newydd ei hethol yn San Steffan, a throsiant mawr hefyd yn ei haelodaeth gyda sawl un yn galw am newid i adfywio gwaith y Senedd a sicrhau ei bod yn fwy agored a pherthnasol. Ar BBC Parliament trafodwyd llawer o'r materion a ddaeth i'r amlwg yn ystod yr Agoriad Gwladol Byw ddiwedd mis Mai, ac rydym wedi parhau i drafod hynny, er enghraifft, ar raglen *The Record* ar ddydd Gwener.

Yn ystod proses yr Etholiad Cyffredinol a'r cyfnod dilynol, parhaodd BBC Parliament i sicrhau cydbwysedd rhwng y darllediadau parhaus o'r sefydliadau datganoledig a'r digwyddiadau oedd yn datblygu yn San Steffan. Cynigiodd ddarllediadau byw o gynadleddau newyddion ac areithiau gan y pleidiau gwleidyddol, a dadleuon a dadansoddiadau ar draws portffolio cyfan y BBC.

Yn absenoldeb dadleuon pwyllgorau a dadleuon yn Neuadd Westminster, ehangodd y sianel ei slot *Briefings* dros fisoedd yr haf. Ymysg yr uchafbwyntiau roedd Richard Lambert o'r CBI a'i gyflwyniad 'After the Crisis' yn Chatham House ym mis Mai, araith y Llefarydd John Bercow ar ddiwygio'r Senedd i Gymdeithas Hansard ym mis Mehefin, ac anerchiad Barroso, Llywydd y Comisiwn Ewropeaidd ar Gyflwr yr Undeb ym mis Medi.

### Y safbwynt cenedlaethol

BBC One yw ein prif sianel ar gyfer cyrraedd cynulleidfaoedd prif ffrwd gyda newyddion a materion cyfoes dyddiol. Mae mwy o wylwyr yn cael eu newyddion cenedlaethol a rhyngwladol o'n bwletinau newyddion rhwydwaith 6pm nag o'r sianelau daearol eraill. Ac mae ein newyddion rhanbarthol a newyddion y gwledydd am 6.30pm hefyd yn perfformio'n well na'r arlwy cyfatebol gan y darparwyr masnachol.

Mae *Panorama* yn parhau i gyflwyno newyddiaduraeth ymchwiliol fanwl i gynulleidfaoedd yn ystod oriau brig bob wythnos. Ar gyfer adroddiad arbennig *Kids in Care* treuliwyd chwe mis yn dilyn plant dan ofal y gwasanaethau cymdeithasol er mwyn ceisio canfod a all y wladwriaeth fod yn rhiant go iawn. Samantha Morton, a gafodd ei magu mewn gofal ei hun, oedd yn adrodd y stori. Ac mewn stori a ddarlledwyd am y tro cyntaf gennym ym mis Tachwedd, ymchwiliodd *FIFA's Dirty Secrets* i honiadau o lygredd yn erbyn rhai o'r swyddogion oedd ar fin pleidleisio ar gynnig Lloegr i gynnal Cwpan y Byd yn 2018. Nid yw FIFA wedi mynd i'r afael â'r honiadau hyd yma ac mae'r stori'n parhau i gael sylw ledled y byd.

Mae materion cyfoes hefyd yn rhan bwysig o arlwy BBC Two – ymysg yr uchafbwyntiau eleni roedd *Secret Iraq, Secret War on Terror* ac, yn agosach at adref, *The British at Work*.

Rydym yn gweithio ar ffyrdd arloesol o gyflwyno pynciau amserol i gynulleidfaoedd prif ffrwd BBC One drwy gynhyrchu rhaglenni dogfen beiddgar fel *My Child's Big Fat Birthday Party* a ddarlledwyd ym mis Gorffennaf yn ogystal ag adeiladu ar y fformat *Famous, Rich And…*

### Cysylltu â chynulleidfaoedd newydd

Byddwn yn parhau i gyflwyno'r oedolion ifanc sy'n gwylio BBC Three i amrywiaeth eang o gynnwys materion cyfoes, yn cwmpasu pynciau mor amrywiol ag awtistiaeth a masnachu mewn plant. Bydd rhai darnau yn seiliedig ar y DU, a bydd dimensiwn rhyngwladol i rai eraill. Ymchwiliodd *Blood, Sweat and Luxuries* i'r broses o gynhyrchu nwyddau fel coffi, ffonau symudol a lledr, gan gyflwyno effaith prynwriaeth gwledydd y byd cyntaf ar wledydd y byd datblygol i'n cynulleidfa. Dangosodd

## Y newyddiaduraeth orau yn y byd, parhad/…

Newyddion, sylwebaeth a dadansoddiadau ar draws ein gwasanaethau teledu, radio ac ar-lein, yn cynnwys:

1 Gwefan *Democracy Live*.

2 Matt Holland yn cyflwyno fersiwn Dwyrain Lloegr o *Late Kick Off*, rhaglen ranbarthol yn Lloegr ar Bêl-droed y Gynghrair.

3 Cyflwynodd yr athro o Harvard, Michael Sandel, gyfres o ddarlithoedd ar BBC Four sef *Justice*, fel rhan o dymor ar gyflwr cyfiawnder ym Mhrydain a'r byd heddiw.

4 Darlledwyd yn helaeth ar leoliad wrth i'r byd weld galwadau digynsail am newid ar draws y Dwyrain Canol, gan ddechrau yn Sgwâr Tahrir yng Nghairo.

5 Cyflwynwyd dros 2,100 awr o newyddion a materion cyfoes ar y radio y llynedd, gan gynnwys *PM*, gydag Eddie Mair ar BBC Radio 4.

6 Mae'r newyddion dyddiol ar BBC One yn cynnwys y prif fwletinau rhanbarthol a chenedlaethol gyda'r nos. Mae'r llun yn dangos Catriona Shearer o *Reporting Scotland*.

7 Joe Phua, gweithiwr camera (o'n swyddfa yn Singapore) yn Japan ar ôl y daeargryn a'r tswnami.




2



3



4


5


6



7


**Cynulleidfaoedd rhaglenni newyddion ar gyfartaledd (miliwn)**




Ffynhonnell: Sylfaen BARB: Pawb 16+ oed, yn ystod yr wythnos.
( ) Cymharwyr 2009/10 yw'r ffigurau mewn cromfachau.

**DPA Adfer ymddiriedaeth mewn allbwn**




Ffynhonnell: Astudiaeth Olrhain/Dull Olrhain Brand ac Enw Da ar draws y BBC.
Sylfaen: Pawb 15+ oed.

fod gwylwyr BBC Three am weld rhaglenni dogfen heriol pan fyddant yn credu eu bod yn berthnasol iddynt hwy.

Mewn ymateb i arolwg gwasanaethau Ymddiriedolaeth y BBC, ailwampiwyd darllediadau newyddion BBC 1Xtra ym mis Awst 2009, gan ychwanegu dau fwletin 15-munud, yn debyg i *Newsbeat* BBC Radio 1, bob diwrnod yn ystod yr wythnos. Ategwyd y rhain yn 2010 gyda nifer o raglenni unigol a oedd yn mynd i'r afael â meysydd o ddiddordeb arbennig i'r gynulleidfa fel llythrennedd a thechnoleg defnyddwyr. Ym mis Ebrill, gwnaethom gynnig *Newsbeat Leader Interviews*, eitemau arbennig, 30 munud yr un gydag arweinwyr y tair prif blaid o flaen cynulleidfaoedd ifanc oedd yn pleidleisio am y tro cyntaf.

Rydym yn falch bod CBBC yn rhoi sylw i faterion na fyddai unrhyw sianel arall i blant yn ymdrin â hwy – fel ysmygu, yr Etholiad Cyffredinol a gwasanaethau gofal plant. Rydym yn gweithio'n galed i sicrhau bod pynciau o'r fath yn berthnasol i'n gwylwyr a'n bod yn eu cyflwyno mewn ffordd a fydd yn eu hannog i ddewis gwylio. Mae'n arbennig o bwysig i'n meysydd dinasyddiaeth craidd, *Newsround* a *Blue Peter*, a byddwn yn parhau i weithio i sicrhau bod y ddwy raglen yn cyrraedd cymaint o blant â phosibl. Caiff gwefan *Newsround* ei diweddaru bob dydd – gweler http://news.bbc.co.uk/cbbcnews – ac mae'r safle ffôn symudol yn www.bbc.co.uk/mobile/cbbc, ar gyfer y newyddion, chwaraeon ac adroddiadau diweddaraf *Press Pack*.

## Gwrando ar ein cynulleidfaoedd

Erys BBC Radio 4 ar y brig o ran ein harlwy newyddion a materion cyfoes ar y radio, ac mae *Today*, *The World at One* a *PM* s yn rhan o'r arlwy dyddiol. Ymatebodd y rhaglen materion cyfoes *The Report*, sy'n ychwanegiad diweddar i arlwy sefydlog BBC Radio 4, i'r straeon mawr, gan gyflwyno cymysgedd o ddadansoddiadau ac ymchwiliadau amserol.

Yn genedlaethol ac yn lleol, cynigiodd darllediadau radio cynhwysfawr o'r Etholiad Cyffredinol – pan oedd y sefydliadau datganoledig yn parhau i gyfarfod – gyfle i'n gohebwyr asesu goblygiadau newid mewn llywodraeth ar gyfer pob ardal. Aeth BBC Radio Wales ar daith adeg yr Etholiad Cyffredinol, gyda *Good Morning Wales*, *Good Evening Wales* a *The Radio Wales Phone-In* yn holi barn pobl a gwleidyddion mewn chwe sedd ymylol ar draws y wlad. Cyflwynodd BBC Radio Scotland hefyd raglenni penodol a chyfres o drafodaethau o bob cwr o'r Alban. A gwnaeth BBC Radio Ulster/Foyle ddefnydd effeithiol o ddarllediadau awyr agored a'i rhwydwaith o ohebwyr mewn ardaloedd gwahanol i gyflwyno ac archwilio materion sy'n effeithio ar gymunedau ar draws y rhanbarth.

Ychwanegodd trafodaethau lleol parhaus yn ystod y cyfnod cyn ac ar ôl yr adolygiad o wariant gan y llywodraeth glymblaid gyd-destun pellach i faterion o bwys lleol.

## Newyddion y byd

Mae ein darllediadau newyddion byd-eang yn darparu newyddion a dadansoddiadau annibynnol a berchir yn rhyngwladol. Rydym yn parhau i roi sylw i'r gwrthdaro parhaus yn Irac ac Affganistan, yn ogystal â straeon newydd. Ar ddechrau'r flwyddyn darlledwyd o'r llifogydd ym Mhacistan, yr etholiad a'r llifogydd yn Haiti, yr olew yn gollwng yng Ngwlff Mecsico, achub y mwyngloddwyr yn Chile, ac ymateb yr UE i benderfyniad Ffrainc i alltudio sipsiwn Rwmanaidd.

Ym mis Ionawr, arweiniodd gwrthdystio yn erbyn y llywodraeth yn yr Aifft at alw am fwy o ryddid personol a gwleidyddol ar draws y Dwyrain Canol a Gogledd Affrica. Eglurodd ein newyddiadurwyr ar draws ein gwasanaethau y digwyddiadau i wylwyr, gwrandawyr a darllenwyr gartref ac yn y gwledydd eu hunain (ac mewn mannau eraill) ar BBC Arabic, ar radio BBC World Service, ac ar-lein, gan roi cyd-destun hanesyddol yn ogystal â dadansoddiadau cyfoes wrth i'r straeon ddatblygu. Un o'r uchafbwyntiau oedd cyfweliad Jeremy Bowen â Chyrnol Gaddafi yn Libya.

Parhawyd i roi sylw i'r daeargryn yn Japan, a'r tswnami dilynol a'r ddrama ynghylch adweithyddion niwclear Fukushima Daiichi ymhell ar ôl y digwyddiadau gwreiddiol.

O ganlyniad i adolygiad o wariant y llywodraeth, caiff BBC World Service ei ariannu gan ffi'r drwydded o fis Ebrill 2014.

I weld rhai o'n blaenoriaethau a'n cynlluniau ar gyfer rhaglenni dros y flwyddyn i ddod, ewch i www.bbc.co.uk/aboutthebbc.

Cyflawni Pwrpasau'r BBC gyda…

# Gwybodaeth, diwylliant a cherddoriaeth sy'n ysbrydoli

Cyfoethogi bywydau pobl – cyflwyno gwybodaeth, cerddoriaeth a diwylliant i feddyliau, llygaid a chlustiau sy'n barod i dderbyn.


Gyda'n cenhadaeth graidd i hysbysu, addysgu a difyrru, rydym bob amser yn chwilio am ffyrdd hygyrch a diddorol o gyflwyno cerddoriaeth, y celfyddydau, gwyddoniaeth, hanes a meysydd arbenigol eraill i'n cynulleidfaoedd.



1 Cyflwynodd *Spitfire Women* ni i rai o 168 o beilotiaid benywaidd y Gatrawd Trafnidiaeth Awyr Atodol yn yr Ail Ryfel Byd, sefydliad oedd â mil o aelodau a ddarparai awyrennau i'r Awyrlu Brenhinol ar y rheng flaen.



2 Dilynodd *Agony and Ecstasy* Gwmni Bale Cenedlaethol Lloegr 60 mlynedd ers ei sefydlu – mae'r llun yn dangos y dawnswyr Daria Klimentov a Vadim Muntagirov.



3 Adroddodd *When God Spoke English – The Making of the King James Bible* hanes ysgrifennu un o'r darnau gorau o ryddiaith Saesneg.

## Oriau allbwn rhwydwaith y BBC yn ôl genre 2010/11 (ffigurau cymharol 2009/10)

### Ffeithiol

| BBC One | BBC Two | BBC Three | BBC Four | Radio |
|---|---|---|---|---|
| 2,302 | 1,786 | 1,403 | 1,081 | 2,359 |
| (2,153) | (1,785) | (1,541) | (915) | (2,436) |

### Cerddoriaeth a'r celfyddydau

| BBC One | BBC Two | BBC Three | BBC Four | Radio |
|---|---|---|---|---|
| 102 | 353 | 70 | 1,425 | 41,709 |
| (97) | (317) | (79) | (1,267) | (41,591) |

### Crefydd

| BBC One | BBC Two | BBC Four | Radio |
|---|---|---|---|
| 98 | 50 | 37 | 1,181 |
| (97) | (37) | (40) | (1,173) |

### Cerddoriaeth fyw sy'n ysbrydoli o bob cwr o'r DU

Darlledwyd ein cyngerdd cyntaf yn yr awyr agored – darllediad o *The Magic Flute* gan Mozart o Covent Garden – yn 1923. Mae parhau â'r dreftadaeth hon yn fraint i ni.

Mynychodd mwy o bobl nag erioed o'r blaen dymor Proms y BBC yn 2010. Aeth mwy na 313,000 o bobl i 89 o gyngherddau yn Neuadd Frenhinol Albert a Neuadd Cadogan yn Llundain (dros 15,000 yn fwy na'r llynedd, gydag un o bob wyth wedi prynu tocynnau am y tro cyntaf). Ar gyfartaledd, aeth 4,000 o bobl i bob un o'r 76 o'r Proms yn Neuadd Frenhinol Albert, a gwerthwyd pob tocyn i 42 o'r cyngherddau. Hefyd prynodd mwy o bobl docynnau sefyll ar y diwrnod am £5 – gwerthwyd dros 86,000 rhwng mis Gorffennaf a mis Medi.

Dechreuodd y tymor gyda phenwythnos agoriadol uchelgeisiol yn cynnwys *Symffoni Rhif 8* gan Mahler gyda Cherddorfa Symffoni'r BBC a chyfuniad o gorau dan arweiniad Jiří Bělohlavek, *The Mastersingers of Nuremberg* gan Wagner gyda Bryn Terfel, a *Simon Boccanegra* gan Verdi gyda Placido Domingo. Darlledwyd hwn – a'r Proms eraill i gyd – yn fyw ar BBC Radio 3 ac roeddent ar gael am saith diwrnod arall ar BBC iPlayer. Darlledwyd cyngherddau nos Wener a nos Sadwrn yr un pryd ar y teledu hefyd. A chynhaliwyd cyngherddau *Last Night* yn Llundain, County Down, Salford, Abertawe a Dundee.

### Cerddoriaeth arbenigol

Ymhlith ein darllediadau jazz roedd rhaglen Desmond Carrington ar nos Wener a sesiynau byw o'n stiwdios yn Maida Vale a gyflwynwyd gan Jamie Cullum, y ddau ohonynt ar BBC Radio 2. Ymhlith allbwn BBC Radio 3 roedd *Jazz on 3* (gyda Jez Nelson), *Jazz Library* a *Jazz Line-Up*, sydd wedi bod yn rhan o'r amserlen ers 11 o flynyddoedd. Mae ein gwasanaethau radio lleol hefyd yn cyflwyno amrywiaeth da i'w gwrandawyr – ar BBC Radio Stoke mae John Hellings yn chwarae amrywiaeth eang o gerddoriaeth o'r gerddoriaeth jazz gyntaf i gael ei recordio, drwy Big Band a Bebop, i'r caneuon diweddaraf i gael eu rhyddhau. Mae gwrandawyr o bob cwr o'r byd yn dilyn rhaglen John ar y we, yn ogystal â'r gwrandawyr yng Nghanolbarth Lloegr.

Ar y teledu, dathlodd *Reggae Britannia* effaith reggae ar gymdeithas ym Mhrydain yn ogystal â'i hetifeddiaeth gerddorol barhaus – yn cynnwys llawer o arddulliau cerddorol y ddinas a geir yn nodweddiadol ar BBC 1Xtra: hip hop, grime, bassline, garage, dubstep, drum and bass, UK funky, dancehall ac R&B. Ar ddydd Sul mae cyflwynydd *100% Homegrown* DJ Target yn hyrwyddo sain cerddoriaeth ddu o'r DU ac yn rhoi llwyfan i dalent newydd. Dros y blynyddoedd mae'r rhaglen wedi cefnogi llu o artistiaid o'r DU ar ddechrau eu gyrfaoedd yn cynnwys Lethal B, Dizzee Rascal, Skinnyman ac Estelle.

### Archwilio'r Celfyddydau

Rydym yn ymrwymedig i sicrhau bod y Celfyddydau yn ganolog i'n harlwy. Nod *Modern Masters*, a gyflwynwyd gan Alastair Sooke, ar BBC One, oedd gwneud synnwyr o gelf orllewinol yn y ganrif ddiwethaf pan beidiodd y rheolau paentio a arferai fod yn gyffredin â bod ac roedd gan artistiaid lai o ddiddordeb mewn gwneud darluniau syml o'r byd o'u hamgylch. Gan ganolbwyntio ar waith pedwar artist allweddol – Warhol, Matisse, Picasso a Dali – cyflwynodd *Modern Masters* ddarlun o'r hyn a ddigwyddodd i gelf yn yr 20fed ganrif. Cefnogwyd y gyfres ar-lein gan arddangosfa rithwir a chrëwyd cyfres o deithiau canllaw i gyd-fynd â'r gyfres – a oedd ar gael yn www.bbc.co.uk/bbcone/modernmasters/artwalks/ a hefyd ar ffonau symudol – fel y gallai gwylwyr a oedd wedi cael eu hysbrydoli gan yr hyn a welsant weld rhai o'r enghreifftiau gorau o gelf, cerfluniau a phensaernïaeth fodern am ddim mewn naw dinas ledled y DU.

Ymysg yr allbwn Celfyddydol arall a gafodd effaith ar gynulleidfaoedd roedd *Opera Italia*, tour de force gan gyfarwyddwr cerddorol yr Opera Brenhinol, Antonio Pappano; roedd *Stephen Fry on Wagner* yn asesiad personol iawn o'r dyn a'i gerddoriaeth, a ffilmiwyd yn Bayreuth a Nuremberg, ac yn ymdrech wych i achub y gerddoriaeth y mae Fry yn ei hoffi o'i gysylltiadau tywyll â'r Natsïaid; ac *Agony ac Ecstasy*, cyfres unigryw y tu ôl i'r llenni yn dilyn Cwmni Bale Cenedlaethol Lloegr 60 mlynedd ers ei sefydlu.

## Gwybodaeth, diwylliant a cherddoriaeth sy'n ysbrydoli, parhad/…

1


Ceir allbwn ffeithiol nodedig ar draws ein sianelau – ac eleni ar deledu yn unig roedd ein harlwy eclectig yn cynnwys y canlynol:

1 Roedd *E-Numbers – An Edible Adventure* yn rhan o gyfres o raglenni ar draws teledu, radio ac ar-lein ar gyfer ein tymor World of Wonder.

2 *Mountain Gorillas:* rydym yn rhoi o'n hamser ac yn neilltuo adnoddau mewn genres nad ydynt ar gael yn eang ar sianelau masnachol yn y DU, fel hanes naturiol.


3 Dathlodd *The Judas Tree* gyda Carlos Acosta – a *Concerto* ac *Elite Syncopations* – weithiau'r coreograffydd athrylithgar Kenneth MacMillan.

4 *Digging for Britain*, archeoleg ar waith gan BBC Two.

5 Edrychodd Dr Kevin Fong ar driniaeth gardiaidd arloesol yn *Horizon: How to Mend a Broken Heart*.

6 Archwiliodd *The Normans* sut y trawsnewidiodd y Normaniaid hanes Ewrop, mewn cyfres pedair rhan a ffilmiwyd mewn HD.

2


3


4


5





**DPA**

### Cynnal gwerth ymhlith cymeradwywyr uchel a gwella gwerth ymhlith cymeradwywyr isel

**% Cymeradwywyr uchel**
**Sgôr o 8 neu fwy allan o 10**
**Cymeradwyaeth gyffredinol o'r BBC**

| | |
|---|---|
| 09/10 | 38.0 |
| 10/11 | 41.8 |

**% Cymeradwywyr isel**
**Sgôr o 4 neu lai allan o 10**
**Cymeradwyaeth gyffredinol o'r BBC**

| | |
|---|---|
| 09/10 | 12.4 |
| 10/11 | 10.2 |

Ffynhonnell: Astudiaeth Olrhain/Dull Olrhain Brand ac Enw Da ar draws y BBC.
Sylfaen: Pawb 15+ oed.

Rhoddodd y côr-feistr Gareth Malone ddwy her fawr iddo'i hun eleni. Yn *Gareth Malone Goes to Glyndebourne* cytunodd i ddod o hyd i gorws o 50 o bobl ifanc yn eu harddegau a'u hyfforddi i ganu ar y prif lwyfan yn Glyndebourne, ac aeth nôl i'r ysgol yn *Gareth Malone's Extraordinary School For Boys*, y naill a'r llall ar BBC Two.

Cynigiodd BBC Radio Scotland fwy na 200 awr o ddarllediadau celfyddydol i'w 900,000 o wrandawyr dros y flwyddyn, yn cynnwys rhaglen gelfyddydol ddyddiol amser cinio.

## Ein hanes cyffredin

Parhaodd *History of the World in 100 Objects* ar BBC Radio 4 i synnu cynulleidfaoedd hyd at y diwedd. Helpodd ein cymorth a'n cynnwys ar-lein lleol ynghyd â chysylltiadau â thros 500 o amgueddfeydd bobl ar hyd a lled y wlad i ymddiddori a chyfranogi yn y pwnc diddorol hwn. Erbyn diwedd mis Mawrth, roedd dros 20.6 miliwn o bodlediadau o'r gyfres wedi'u lawrlwytho.

Ym maes hanes yr henfyd, cyflwynodd yr athro Mary Beard o Gaergrawnt gipolwg ar fywydau'r bobl a oedd yn byw yng nghysgod Mynydd Vesuvius cyn y ffrwydrad rhyfeddol yn *Pompeii: Life and Death in a Roman Town*.

Hefyd ar y teledu, archwiliodd *Victorian Pharmacy* y byd fferyllol ar ddechrau teyrnasiad y Frenhines Victoria yn 1837, pan fyddai'r rheini a allai eu fforddio yn defnyddio meddyginiaethau traddodiadol fel gelod, olew pryfaid genwair a dognau yn llawn canabis ac opiwm.

Ym mis Awst, archwiliodd Robert Bartlett olion y Normaniaid ym Mhrydain yn *The Normans*. Ac ym mis Medi lansiwyd y gyfres nodedig *Michael Wood's Story of England*, a oedd yn olrhain esblygiad cymuned Seisnig yn Kibworth yn Swydd Gaerlŷr dros 15 canrif – a gwnaethom 15 o raglenni rhanbarthol ategol sy'n cyfeirio at lefydd eraill o ddiddordeb lleol i wylwyr eu harchwilio eu hunain.

Ar lefel fwy cyfoes, ymdriniodd *The Trouble with Northern Ireland* y mater sensitif o hunaniaeth yng Ngogledd Iwerddon gyda chipolwg ysgafn ar y newidiadau a welwyd yng Ngogledd Iwerddon dros y 40 mlynedd diwethaf. Ar gyfer cynulleidfaoedd yng Ngogledd Iwerddon yn unig, roedd cyfres nodedig Fergal Keane *The Story of Ireland* yn olrhain y digwyddiadau a'r dylanwadau a ffurfiodd Iwerddon fodern. Dangoswyd y gyfres ar y rhwydwaith wedi hyn.

## Gwyddoniaeth

Fel rhan o'n blwyddyn o wyddoniaeth World of Wonder (a lansiwyd ym mis Ionawr 2010 i gyd-fynd â dathlu 350 o flynyddoedd ers sefydlu'r Gymdeithas Frenhinol), cyflwynodd BBC Four broffil o dri o enillwyr Gwobr Nobel Prydain – y seryddwr y Fonesig Jocelyn Bell Burnell, y biolegydd Syr Tim Hunt a'r fferyllydd James Lovelock – yn y gyfres *Beautiful Minds*.

Ar BBC Two, roedd *The Story of Science* gan y newyddiadurwr meddygol Michael Mosley yn archwiliad diddorol ac uchelgeisiol o sut mae gwyddoniaeth wedi newid y ffordd rydym yn gweld ein hunain, a'r ffordd rydym yn gweld ein byd.

Ac roedd *Saving Species* yn gyfres mewn 40-rhan ar BBC Radio 4 a edrychodd ar effaith dyn ar fyd natur a'r amgylchedd a heriau gwaith cadwraeth bywyd gwyllt, gan gwmpasu pynciau mor amrywiol ag olew BP yn gollwng oddi ar Ddelta'r Mississippi ac ymdrechion i achub y fultur pig hir yn India. Mae podlediadau o allbwn radio gorau'r BBC ar hanes naturiol ar gael yn www.bbc.coc.uk/podcasts/series/nathistory.

I weld rhai o'n blaenoriaethau a'n cynlluniau ar gyfer rhaglenni dros y flwyddyn i ddod, ewch i www.bbc.co.uk/aboutthebbc.

Cyflawni Pwrpasau'r BBC gyda…

# Drama a chomedi uchelgeisiol o'r DU

## Ysgogi a difyrru cynulleidfaoedd – gyda straeon am eu bywydau a'r byd o'u hamgylch.

## Rhagoriaeth, gwreiddioldeb ac amrywiaeth yw'r geiriau allweddol ar gyfer comedi a drama'r BBC.



1 Roedd y ddrama troseddau *Sherlock* yn fersiwn gyfoes a chwim o glasur Arthur Conan Doyle, gyda rhai ychwanegiadau annisgwyl o'r 21ain ganrif.
2 Darlledwyd *Five Daughters* dros bum noson yn olynol, gan gyflwyno drama bwerus i'r gwylwyr yn seiliedig ar stori wir erchyll.
3 Lleolwyd *Come Fly With Me* mewn maes awyr prysur a chyflwynwyd llu o gymeriadau gan Matt Lucas a David Walliams.





## Oriau allbwn rhwydwaith y BBC yn ôl genre 2010/11 (ffigurau cymharol 2009/10)

| | BBC One | BBC Two | BBC Three | BBC Four | Radio |
|---|---|---|---|---|---|
| **Adloniant** | 585 (612) | 597 (499) | 1,179 (989) | 143 (293) | 7,622 (7,405) |
| **Drama** | 808 (980) | 283 (472) | 346 (506) | 304 (413) | 4,577 (4,784) |
| **Ffilm** | 486 (534) | 660 (609) | 224 (236) | 173 (168) | |

Er bod 630 yn llai o oriau drama yn gyffredinol ar draws bob sianel o gymharu â'r llynedd, mewn gwirionedd dim ond wyth awr yn llai o ddrama a grëwyd yn fewnol a gafwyd ar draws ein portffolio. Y prif reswm dros y lleihad mewn oriau yw ein bod wedi caffael llai o gyfresi drama, sy'n unol â'n strategaeth ddatganedig *Rhoi Ansawdd yn Gyntaf*.

### Straeon newydd

Ar BBC One, adroddodd *Five Daughters* stori wir dros nosweithiau olynol ym mis Ebrill y llynedd. Cyflwynwyd straeon am bum merch a'u llofruddiaethau milain fesul tipyn i'r gwylwyr. Canolbwyntiodd y ddrama gyffrous mewn pedair rhan *The Silence* ar brif gymeriad byddar, ond cwmpasodd themâu cyfarwydd fel dieithrwch ac analluogrwydd mewn ffordd drawiadol a gwahanol iawn. Cyflwynodd yr actores fyddar Genevieve Barr yn ei phrif rôl gyntaf ar y teledu. Gwerthfawrogwyd y ddwy gyfres yn fawr gan y gwylwyr.

Roedd *Luther* yn ddrama troseddau seicolegol dywyll am dditectif yn yr heddlu sy'n ymladd ei frwydr bersonol ei hun, unigolyn bregus a allai fod mor beryglus â'r llofruddwyr y mae'n eu hymlid. Daeth yr actor Idris Elba â'r cymeriad cymhleth hwn yn fyw ar ein sgrîn, a bydd yn dychwelyd am ail gyfres.

Ym mis Mai, yn *The Secret Diaries of Miss Anne Lister* gan BBC Two chwaraeodd Maxine Peake y brif ran sef merch o Halifax yn y 19eg Ganrif a ystyriwyd fel lesbiad agored gyntaf Prydain. Drama wisgoedd oedd hon am ferch a oedd yn byw o flaen ei hoes, oedd yn seiliedig ar ddyddiaduron preifat Lister. Dim ond yn ddiweddar y cawsant eu dadgodio.

### Ffyrdd newydd o gyflwyno hen straeon

Cyflwynwyd drama yn seiliedig ar nofel led-hunangofiannol Christopher Isherwood Goodbye to Berlin sef *Christopher and his Kind,* gyda Matt Smith yn chwarae'r brif ran. Archwiliodd y cyd-destun gwleidyddol a chymdeithasol a arweiniodd efallai at waith mwyaf eiconig Isherwood.

Gall fod yn beryglus cymryd rhywbeth cyfarwydd a mentro ei newid – ond yn *Sherlock* llwyddodd Mark Gatiss a'r cyd-grëwr Steven Moffatt i foderneiddio cymeriadau Arthur Conan Doyle gan greu un o uchafbwyntiau'r flwyddyn, a enillodd glod mawr a denu dros wyth miliwn o wylwyr.

Ac ar BBC Four, roedd *The Road to Coronation Street* yn ddrama unigol a wnaeth olrhain hanes un o hoff raglenni'r DU dros y 40 mlynedd diwethaf o'r dechrau'n deg. Ymysg y cast llawn sêr roedd Jane Horrocks, Jessie Wallace a Christian McKay. Roedd y rhaglen yn rhan o'r tymor Planet North, a oedd yn dathlu diwylliant, hanes, bywyd a phensaernïaeth gogledd Lloegr.

Comisiynwyd ail gyfres o *E20*, drama gymar *EastEnders* a ddarlledwyd am y tro cyntaf ar-lein. Mae'r gyfres yn llwyfan gwych i awduron ac actorion ifanc uchelgeisiol feistroli eu crefft wrth iddynt sefydlu cymeriadau a datblygu straeon. Mae'r tîm ysgrifennu i gyd rhwng 17-22 oed.

### Drama ar alw

Mae drama gan y BBC yn cwmpasu popeth sy'n unigryw Brydeinig ac mae'n gartref i'r dulliau adrodd straeon gorau. Mae ein dull o gyflwyno talent o'r DU yn annog pobl i adrodd straeon o'r DU i'w gilydd ac i weddill y byd. Rydym yn darlledu dramâu newydd a gwreiddiol ar draws ein portffolio o wasanaethau, yn cynnwys tua 4,500 awr o ddrama ar ein rhwydweithiau radio ledled y DU bob blwyddyn, a thros 1,700 awr o ddramâu teledu, y mae llawer ohonynt ar gael ar BBC iPlayer ar ôl iddynt gael eu darlledu.

Mae gwrandawyr y mae'n well ganddynt wrando ar gynnwys yn 'fyw' wedi mwynhau uchafbwyntiau o fewn amserlen y prynhawn yn cynnwys *HMS Surprise*, drama mewn tair rhan yn seiliedig ar nofel Patrick O'Brian wedi'i lleoli yn Lloegr, India ac ar y môr yn 1804, a chafwyd croeso mawr i *Two Pipe Problems* gan Michael Chaplin, a ddychwelodd i adrodd hanes William a Sandy, trigolion The Old Beeches sef cartref ymddeol i actorion oedrannus a chyn sêr cyfres deledu o'r 1960au.

## Drama a chomedi uchelgeisiol o'r DU, parhad/…





Wrth adrodd stori – boed hynny mewn drama ddifrifol neu gomedi – mae'n rhaid ennyn diddordeb y gynulleidfa yn y cymeriadau, hyd yn oed y rhai sy'n bypedau. Ymysg yr uchafbwyntiau o amserlenni'r BBC roedd:

1 Y ddrama gyffrous mewn pedair rhan *The Silence*, a gyflwynodd y dalent newydd Genevieve Barr.

2 *Mongrels* gan BBC Three, ein comedi bypedau amlrywogaeth, ddinesig, gyntaf i oedolion gan yr awdur newydd Jon Brown.

3 Dilynodd *Rev* anturiaethau dyddiol a gwrthdaro moesol gweinidog dinesig, a chwaraewyd gan Tom Hollander.

4 Lansiad mwyaf llwyddiannus BBC Three erioed o gomedi sefyllfa, *Him & Her*, gyda Russell Tovey a Sarah Solemani.

5 Ymysg y comedïau newydd eraill eleni roedd y gêm banel gomedi *Ask Rhod Gilbert* gan BBC Northern Ireland.

6 Ymysg ein harlwy drama wreiddiol yn ystod y dydd roedd *The Indian Doctor*, gyda Sanjeev Bhaskar yn y brif rôl.

7 *White Chameleon*, darn hunangofiannol gan y dramodydd Christopher Hampton (dde, gyda'r actor Alex Jennings), dim ond rhan o dros 600 awr o ddrama gan BBC Radio 4 eleni.










7

DPA

**Cynyddu natur nodedig ac ansawdd**

**% sy'n Cytuno**

**Sgôr o 8 neu fwy allan o 10 am Ansawdd Uchel**

| | |
|---|---|
| 09/10 | 36.0 |
| 10/11 | 42.3 |

**Sgôr gyfartalog allan o 10 am Ansawdd Uchel**

| | |
|---|---|
| 09/10 | 6.4 |
| 10/11 | 6.8 |

Ffynhonnell: Astudiaeth Olrhain/Dull Olrhain Brand ac Enw Da ar draws y BBC.
Sylfaen: Pawb 15+ oed.

## Hiwmor sy'n unigryw Brydeinig

Roedd BBC Radio 4 yn gyfrifol am tua 260 awr o gomedi gwreiddiol y llynedd, gan rai o awduron a pherfformwyr newydd gorau'r DU, ac mae ei bodlediad comedi amserol yn un o bodlediadau mwyaf poblogaidd y DU, gyda thros 1.2 miliwn o lawrlwythiadau ledled y byd bob mis.

Adroddodd cyfres radio gyntaf y digrifwr o Lundain Micky Flanagan ei daith o 'working-class Herbert to middle-class intellectual' wrth iddo adael strydoedd caled East End Llundain ac anelu at lonydd coediog Dulwich. Gan gymysgu darnau dogfennol, cyfweliadau gyda phobl yr oedd yn eu hadnabod, a rhywfaint o'i gomedi poblogaidd ei hun, roedd pob rhifyn yn canolbwyntio ar ddegawd gwahanol. Bydd Micky nid yn unig ar BBC Radio 4 mewn ail gyfres, ond mae hefyd wedi llofnodi cytundeb datblygu ar gyfer y teledu o ganlyniad uniongyrchol i'r gyfres gyntaf.

Ym mis Gorffennaf, cyflwynodd BBC Radio 4 gyfres o bum rhaglen gomedi beilot yn y slot *Happy Tuesdays* i'w wrandawyr, pan roddwyd y cyfle i rai o'r talentau comedi mwyaf cyffrous roi cynnig ar syniadau a fformatau newydd. Er enghraifft, ysgrifennodd Justin Moorhouse ei gomedi sefyllfa gyntaf gyda chynulleidfa, gyda Jim Poyser; rhoddodd Dan Senton Skinner sioe sgwrsio barodi i'w gymeriad Angelos Epithemiou o sioe banel swreal Vic Reeves a Bob Mortimer *Shooting Stars*; ac yn *Pauline Pepys' Dowry* gwelwyd Olivia Colman yn chwarae Pauline, chwaer Samuel Pepys a David Mitchell yn chwarae Samuel.

Ym mis Awst cafodd *An Audience with Ed Reardon* ei recordio'n fyw yn ystod gŵyl Caeredin – dim ond rhan o'n hallbwn ehangach o wyliau a digwyddiadau ledled y wlad.

Dechreuodd tymor comedi BBC Radio 2 gyda *Hot Gossip*, sioe banel gomedi wedi'i chyflwyno gan Claudia Winkleman, a chyflwynodd raglenni a oedd yn canolbwyntio ar dalentau rhai o ddigrifwyr gorau'r DU: cyflwynodd Leslie Phillips *Carry On Forever*; bu Sean Lock yn hel atgofion am dalent unigryw Tommy Cooper yn *Tommy Cooper – Just Like This!*; 30 mlynedd ar ôl ei farwolaeth, cyflwynodd Alexander Armstrong stori Peter Sellers yn *Being Here – The Peter Sellers Story*; a chyflwynwyd *All Round Bob Monkhouse* gan ei hen ffrind Barry Cryer. Daeth y tymor i ben gyda *Dave Allen: Goodnight and May Your God Go With You*, lle gwnaeth un digrifwr o Iwerddon, Ed Byrne, archwilio bywyd a gyrfa un arall.

## Cofleidio y risgiau

Mae comedi yn genre llawn risgiau – mae angen amser a buddsoddiad i'w greu ac yna ei gynnal. Ond mae'n bwysig o hyd bod darlledwyr a chomisiynwyr yn arbrofi ag awduron, digrifwyr ac actorion newydd.

Ymysg y cyfresi teledu newydd eleni roedd *Rev* – gyda Tom Hollander fel ficer dinesig, cyfres a oedd yn canolbwyntio ar gymeriad gan y digrifwr newydd Simon Brodkin sef *Lee Nelson's Well Good Show*, comedi pypedau i oedolion *Mongrels* gan yr awdur newydd Jon Brown, a lansiad mwyaf llwyddiannus BBC Three erioed o gomedi gyda chomedi gwrth-ramantaidd Stefan Golaszewski *Him & Her*.

Gwthiodd BBC Three gonfensiwn ymhellach nag o'r blaen drwy agor ei hystod o raglenni peilot i gynulleidfaoedd ar-lein er mwyn iddynt roi eu sylwadau arnynt. Er na chomisiynwyd cyfresi cyfan o *Pulse*, *Stanley Park* a *Dappers*, maent yn dangos cefnogaeth barhaus y sianel i ddramâu gwreiddiol o'r DU a'i hymrwymiad i roi cynnig ar bethau newydd. Ond bydd *The Fades*, cyfres arswyd oruwchnaturiol gan yr awdur llwyddiannus Jack Thorne, yn dychwelyd yn ddiweddarach eleni.

I weld rhai o'n blaenoriaethau a'n cynlluniau ar gyfer rhaglenni dros y flwyddyn i ddod, ewch i www.bbc.co.uk/aboutthebbc.

Cyflawni Pwrpasau'r BBC gyda…

# Cynnwys eithriadol i blant

Difyrru a synnu cynulleidfaoedd ifanc – helpu plant i archwilio eu byd mewn man cyhoeddus diogel.

Rydym yn ymrwymedig i ddarparu'r cynnwys o'r safon orau a gynhyrchwyd yn y DU i blant sy'n eu hannog i ddysgu, yn eu helpu i ddeall y byd o'u hamgylch, ond sydd hefyd yn diddanu'r gynulleidfa eiddgar hon.

1


2


3


1 Cyflwynodd *Deadly 60* ar CBBC hanes naturiol i blant mewn antur ar draws chwe chyfandir.
2 Mae cerddorfeydd y BBC yn rhoi dosbarthiadau meistr a pherfformiadau i amrywiaeth o gynulleidfaoedd drwy gydol y flwyddyn.
3 Dangosodd *Growing Up In A War Zone: A Newsround Special* sut mae rhyfel yn effeithio ar fywydau plant yn Affganistan.

## Oriau allbwn rhwydwaith y BBC yn ôl genre 2010/11 (ffigurau cymharol 2009/10)

### Plant

| BBC One | BBC Two | CBBC | CBeebies | Radio |
|---|---|---|---|---|
| 459 | 1,736 | 4,398 | 4,514 | 1,460 |
| (482) | (1,660) | (4,344) | (4,538) | (1,414) |

### Ysgolion/addysg ffurfiol

| BBC Two | BBC Four | CBBC | CBeebies | Radio |
|---|---|---|---|---|
| 198 | 6 | – | 214 | 104 |
| (289) | (4) | (–) | (156) | (128) |

### Dysgu gyda'r BBC

Mae gwybodaeth a sgiliau yn ganolog i arlwy'r BBC. Ein nod yw cyflwyno cyfleoedd dysgu i bob cynulleidfa, ond mae hyn bwysicaf i'n gwylwyr, ein gwrandawyr a'n defnyddwyr ieuengaf.

Rydym am ysbrydoli bywyd llawn dysgu, ac ennyn diddordeb cynulleidfaoedd ifanc ble bynnag neu pryd bynnag y byddant am wylio ein rhaglenni neu wrando ar ein rhaglenni neu ddefnyddio ein gwefannau. Er enghraifft, yn ein cynnwys prif ffrwd byddwn yn mynd i'r afael â phynciau fel bwlio a phwysau gan gymheiriaid drwy'r gyfres sy'n ategu *EastEnders* sef *E20*, mewn talpiau wedi'u cynllunio i gael eu dangos i bobl ifanc yn eu harddegau ac eraill yn eu hystafelloedd dosbarth.

A bydd ein cynnwys arbenigol i blant – sy'n cynnwys dros 2,100 awr ar draws BBC One a BBC Two – yn parhau i annog plant i ddysgu.

Ar-lein, mae ein cymorth ar gyfer addysg ffurfiol yn cynnwys gemau mathemateg a llythrennedd Cyfnod Allweddol 1, yn ogystal â gweithgareddau Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth i ddysgwyr Cyfnod Allweddol 2 ar ein gwefan www.bbc.co.uk/schools/bitesizeprimary. *GCSE Bitesize* yw conglfaen ein portffolio dysgu i fyfyrwyr ysgol hŷn o hyd, gan gynnig help a chyngor ymarferol ar draws ystod o bynciau TGAU o Gelf a Dylunio i Gymraeg fel Ail Iaith. I gael rhagor o wybodaeth ewch i www.bbc.co.uk/schools/gcsebitesize.

Mae plant yn byw mewn byd y maent am ymgysylltu ag ef a chael gwybod mwy amdano. Rydym yn eu helpu i wneud hyn gyda rhaglenni fel *Newsround*, y rhaglen gylchgrawn newyddion ddyddiol sy'n rhoi gwybodaeth iddynt am y straeon a'r digwyddiadau diweddaraf sy'n digwydd gartref a thramor, a *My Life*, cyfres ddogfen pynciau unigol poblogaidd CBBC sy'n dilyn plant hynod sydd â straeon unigryw i'w hadrodd.

### Annog dychymyg y plant ieuengaf

I blant cyn oedran ysgol, mae rhaglenni fel *Alphablocks* – 26 o benodau wedi'u hanelu at blant 4-6 oed sy'n dysgu sut i ddarllen – yn eu hannog i ddefnyddio'u dychymyg. Cyfres o anturiaethau yw *Alphablocks* sy'n gwahodd rhieni a phlant i gael hwyl gyda geiriau gyda'i gilydd. Mae'n seiliedig ar arfer gorau wrth addysgu ffoneg a gall helpu i feithrin diddordeb a hyder plant ifanc mewn darllen a chreu geiriau. Mae pob pennod yn wahanol: ceir caneuon, straeon a gemau, ac mae'r wefan – fel holl wefannau'r BBC i blant – yn cynnwys gemau a gweithgareddau mewn man diogel. Mae *The Lingo Show*, sy'n newydd ers mis Chwefror, yn cyflwyno ieithoedd gwahanol (yn cynnwys Pwyleg, Somali ac Wrdw) i gynulleidfa cyn oedran ysgol. Mae wedi'i anelu at blant y mae Saesneg yn famiaith iddynt ynghyd â'u ffrindiau a allai fod yn siarad iaith wahanol gartref. I weld ein holl wefannau i blant o dan 12 oed ewch i www.bbc.co.uk/children.

Mae *Show Me Show Me* yn annog y gwylwyr ieuengaf hyn i ddychmygu eu bod gyda'u ffrindiau, sef y cyflwynwyr, mewn iard chwarae fry yn yr awyr. Eleni cyflwynodd y rhaglen Uki, a gwnaeth ei anturiaethau helpu gwylwyr i ddysgu am natur, cyfeillgarwch a rhannu profiadau cyntaf o'r byd.

## Cynnwys eithriadol i blant, parhad/…

1


2


Caiff ein hystod nodedig o raglenni i blant ei chyflwyno mewn amgylchedd diogel heb hysbysebion, a chaiff ein harlwy ar-lein ei safoni'n ddiogel. Ymysg ffefrynnau diweddar y gwylwyr mae:

1 Y sioe gemau sy'n seiliedig ar wyddoniaeth *Richard Hammond's Blast Lab*.

2 Ymysg y dramâu gwreiddiol eleni roedd fersiwn newydd o straeon *Just William* gan Richmal Crompton.

3 Mae Pui a Chris yn archwilio hud bywyd bob dydd yn *Show Me Show Me* ar CBeebies.

4 Mae *Big City Park* yn llawn antur, ac wedi'i ffilmio yn yr awyr agored ym Mharc Ormeau ym Melfast.

5 Drama gomedi boblogaidd a thwymgalon yn *Tracey Beaker Returns*.

6 'Makes a Bad Ting Good!' yw cri *Rastamouse*, y cymeriad wedi'i animeiddio sy'n canu reggae ac yn atal troseddau, gyda help ei ffrindiau Scratchy a Zoomer.

7 Mae Mish (llun) a'i gyfeillion Moosh a Mogo o *Same Smile* yn teithio o amgylch y wlad yn dangos i blant 2-4 oed bod gan bawb yr un wên, waeth pa mor wahanol yw ein bywydau!

3


4


5


6



7

**DPA**

**Natur fwy nodedig**
**% sy'n Cytuno'n gryf**
**Mae teledu'r BBC yn wreiddiol ac yn wahanol**




Ffynhonnell: Pulse: Pawb 16+ oed.

## Sain i blant

Bydd plant hŷn – a hyd yn oed grwpiau teuluol – hefyd yn gallu manteisio ar gyfleoedd i wella eu dychymyg gydag allbwn y BBC i blant. Dros yr haf, darlledodd BBC Radio 7 (a elwir yn BBC Radio 4 Extra erbyn hyn) ddetholiad o nofelau clasurol i blant yn cynnwys *Black Beauty*, *101 Dalmations*, *The Wind in the Willows*, a *The Adventures of Tintin*. A chynigiodd BBC Radio 4 addasiad mewn dwy ran o glasur Mary Norton i blant *The Borrowers* am y teulu bach Clock sy'n byw o dan estyll tŷ mawr.

Mae CBeebies yn cynnig *'Best Bits'* sef podlediad wythnosol y gellir ei lawrlwytho yn www.bbc.co.uk/podcasts/series/cbeebies, i wrando arno unrhyw le unrhyw bryd – sy'n fantais wirioneddol i blant prysur heddiw.

## Ennyn diddordeb drwy gemau a gweithgareddau

Nid yw plant yn wylwyr goddefol. Maent am gymryd rhan. A gall y BBC eu helpu i wneud hyn.

Ymysg ein hamrywiaeth o ddigwyddiadau cyhoeddus eleni roedd *Deadly Days Out* gan CBBC, a ddenodd filoedd o blant a theuluoedd i leoliadau ledled y DU, yn cynnwys Cwmbrân a Norwich. Roedd y diwrnodau yn gysylltiedig â'r gyfres *Live 'n' Deadly* ac roeddent yn cynnwys y cyflwynydd bywyd gwyllt Steve Backshall (a rhai o'i ffrindiau!) a llu o weithgareddau llawn hwyl i'r teulu.

Ymysg y cyfresi newydd roedd *Mighty-Mites*, rhaglen llawn egni sy'n ysbrydoli plant i roi cynnig ar amrywiaeth o weithgareddau newydd a chyffrous iawn weithiau – o sgiliau syrcas i sgïo o dan do, ac o nofio i baentio crochenwaith.

## Hysbysu a difyrru

Weithiau mae cynulleidfaoedd am wylio neu wrando neu fewngofnodi dim ond er mwyn cael eu difyrru. Ac ni chafodd ein cynulleidfaoedd eu siomi eleni.

Ym mis Ebrill, lansiwyd *ZingZillas*, cyfres gerddoriaeth fyw wedi'i lleoli ar baradwys ynys drofannol sy'n dilyn anturiaethau'r band gorau i blant yn hanes cerddoriaeth – y *ZingZillas!* Gyda dylanwadau cerddorol o bob cwr o'r byd – o roc i gerddoriaeth yr enaid, jazz i samba, big band i gerddorfa – mae'r *ZingZillas* yn annog eu gwylwyr ifanc i neidio, siglo a thrilio i gerddoriaeth o bob cwr o'r byd. Mae gwesteion fel y Fonesig Cleo Laine a Jamiroquai yn helpu gyda'r hwyl.

Cyfres antur ffantasi ddoniol wedi'i lleoli mewn byd gwallgof lle mae llu o greaduriaid rhyfedd yn byw yw *Muddle Earth* ar CBBC – ein cyfres ffurf hir wedi'i hanimeiddio gyntaf a grëwyd yn fewnol. Mae wedi'i hanelu at blant 6-9 oed, ac mae'n cynnwys llais Syr David Jason a cherddoriaeth a berfformiwyd gan Gerddorfa Ffilharmonig y BBC. Ac mae *Horrible Histories* – sy'n boblogaidd iawn ymysg y plant hŷn – yn parhau i gynnig sgetsys doniol, cartwnau a chwisiau. Mae wedi bod ar gael ar BBC HD ers mis Mehefin y llynedd.

Yn ogystal â bod yn llawn hwyl, mae pob un o'r rhaglenni hyn yn cynnig cynnwys addysgol gwirioneddol ac yn gwobrwyo gwylwyr ifanc am eu sylw drwy wella eu sgiliau a'u gwybodaeth.

I weld rhai o'n blaenoriaethau a'n cynlluniau ar gyfer rhaglenni dros y flwyddyn i ddod, ewch i www.bbc.co.uk/aboutthebbc.

Rheoli Pwrpasau'r BBC drwy…

# Dod â'r genedl ynghyd

Bod yno i'r DU gyfan – mewn cyfnodau o argyfwng, coffâd a dathlu drwy ddigwyddiadau, chwaraeon ac adloniant nodedig.

Ers ei ddyddiau cynharaf, bu'n anrhydedd gan y BBC fod yn fan ymgynnull cenedlaethol. Mae parhau â'r dreftadaeth hon yn fraint i ni.








1 Cyflwynodd *Proms in the Park* bum cyngerdd *Last Night* o County Down, Salford, Abertawe, Dundee a Hyde Park yn Llundain.

2 Er ei fod yn darlledu yn Saesneg yn bennaf, mae BBC Asian Network hefyd yn cynnig rhaglenni newyddion, materion cyfoes a cherddoriaeth i siaradwyr amrywiaeth o ieithoedd De Asia, yn cynnwys ym Mirpuri gan Zarina Khan.

3 Roedd darllediadau tennis o Wimbledon ar gael ar BBC Radio 5 Live gyda Richard Bacon, gan ategu ein darllediadau teledu, BBC Red Button ac ar-lein.

**Oriau allbwn rhwydwaith y BBC yn ôl genre 2010/11 (ffigurau cymharol 2009/10)**

**Chwaraeon**

| BBC One | BBC Two | BBC Three | BBC Four | Radio |
|---|---|---|---|---|
| 697 | 965 | 101 | 1 | 4,832 |
| (597) | (1,023) | (75) | (–) | (4,071) |

## Digwyddiadau newyddion

Rhoddwyd sylw i nifer o ddigwyddiadau pwysig iawn eleni yn ein rhaglennu – digwyddiadau sy'n uno rhannau mawr o'r DU mewn profiad a rennir: o'r Etholiad Cyffredinol ym mis Mai – pan fu 73% o oedolion yn gwylio ein darllediadau (yn cynnwys canlyniadau) neu'n gwrando arnynt – i ymweliad y Pab ym mis Medi a oedd o ddiddordeb arbennig i gymuned ffydd fawr ac a welwyd gan bron un o bob chwech o boblogaeth y DU.

Mae'r DU yn enwog yn fyd-eang am wychder ei seremonïau. Gall gwylwyr weld darllediadau byw o rai o'n digwyddiadau cenedlaethol mawr – o Agoriad Gwladol y Senedd i Seremoni Cyflwyno'r Faner a Thatŵ Caeredin – ar ein gwasanaeth BBC Red Button.

I'r rheini sydd am weld y digwyddiadau mawr wrth iddynt ddatblygu, mae www.bbc.co.uk/news yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am yr hyn sy'n digwydd yn y byd. Ac i'r rheini sydd am wybod beth sy'n digwydd ym Mrwsel, San Steffan neu senedd a chynulliadau datganoledig y DU, gallant chwilio, canfod a gwylio'r wleidyddiaeth sy'n effeithio ar bob un ohonom yn http://news.bbc.co.uk/democracylive/hi.

## Dod â'r genedl ynghyd

Mae cerddoriaeth fyw wedi bod yn rhan greiddiol o'n harlwy ers dyddiau cynharaf y Cwmni Darlledu Prydeinig.

Radio'r BBC yw cartref cerddoriaeth fyw yn y DU – o setiau acwstig byw ar BBC Radio 2 i ddarllediadau bob awr o'r dydd o Glastonbury ar BBC 6Music fel rhan o'n 150 awr o gerddoriaeth o'r ŵyl, lle roedd Gorillaz yn perfformio fel y prif artist a lle gwelwyd artistiaid mor amrywiol â Kylie Minogue, Muse, Stevie Wonder a Band Pres Tref Yeovil.

Yn ogystal â Glastonbury, roedd ein darllediadau o wyliau y llynedd yn cynnwys Reading a Leeds (a oedd ar gael ar amryw o sianelau, yn cynnwys BBC Red Button) ynghyd â'r gwyliau llai adnabyddus Rockness (o lannau Loch Ness) a Wakestock, gŵyl gerddoriaeth wêcfyrddio fwyaf Ewrop o Benrhyn Llŷn yng Ngogledd Cymru.

Daeth *Big Weekend* BBC Radio 1 hefyd o Gymru eleni. Aeth 40,000 o bobl i Fangor ar gyfer yr ŵyl gerddoriaeth fwyaf yn y DU lle mae'r tocynnau am ddim, a chawsant wledd o berfformiadau gan sêr fel Rihanna, Cheryl Cole, Florence and the Machine, Dizzee Rascal, Alicia Keys a Faithless.

Nid yw ein darllediadau yn gyfyngedig i'r artistiaid poblogaidd yn y siartiau a ffefrir gan y gorsafoedd masnachol, a darlledodd BBC Radio 3 yn fyw o Womad yn Wiltshire ym mis Gorffennaf, y 10fed flwyddyn iddi wneud hynny. Eleni yr artistiaid olaf ar lwyfan BBC Radio 3 oedd Kanda Bongo Man, brenin cerddoriaeth soukas o'r Congo. A chafodd dros 10,000 o docynnau eu dosbarthu ar gyfer BBC 1Xtra Live – digwyddiad cerddoriaeth ddinesig am ddim fwyaf y DU – ar gyfer setiau gan N-Dubz, Tinie Tempah a Tinchy Stryder ymysg eraill.

Mae'r BBC yn ymrwymedig i gyflwyno'r gerddoriaeth fyw orau i'n cynulleidfa a chefnogi artistiaid sefydledig a newydd o'r DU, yn ogystal â'r gerddoriaeth orau o bob cwr o'r byd. I brofi'r perfformiadau byw diweddar ewch i www.bbc.co.uk/radio, lle ceir hefyd ddolenni i'r gerddoriaeth orau a recordiwyd o gerddoriaeth bib ar *Cruanlath* ar BBC Radio nan Gàidheal i gerddoriaeth gwlad, gwreiddiau ac Americana ar *Bob Harris Country* ar BBC Radio 2, a phodlediadau o drysorau fel *Late Junction Sessions* ar BBC Radio 3. Beth bynnag fo'ch diddordebau cerddorol, bydd rhywbeth ar eich cyfer ar y BBC.

Nid oes unrhyw beth yn uno pobl cystal â phriodas dda – a llwyddodd y Briodas Frenhinol ym mis Ebrill i wneud hynny'n wych.

Er gwaethaf y dewisiadau niferus sydd ar gael i gynulleidfaoedd, mae rhagoriaeth y BBC dros ddarlledwyr eraill ar yr achlysuron pwysig hyn yn cynyddu. Ar gyfer y seremoni yn Abaty Westminster ei hun, denodd BBC One gynulleidfa o 18.7 miliwn ar gyfartaledd. Ymunodd 0.5 miliwn o wylwyr ychwanegol â ni ar sianel BBC News, gan roi cyfran o 69% o'r gynulleidfa i deledu'r BBC – mwy na theirgwaith cyfran ITV a mwy na 25 gwaith cyfran Sky. Dros y diwrnod cyfan, gwyliodd ychydig yn llai na 35 miliwn o wylwyr yn y DU rai o'n darllediadau, yn cynnwys newyddion ac uchafbwyntiau.

Cafwyd mwy na 530,000 o geisiadau am ffrydio byw ar gyfer y seremoni ar BBC iPlayer ar y dydd Gwener, a olygai mai hon oedd y rhaglen y gwnaed y nifer fwyaf o geisiadau ar ei chyfer ar BBC iPlayer erioed mewn un diwrnod.

## Dod â'r genedl ynghyd, parhad/…

Mae ein darllediadau o newyddion, digwyddiadau chwaraeon a cherddoriaeth fyw o'r DU a phob cwr o'r byd yn dod â chymunedau o ddiddordeb ynghyd am brofiad a rennir:

1 Ymweliad Pab Bened XVI â'r DU – a wyliwyd gan tua un o bob chwech o'r boblogaeth.
2 Roedd *Septemberfest* ar BBC Radio 5 Live o Newcastle yn cynnig rhywbeth i bob aelod o'r teulu, yn cynnwys set arbennig gan ffefryn y plant y *ZingZillas*.
3 Sylwebaeth chwaraeon ar deledu, radio ac ar-lein gan arbenigwyr fel John Inverdale a Denise Lewis.
4 Unodd Cwpan y Byd FIFA o Dde Affrica gefnogwyr pêl-droed ledled y DU, pwy bynnag yr oeddent yn ei gefnogi.
5 Perfformiodd Paulo Nutini yn fyw ar gyfer BBC Radio 2 o'i dref enedigol sef Paisley.
6 Dewisodd chwech allan o 10 o boblogaeth y DU (tua 35 miliwn) y BBC er mwyn gwylio'r Briodas Frenhinol.


1


2


3



4


5



DPA

## Cynnal cyrhaeddiad

### Cyrhaeddiad wythnosol ar draws y BBC %

| | |
|---|---|
| 09/10 | 96.9 |
| 10/11 | 96.7 |

Ffynhonnell: CMI. Sylfaen: Pawb 16+ oed.

### Siarad â chynulleidfaoedd

Bob blwyddyn, mae ein rhwydweithiau radio ar draws y DU yn mynd i bob cwr o'r wlad gan gwrdd â'u gwrandawyr a darlledu o'r lleoliadau gwahanol. Ym mis Awst, pan ymunodd BBC London 94.9 ag un filiwn o ddathlwyr yng Ngharnifal Notting Hill, darlledodd Chris Evans ei raglen *Breakfast* ar BBC Radio 2 o gae yng Nghernyw. Ym mis Medi roedd BBC Radio 5 Live yn Newcastle ar gyfer ei *Septemberfest*, a oedd yn cynnwys darllediad o'r Great North Run.

Mae gan y BBC bum cerddorfa y gellir eu gweld yn fyw, ynghyd â Chantorion y BBC, mewn amrywiaeth o gyngherddau ledled y DU, y mae llawer ohonynt am ddim. I gael rhagor o wybodaeth neu i weld dyddiadur y cyngherddau ewch i www.bbc.co.uk/orchestras.

### Uno cymunedau o ddiddordeb

Darlledwyd ein sylwebaeth chwaraeon gyntaf ar y radio yn 1927: ac mae wedi bod yn rhan hanfodol o'n hamserlenni ers hynny, gyda 44% o bobl yn gwylio neu'n gwrando ar ein sylwebaeth a'n dadansoddiadau chwaraeon bob wythnos.

Roedd 2010 yn flwyddyn anhygoel i chwaraeon gan y BBC, ac unwaith eto ni oedd hoff ddarlledwr cynulleidfaoedd ar gyfer y digwyddiadau mawr o Wimbledon i Gwpan y Byd FIFA, lle cyflawnwyd cyrhaeddiad o bron 80% ar draws pob llwyfan, nifer cynulleidfa deledu o 17.8 miliwn ar ei huchaf (ar gyfer gêm Lloegr yn erbyn yr Almaen), a'r cyrhaeddiad wythnosol uchaf erioed ar gyfer defnyddwyr ar-lein yn www.bbc.co.uk/sport sef 11.5 miliwn. Gwyliodd dros hanner y gynulleidfa oedd ar gael y gêm derfynol ar BBC One.

Gwyliodd dros bedair miliwn o wylwyr ein darllediad teledu o 'Super Saturday' yng Ngemau Athletau Ewrop ym Marcelona ym mis Awst wrth i Mo Farah, Dai Greene a Jessica Ennis o Brydain ennill Aur yr un, gan helpu Tîm Prydain Fawr i ennill 19 o fedalau, y nifer uchaf erioed. Cafwyd ffigurau cynulleidfa wythnosol o fwy na saith miliwn ar gyfer BBC Radio 5 Live yn ystod gaeaf 2010, sef y nifer uchaf erioed.

### Ychwanegu gwerth drwy ymestyn y dewis

Mae BBC Red Button ar y teledu yn cynnig profiad aml-sgrîn i wylwyr, ac yn ymestyn y dewis i'r gynulleidfa. Hyd yma eleni rydym wedi'i ddefnyddio ar gyfer amrywiaeth o ddigwyddiadau chwaraeon cenedlaethol a lleiafrifol yn cynnwys Cwpan y Byd FIFA, tennis yn Wimbledon (lle dewisodd saith miliwn o wylwyr pa gemau i'w dilyn o ddetholiad o hyd at chwech ar y tro), Formula 1, Pencampwriaeth Snwcer y Byd, y Gystadleuaeth Golff Agored, rhwyfo, sgïo a digwyddiadau marchogaeth fel Treialon Ceffylau Burleigh.

Mae ein newyddion chwaraeon yn parhau i roi sylw ar-lein i straeon pwysig sy'n digwydd ar y pryd a llwyfannau eraill fel twitter.com, lle gall cefnogwyr ddilyn pobl fel Dan Roan (@danroan) neu Cornelius Lysaght (@CorneliusRacing).

Rydym yn ceisio'n barhaus i ennyn diddordeb cynulleidfaoedd gyda'n hallbwn chwaraeon, unrhyw bryd ac unrhyw le sy'n gyfleus iddynt hwy. Er enghraifft, caiff sianel BBC News, gyda thros 100 awr o newyddion chwaraeon bob blwyddyn, ei ffrydio ar yr iPhone. Ac mae podlediadau, o *606 Football Phone-in* ar BBC Radio 5 Live i *Off the Ball* ar BBC Radio Scotland, yn cael eu defnyddio fwy-fwy i gynnig datrysiadau darparu arloesol i'n cynulleidfaoedd sydd am gael mwy a mwy o wasanaethau ar alw. I weld pa bodlediadau sydd gennym ar hyn o bryd ewch i www.bbc.co.uk/podcasts.

I weld rhai o'n blaenoriaethau a'n cynlluniau ar gyfer rhaglenni dros y flwyddyn i ddod, ewch i www.bbc.co.uk/aboutthebbc.

# Amcanion *Sicrhau Ansawdd yn Gyntaf*

Ym mis Rhagfyr, yn ei chasgliadau ar *Rhoi Ansawdd yn Gyntaf*, nododd Ymddiriedolaeth y BBC bedwar prif amcan ar gyfer y BBC rhwng nawr a 2016.

Mae'r amcanion hyn yn galw am raglen heriol o newid sefydliadol a diwylliannol – ac mae *Sicrhau Ansawdd yn Gyntaf* yr haf hwn yn cymryd cipolwg cychwynnol ar y ffordd orau o wneud hyn.
I gael rhagor o wybodaeth am *Sicrhau Ansawdd yn Gyntaf* ewch i www.bbc.co.uk/aboutthebbc/therealstory/delivering_quality_first.shtml.

## Amcan 1: **Cynyddu natur nodedig ac ansawdd yr allbwn**

Byddwn yn gwneud hyn drwy ganolbwyntio mwy ar ein pum blaenoriaeth olygyddol ar draws ein portffolio o wasanaethau.

Hefyd, rydym wedi gwrando ar yr hyn y mae cynulleidfaoedd yn dweud wrthym y maent am ei gael – yn uniongyrchol a thrwy ymgynghoriadau Ymddiriedolaeth y BBC – ac rydym wrthi'n rhoi newidiadau penodol ar waith a ddeilliodd o'r arolygon diweddar o BBC One, BBC Two, BBC Four, BBC Radio 1, BBC Radio 2, BBC Radio 3, BBC Radio 4, BBC 6Music, BBC Radio 7 (BBC Radio 4 Extra bellach) a BBC Red Button. Byddwn hefyd yn gwario llai ar wefan fwy penodedig ac o safon uwch.

Byddwn yn gwneud llai o bethau yn well mewn ffyrdd sy'n gwella ansawdd, effaith a gwerth a byddwn yn helpu'r BBC yn gyffredinol i gynnal neu gynyddu ei gyrhaeddiad i gynulleidfaoedd.

## Amcan 2: **Gwella gwerth am arian i dalwyr ffi'r drwydded**

Byddwn yn parhau i leihau'r gyfran o'n gwariant a ddyrennir i gostau rhedeg er mwyn cyfeirio cyfran fwy o ffi'r drwydded i wneud cynnwys gwych a werthfawrogir gan dalwyr ffi'r drwydded.

Fel darlledwr cyhoeddus, mae gennym ddyletswydd i wneud i bob punt o ffi'r drwydded fynd ymhellach. Mae gwneud mwy am lai yn heriol, ond nid yw'n gysyniad newydd. Yn wir, ers y 1990au rydym wedi gwneud arbedion sylweddol i leihau ein costau rhedeg o 24% o ffi'r drwydded i tua 12% heddiw. Bydd ein targed newydd yn sicrhau eu bod o dan 10% o 2013/14.

Yr un mor bwysig, byddwn yn parhau i geisio sicrhau bod y 90% o ffi'r drwydded y byddwn yn ei wario ar gynnwys a gwaith dosbarthu yn mynd yn bell hefyd, fel y gallwn ddarparu rhaglenni a gwasanaethau o safon i gynulleidfaoedd a thalwyr ffi'r drwydded.

## Amcan 3: **Gwasanaethu pob cynulleidfa**

Byddwn yn bodloni disgwyliadau ein cynulleidfaoedd drwy ddatblygu prosiectau digidol allweddol.

Mae sicrhau bod YouView yn cael ei lansio'n llwyddiannus yn parhau i fod yn flaenoriaeth ar gyfer 2011/12. Dim ond un enghraifft o'r cyfleoedd sydd ar gael o ganlyniad i ddatblygiad Internet Protocol TV (IPTV) yw YouView. Ac ar hyn o bryd rydym yn archwilio sut y gall IPTV gyfoethogi ac ychwanegu gwerth at brofiad teledu gwylwyr drwy ddefnyddio ein cryfderau mewn darlledu llinellol yn ogystal â'r gofod ar-lein i gyflwyno allbwn rhyngweithiol gorau'r BBC ar sgrîn deledu.

Byddwn yn gweithio gyda'r llywodraeth a rhanddeiliaid eraill i gyflwyno cynllun ar gyfer teledu daearol digidol, radio a band eang.

## Amcan 4: **Gosod safonau newydd o ran bod yn agored a thryloyw**

Bydd yr amcanion hyn yn rhan allweddol o'r ffordd y byddwn yn cyflwyno adroddiadau o hyn ymlaen. Cânt eu monitro gan ddefnyddio amrywiaeth o fesurau gwahanol, yn cynnwys ymchwil i'r gynulleidfa, dadansoddiad ariannol, archwiliad allanol, ac asesiad gan Ymddiriedolaeth y BBC. Yn ystod y flwyddyn i ddod bydd talwyr ffi'r drwydded yn gweld ein bod yn cyflwyno mwy o wybodaeth ar-lein yn rheolaidd a fydd yn eu hysbysu am berfformiad gwasanaethau, yn ogystal â diweddariad bob chwe mis am gynnydd yn erbyn yr amcanion hyn ac unrhyw gynigion newydd pwysig rydym yn eu datblygu. Bydd hwn ar gael yn www.bbc.co.uk/aboutthebbc/.

Mae'r Cyfarwyddwr Cyffredinol yn bwriadu cyflwyno cynigion ffurfiol ar *Sicrhau Ansawdd yn Gyntaf* i Ymddiriedolaeth y BBC yn ystod haf 2011, ac yna ceir cyfnod o ymgynghori cyhoeddus cyn cyflwyno casgliadau terfynol erbyn diwedd 2011.

# RHEOLI'R BUSNES



Roedd drama troseddau seicolegol dywyll BBC One *Luther* yn cynnwys yr actor Idris Elba fel ditectif llofruddiaethau sy'n brwydro yn erbyn ei ysbrydion ei hun, ac na all ei feddwl galluog bob amser ei achub rhag y trais peryglus a allai ddeillio o'i angerdd ei hun.

# Arolwg y Prif Swyddog Gweithredu



Bydd y Grŵp Gweithrediadau newydd yn llywio newid ac yn helpu'r BBC i gyflwyno ffyrdd symlach, mwy effeithlon a mwy cost-effeithiol o weithio – sy'n hanfodol er mwyn i ni gyrraedd y targed a bennwyd gennym ni ein hunain yn *Rhoi Ansawdd yn Gyntaf* sef lleihau gorbenion i lai na 10c ymhob punt o ffi'r drwydded erbyn 2015.

## Grŵp Gweithrediadau

Ym mis Hydref, crëwyd Grŵp Gweithrediadau newydd, estynedig drwy ddwyn ynghyd yr is-adran Gweithrediadau bresennol a BBC People a'r adrannau Cysylltiadau a Marchnata a Chynulleidfaoedd allanol, gan gyfuno swyddogaethau mor amrywiol â llinellau cymorth i gynulleidfaoedd a'r timau sy'n cynhyrchu pytiau rhagflas rhaglenni. Ym mis Chwefror, ymunodd Technoleg a Pholisi Golygyddol â'r grŵp. Mae'r grŵp estynedig yn gyfrifol am lywio newid drwy raglenni fel *Sicrhau Ansawdd yn Gyntaf* yn ogystal â gwasanaethu a chefnogi'r sefydliad cyfan â seilwaith o'r radd flaenaf.

### *Sicrhau Ansawdd yn Gyntaf*

Yn ogystal â chyrraedd targedau effeithlonrwydd presennol – £434miliwn dros y flwyddyn ariannol hon – mae'r Grŵp Gweithrediadau yn gweithio gyda gweddill y BBC i gyflawni'r arbedion ychwanegol heriol sy'n gysylltiedig â setliad sefydlog newydd ffi'r drwydded yn ogystal ag integreiddio BBC World Service a BBC Monitoring â'n gwasanaethau yn y DU a meithrin ein cydberthynas newydd gydag S4C. Mae Gweithrediadau ei hun wrthi'n arbed 25%.

### Partneriaethau a phrosiectau

Mae Gweithrediadau bellach yn gyfrifol am fwyafrif helaeth o gontractau a phrosiectau mawr y BBC, gan gynnwys y broses o symud i'r Ganolfan Ddarlledu newydd yn Llundain a fydd yn uno ein gwasanaethau newyddion a radio y flwyddyn nesaf. Mae hyn yn ein galluogi i leihau ein hôl-troed eiddo yng nghanol Llundain yn sylweddol yn ogystal â symud BBC World Service yn agosach yn ffisegol i'n gwasanaethau domestig. Yn MediaCityUK yn Salford, gwnaethom gwblhau'r broses adnewyddu o dan y gyllideb a dechreuodd y timau cyntaf symud ym mis Mai.

Rydym yn gwneud cynnydd da o ran y broses o newid i ddigidol gyda thros un o bob pedwar o boblogaeth y DU bellach wedi newid. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, gwnaethom gwblhau rhanbarth STV North (gyda thua 610,000 o gartrefi wedi newid), West a Channel Islands, gyda chynnydd da yn rhanbarthau Anglia a Central.


Lansiwyd Freeview HD ym mis Ebrill y llynedd i ategu ein gwasanaethau manylder uwch a oedd eisoes ar gael ar loeren a chebl, ac mae'n tyfu'n gyflym. Gwerthwyd bron i un filiwn o dderbynwyr ac mae mwy nag un o bob saith o bob set deledu newydd bellach yn cynnwys Freeview HD fel adnodd safonol. Cyrhaeddwyd ein targed o newid 50% o gartrefi'r DU erbyn Cwpan y Byd FIFA ym mis Gorffennaf. Lansiwyd BBC One HD yn ystod yr hydref, gan gyflwyno cyffro HD i BBC One – y sianel a gaiff ei gwylio fwyaf yn y DU – erbyn y Nadolig.

Er gwaethaf yr holl newid hwn, a fu'r un mor ansicr i rai aelodau o staff ag y bu'n gyffrous i aelodau eraill, i raddau helaeth parhaodd y BBC i weithredu fel arfer yn ystod y misoedd diwethaf: rydym wedi parhau i wneud rhaglenni gwirioneddol nodedig fel *Human Planet* a *ZingZillas*.

### Ffyrdd newydd o weithio

Mae'r oes ddigidol yn golygu bod yn rhaid i'r diwydiannau darlledu a gwybodaeth esblygu a symud yn gyflymach nag erioed. Rhaid sicrhau ein bod mewn sefyllfa i ymdrin â heriau newydd sy'n dod i'r amlwg yn y ffordd fwyaf effeithlon ac effeithiol. Er enghraifft, rydym wrthi'n cymryd y camau terfynol o ran profi prosiect chwyldroadol a fydd yn galluogi gwneuthurwyr rhaglenni i weld a golygu deunydd fideo, gan gynnwys miloedd o oriau o ddeunydd archif, ar eu cyfrifiaduron personol. Bydd hyn yn eu galluogi i weithio mewn ffordd fwy cydweithredol a mwy effeithlon, gan wneud arbedion y gellir eu bwydo nôl i gynnwys arall o ansawdd uchel.

Yn bersonol, mae hyn yn golygu cadw pethau'n syml: mae angen BBC arnom sy'n syml i weithio iddo, i bobl eraill weithio gydag ef neu fod yn bartner iddo, ac yn anad dim o bosibl, i'w gynulleidfaoedd gael gafael arno a'i ddefnyddio. Ac mae angen i ni aros yn agored, yn dryloyw ac yn atebol er mwyn sicrhau bod cynulleidfaoedd yn deall gwerth ffi'r drwydded. Bydd cyflawni hynny yn brawf o lwyddiant y Grŵp Gweithrediadau.



**Caroline Thomson**
**Prif Swyddog Gweithredu**
**23 Mehefin 2011**

Cyflawni Pwrpasau'r BBC drwy…

# Cynyddu gwerth

Cymeradwywyd ein strategaeth newydd, *Rhoi Ansawdd yn Gyntaf*, gan Ymddiriedolaeth y BBC ym mis Rhagfyr. Cynlluniwyd *Rhoi Ansawdd yn Gyntaf* i helpu'r BBC i ymateb yn hyblyg i'r heriau busnes sy'n ein hwynebu bob dydd o ystyried datblygiadau technolegol a thirlun sy'n newid yn gyflym ym maes y cyfryngau, yn ogystal ag addasu ein hymddygiad o fewn y farchnad ehangach, ac felly'r effaith a gawn ar y farchnad honno.

I ddarllen *Rhoi Ansawdd yn Gyntaf* ewch i www.bbc.co.uk/aboutthebbc/future/strategy_review.shtml, lle y byddwn hefyd yn rhoi diweddariadau wrth i ni gyflawni newid yn y BBC.

## Cyflawni gwerth i gynulleidfaoedd

Mae newidiadau o ran ymddygiad cynulleidfaoedd yn parhau i fod yn her i bob un ohonom. Er bod nifer y gwrandawyr radio ar ei lefel uchaf erioed, mae nifer yr oriau gwrando yn lleihau. Mae hyn yn arbennig o wir am Radio Lleol (o ran y BBC ac yn fasnachol).

Ar yr un pryd, mae cyfartaledd oriau gwylio teledu wedi cynyddu. Ac er bod nifer y bobl sy'n gwylio ar adegau gwahanol wedi mwy na threblu o fewn tair blynedd – BBC iPlayer yw'r gwasanaeth dal i fyny mwyaf poblogaidd ar-lein gyda thros 130 miliwn o geisiadau bob mis yn y DU – mae'r mwyafrif helaeth (tua 94%) yn dal i wylio teledu byw.

Parhaodd amodau economaidd a masnachu anodd eleni. Ym mis Awst, cofnododd seithfed adroddiad blynyddol Ofcom ar y Farchnad Gyfathrebu y gostyngiad o ran refeniw teledu a radio masnachol ar gyfer 2009 – y pumed flwyddyn yn olynol iddo ostwng (gweler www.ofcom.org.uk/cmr). Mae'r bygythiad parhaus i refeniw hysbysebu yn parhau i amlygu'r cyfleoedd a'r gefnogaeth y gall y BBC eu cynnig i ddiwydiant ehangach y cyfryngau drwy fuddsoddi ffi'r drwydded yn ofalus, er y gallai setliad newydd ffi'r drwydded effeithio ar hyn yn y dyfodol.

Fel rhan o Adolygiad Cynhwysfawr y Llywodraeth o Wariant, rhewyd ffi'r drwydded am chwe blynedd hyd at fis Rhagfyr 2016. Mae hyn yn golygu heriau newydd, sydd yn eu tro yn golygu mwy o ddewisiadau anodd. Rhaid i ni weithio'n galetach nag o'r blaen i leihau costau'n gyffredinol – pobl, prosesau, caffael, eiddo a thechnoleg – er mwyn sicrhau y buddsoddir cymaint â phosibl mewn rhaglenni a gwasanaethau yn yr hirdymor.

Wrth i ni edrych yn fewnol ar ein ffordd o reoli ein buddsoddiad yn ein cynnwys mewnol, rhaid i ni hefyd edrych yn allanol er mwyn ystyried pa un a ydym yn creu cymaint o werth â phosibl. Yn anochel, caiff rhai rhannau o'n cynulleidfaoedd eu siomi, a bydd angen taro bargeinion llymach gyda'n partneriaid a'n cyflenwyr.

## Hawliau chwaraeon

Mae dilynwyr chwaraeon yn disgwyl profi digwyddiadau gorau'r DU, Ewrop a'r byd wrth iddynt ddigwydd, gyda newyddion a dadansoddiadau ategol ar y teledu, radio ac ar-lein. Mae'r digwyddiadau chwaraeon mawr yn rhoi'r cyfle i rannu achlysuron cenedlaethol â chynulleidfaoedd enfawr ar wahanol lwyfannau. Ond gyda llawer o ddarlledwyr yn ceisio prynu'r hawliau i'r digwyddiadau chwaraeon mwyaf poblogaidd, rhaid i ni ystyried yn ofalus gydbwysedd ein portffolio hawliau cyn cynnig am hawliau newydd neu ychwanegol, gan ystyried ffactorau fel maint y gynulleidfa a ragwelir a gwerth am arian.

Mae ein portffolio hawliau chwaraeon mewn sefyllfa gref, gydag eiddo allweddol fel Cwpan y Byd FIFA 2014, Gemau Olympaidd 2012 a Wimbledon wedi'u trefnu, yn ogystal ag amrywiaeth eang o hawliau a sicrhawyd yn ddiweddar gan gynnwys:

- Golff: Golff Agored tan 2016, a Golff Meistri'r UD tan 2014
- Rygbi'r Undeb: Gemau rhyngwladol Cymru, Iwerddon a'r Alban yn fyw yn yr hydref, yn ogystal ag uchafbwyntiau gemau Lloegr
- Criced: Criced Cyfres y Lludw i *Test Match Special* ar y radio

Comisiynodd Ymddiriedolaeth y BBC ymgynghorwyr annibynnol, MTM London, i gynnal astudiaeth Gwerth am Arian o ddulliau'r BBC o gaffael hawliau chwaraeon. Daeth adroddiad MTM London i'r casgliad bod prosesau'r BBC ar gyfer rheoli hawliau chwaraeon yn addas ar gyfer amodau'r farchnad a'u bod yn galluogi'r BBC i wneud penderfyniadau synhwyrol o ran pa hawliau i'w caffael ac i reoli'r broses negodi mewn ffordd sy'n sicrhau gwerth am arian.

Cynyddu gwerth, parhad/…


## Map yn dangos cynnydd o ran Newid i Ddigidol ar ddiwedd mis Mawrth 2011

**Eisoes wedi newid**
- Border
- West Country
- Granada
- Cymru
- STV North
- West
- Channel Islands

**Newid yn 2011**
- Bydd STV Central yn newid rhwng 2010 a 2011
- Bydd Central, Yorkshire ac Anglia yn newid yn 2011
- Bydd Meridian yn newid rhwng 2011 a 2012

**Newid yn 2012**
- Bydd London yn newid yn 2012
- Bydd Tyne Tees ac UTV yn newid yn 2012

Erbyn diwedd mis Mawrth, roedd y Cynllun Cymorth Newid i Ddigidol wedi cysylltu â thua 5.4 miliwn o bobl ac wedi cwblhau 588,000 o osodiadau. Erbyn i'r broses newid gael ei chwblhau, disgwyliwn y byddwn wedi helpu tua 1.5 miliwn o bobl gymwys.




### Astudiaethau gwerth am arian

Yn ogystal ag astudiaeth MTM o hawliau chwaraeon, comisiynodd Ymddiriedolaeth y BBC ddwy astudiaeth Gwerth am Arian arall eleni.

Ym mis Chwefror, cyflwynodd y Swyddfa Archwilio Genedlaethol adroddiad ar y ffordd rydym yn rheoli rhaglen Menter y Cyfryngau Digidol, a gynlluniwyd i roi cyfle i staff y BBC ddatblygu, creu, rhannu a rheoli cynnwys a rhaglennu fideo a sain ar eu cyfrifiaduron pen desg, ac felly wella effeithlonrwydd cynhyrchu ymhob rhan o'r BBC.

Ac ym mis Mawrth, cyflwynodd y SAG hefyd adroddiad ar y ffordd rydym yn rheoli costau cynhyrchu drama barhaus, yn benodol *Casualty*, *Doctors*, *EastEnders*, *Holby City*, *River City* BBC Scotland ar rwydwaith BBC One a *Pobol y Cwm* ar gyfer S4C.

Rydym wedi derbyn canfyddiadau llawn y tri adroddiad ac yn ymdrin â hwy ar hyn o bryd. I ddarllen yr adroddiadau llawn, ewch i www.bbc.co.uk/bbctrust/our_work/vfm/index.shtml.

### Newid i ddigidol

Mae Digital UK Limited – y mae'r BBC a PSBs a thrwyddedeion amlblecs digidol eraill yn y DU yn berchen arno ac yn ei ariannu – yn gweithio'n agos gyda'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS) ac Ofcom i baratoi ar gyfer y newid o deledu analog i deledu digidol.

Mae'n gyfrifol am gydlynu a chynllunio'r broses dechnegol ar gyfer cyflwyno rhwydwaith daearol digidol (DTT) yn unol ag amserlen a bennwyd gan y llywodraeth sy'n ymestyn o 2008 i 2012. Cyllidebwyd 'cost' o hyd at £200miliwn ar gyfer y gwaith, a neilltuwyd y swm hwnnw yn ffi'r drwydded.

Cwblhawyd 12 o brosesau newid yn ystod y flwyddyn hyd at 31 Mawrth, gan newid 2.5 miliwn o gartrefi. Ar ôl newid rhanbarth West yn Lloegr, y prif ffocws eleni oedd STV North a Channel Islands, ardaloedd lle nad oedd llawer o allu DTT ar gael, os o gwbl, cyn rhoi'r broses newid ar waith. Mae dyfodiad Freeview wedi gwella'r dewis sydd ar gael i wylwyr yn sylweddol.

Mae Digital UK yn gweithio gyda rhanddeiliaid yn y diwydiant a grwpiau eraill â diddordeb, ac yn helpu i sicrhau bod gwylwyr yn gwybod beth sy'n digwydd a phryd, a beth y mae angen iddynt ei wneud.

Disgwylir i'r broses newid i ddigidol gael ei chwblhau erbyn diwedd 2012. Drwy ein his-gwmni DSHS Limited, sy'n eiddo llawn i ni, mae'r BBC hefyd yn cynnig help ymarferol i filiynau o wylwyr hŷn ac anabl barhau i wylio'r rhaglenni a'r gwasanaethau y maent yn hoff ohonynt – nid yn unig gan y BBC – ac yn sicrhau na chaiff unrhyw un eu hesgeuluso.

I gael rhagor o wybodaeth am y Cynllun Cymorth Newid i Ddigidol, ewch i www.helpscheme.co.uk neu i gael cyngor ffoniwch Rhadffon 0800 40 85 900.

### Caffaeliadau rhaglenni

Yn *Rhoi Ansawdd yn Gyntaf* gwnaethom ymrwymo i leihau ein gwariant blynyddol ar gaffaeliadau tramor £20miliwn, gan dargedu'r arbedion tuag at fwy o raglennu gwreiddiol o'r DU.

Byddwn yn anelu o hyd at gyflwyno rhai o'r goreuon o blith dramâu a ffilmiau tramor i wylwyr yn y DU, yn unol â'n pwrpas Byd-eang o gyflwyno goreuon y byd i'r DU. Roedd y ffilmiau ieithoedd tramor gorau – gan gynnwys *The Diving Bell and the Butterfly* a *The Counterfeiters* – a dramâu eraill fel y gyfres heddlu o Ddenmarc *The Killing* ar gael o hyd ar BBC Four yn ystod y flwyddyn. Ond, fel gyda hawliau chwaraeon, nid ydym yn barod i brynu am unrhyw gost. Roedd yn bleser gennym allu cyflwyno gwylwyr y DU i fyd rhyfeddol *Mad Men* ond penderfynwyd peidio ag ymladd dros hawliau'r



Gall rhaglenni a gaffaelir – fel y ddrama heddlu *The Killing* gan y darlledwr DR o Ddenmarc, a ddangosir yma – ddarparu gwerth ardderchog, yn ogystal â chyflwyno cynnwys gorau'r byd i gynulleidfaoedd yn y DU.

### Cyfanswm staff PSB cyfartalog (cyfwerth ag amser llawn)

| | |
|---|---|
| Diwedd y flwyddyn 2006 | 18,860 |
| Diwedd y flwyddyn 2007 | 17,914 |
| Diwedd y flwyddyn 2008 | 17,677 |
| Diwedd y flwyddyn 2009 | 17,078 |
| Diwedd y flwyddyn 2010 | 17,238 |
| Diwedd y flwyddyn 2011 | 17,242 |

Nid oedd y penderfyniad i ddileu rhai swyddi a nodwyd fel rhan o'n proses ailstrwythuro bresennol wedi'i roi ar waith eto ar 31 Mawrth 2011. Yn ogystal, mae rhai swyddi deuol ar waith wrth i ni gwblhau'r broses o symud i'r safle newydd yn Salford. Yn ein his-adrannau Cyfryngau'r Dyfodol a Thechnoleg, cafodd nifer o staff asiantaeth eu disodli dros y flwyddyn gan bobl a gyflogwyd yn uniongyrchol gan y BBC ac sydd erbyn hyn yn rhan o'r cyfanswm staff cyffredinol.

### Staff PSB y DU yn ôl Gwlad (cyfwerth ag amser llawn) %

| | 2009/10 | **2010/11** |
|---|---|---|
| Lloegr (heb gynnwys Llundain) | 24 | **25** |
| Llundain | 59 | **55** |
| Yr Alban | 7 | **8** |
| Cymru | 7 | **8** |
| Gogledd Iwerddon | 3 | **4** |
| **Cyfanswm** | 100% | **100%** |

### Nifer yr uwch reolwyr yn ôl band cyflog

| Band | 2009/10 | **2010/11** |
|---|---|---|
| O dan £70,000 | 40 | **41** |
| £70,000-£99,999 | 261 | **230** |
| £100,000-£129,999 | 157 | **128** |
| £130,000-£159,999 | 82 | **77** |
| £160,000-£189,999 | 33 | **28** |
| £190,000-£219,999 | 23 | **20** |
| £220,000-£249,999 | 9 | **7** |
| £250,000-£279,999 | 4 | **4** |
| £280,000-£309,999 | 2 | **2** |
| £310,000-£339,999 | 3 | **3** |
| Cyfanswm* | 614 | **540** |

Rydym yn cyhoeddi manylion cyflogau uwch reolwyr mewn bandiau o £5,000, yn ogystal â chyflogau, ceisiadau am dreuliau a chofrestr rhoddion a lletygarwch y 110 o uwch reolwyr uchaf, a nodir yn ôl eu cyflog, eu cyfrifoldebau a thrwy gyfeirio at www.bbc.co.uk/aboutthebbc/running/bbcstructure/az.shtml.

* Nid yw'r cyfanswm yn cynnwys aelodau'r Bwrdd Gweithredol.

bumed gyfres. Cynigiodd Sky swm sylweddol uwch na'r swm yr oeddem yn barod i'w dalu ac felly mae'r sioe bellach wedi symud. Bydd dilynwyr yn y DU yn dal i allu gwylio'r gyfres newydd, ond bydd yn rhaid iddynt dalu tanysgrifiad misol i sianel premiwm newydd Sky.

### Ychwanegu gwerth drwy ymestyn adnoddau

Ein nod yw parhau i wella ein heffeithlonrwydd a'n heffeithiolrwydd tra'n cynnal ac yn gwella gwasanaethau ac ansawdd i gynulleidfaoedd. Mae *Rhoi Ansawdd yn Gyntaf* wedi rhoi sbardun newydd i'n rhaglen effeithlonrwydd barhaus, wrth i ni archwilio lefel a dosbarthiad ein gwariant ar bobl (yn bobl fewnol a thrwy gontractwyr allanol).

## Staff

### Rheoli staff a chydnabyddiaeth

Rydym yn ffodus tu hwnt bod gennym weithlu sy'n meddu ar lefelau uchel iawn o sgiliau yn ogystal â balchder yn y gwaith a wnânt ac yn y BBC fel sefydliad. I lawer, rydym yn cynnig y cyfle i weithio ar amrywiaeth o allbwn a gweithgareddau nas cynigir unman arall, gan gynnig heriau creadigol sydd o fudd i bawb, yn arbennig cynulleidfaoedd.

Fodd bynnag, bu'n flwyddyn arbennig o anodd i ni ddangos ein bod yn gwerthfawrogi ein staff a chydnabod y gwerth a gyflwynir ganddynt. Diddymwyd y cynlluniau bonws i staff a rheolwyr a rhoddwyd ymgynghoriad cynhwysfawr – a oedd weithiau'n ddadleuol – ar waith gyda chyflogeion ac undebau i drafod diwygiadau radical i drefniadau pensiwn y BBC.

At hynny, adlewyrchodd setliad cyflogau 2010 yr hinsawdd economaidd a'r angen i gynnig cytundeb fforddiadwy sy'n cynnig gwerth i dalwyr ffi'r drwydded. Fel rhan o'r cytundeb, cynigiwyd codiad islaw chwyddiant i'r rheini ar lai na £37,726, gyda chyflogau'r rhai ar gyflogau uwch yn cael eu rhewi am yr ail flwyddyn yn olynol. Er bod hyn wedi siomi llawer, roedd yn ymateb cyfrifol i'r pwysau dybryd ar gyflogau a phensiynau drwy'r sector cyhoeddus a'r sector preifat. Serch hynny, cafwyd dau ddiwrnod o streic dros y diwygiadau pensiwn a chyflogau, er i ni ddod i gytundeb yn y diwedd ac mae ein cynigion yn y ddau faes bellach wedi'u rhoi ar waith.

Ein targed o ran cyflogau uwch reolwyr yw lleihau'r bil cyflogau hwnnw 25% erbyn diwedd mis Rhagfyr 2011. Ers mis Awst 2009 fe'i lleihawyd £14.4miliwn (18.3%), gyda'r gweddill o £5.4miliwn yn debygol o gael ei gyflawni erbyn y dyddiad targed. Ar gyfartaledd, telir 8.7% yn llai i uwch reolwyr newydd na deiliad blaenorol y swydd.

O gymharu â'r llynedd, mae lefel y staff cyfwerth ag amser llawn wedi parhau'n gymharol sefydlog er bod proffil cyflog a gwasanaeth y sefydliad wedi newid ar ôl lleihau nifer yr uwch reolwyr a chyfran uwch o ddiswyddiadau ymhlith yr aelodau o staff a fu yn eu swyddi hiraf ac ar y cyflogau uchaf.

Mae'r cyfleusterau darlledu newydd yn Salford a'r Ganolfan Ddarlledu yn Llundain a adeiladwyd yn bwrpasol ac sy'n defnyddio'r dechnoleg ddiweddaraf yn rhoi'r cyfle i wneud newidiadau uchelgeisiol yn ystod y blynyddoedd nesaf. Bydd dulliau gweithio aml-lwyfan, cydweithredu creadigol a rhannu gwybodaeth yn llywio effeithlonrwydd a gwell buddiannau i gynulleidfaoedd.

Mae tua 2,300 o swyddi wrthi'n cael eu symud i MediaCityUK yn Salford. Bydd amcangyfrif o 1,500 o bobl o Lundain yn ymuno â'r staff sy'n symud o'n hen safle ym Manceinion, gyda 500 o aelodau o staff creadigol ychwanegol lleol yn yr un lleoliad ochr yn ochr â'r BBC wrth i'r datblygiad gyflwyno cyfleoedd newydd yn yr ardal. Gall pobl sydd â diddordeb ymuno â ni yn Salford uwchlwytho eu CV yn www.bbc.co.uk/jobs/north.

Disgwylir hefyd i dros 5,000 o aelodau o staff symud i'r Ganolfan Ddarlledu newydd yn Llundain o ddechrau 2012. Bydd hyn yn ein galluogi i leihau ein hôl-troed eiddo yng nghanol Llundain yn sylweddol wrth i ni symud BBC World Service yn agosach yn ffisegol i'n gwasanaethau newyddion a radio domestig.

Rydym yn cydnabod bod y broses o symud adrannau allweddol o Lundain i Salford ynghyd ag ansicrwydd ymhlith y staff o ran gweithredu *Sicrhau Ansawdd yn Gyntaf* yn peri gofid i lawer o gyflogeion. Bydd llai o swyddi yn y BBC newydd. Felly, yn ystod y flwyddyn nesaf, byddwn yn gweithio gyda staff ac undebau i reoli'r newidiadau hynny mewn ffordd deg,

Cynyddu gwerth, parhad/…

## Tabl amrywiaeth, % o gyfanswm y staff

| | Targed 2012 | **Gwirioneddol 2010/11** | Newid pwynt % o flwyddyn i flwyddyn |
|---|---|---|---|
| Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig | 12.5 | **12.2** | +0.1 |
| Uwch reolwyr, Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig | 7.0 | **6.0** | +0.3 |
| Staff anabl | 5.5 | **4.1** | -0.1 |
| Uwch reolwyr, staff anabl | 4.5 | **3.0** | -0.4 |

Ein nod yw cyrraedd pob un o'n targedau amrywiaeth erbyn y dyddiad terfyn yn 2012.




Lansiwyd y Coleg Cynhyrchu eleni. Mae'r coleg, sy'n rhad ac am ddim i ddefnyddwyr yn y DU, yn helpu i ddarparu'r sgiliau sydd eu hangen ar bobl i sicrhau y cânt eu cyflogi am oes o fewn tirlun y cyfryngau sy'n newid yn gyson.

dryloyw a thosturiol, gan ddarparu gwasanaethau chwilio am swydd newydd ac adleoli lle y bo'n bosibl a gweithio i gynnal cymhelliant staff ac ymgysylltu â hwy.

### Amrywiaeth

Mae ymrwymiad sylfaenol i wasanaethu ein cynulleidfaoedd yn llywio agenda cydraddoldeb ac amrywiaeth y BBC: ein nod yw adlewyrchu amrywiaeth y byd sydd ohoni drwy ein gweithlu, sy'n uniongyrchol ac yn anuniongyrchol yn gwneud cynnwys cyfoethog ac ystyrlon sy'n dychwelyd ansawdd a gwerth i holl gynulleidfaoedd y DU.

Rydym yn adolygu ein polisïau a'n prosesau yn barhaus er mwyn sicrhau nad ydynt yn achosi rhwystr i unrhyw ddarpar gyflogeion ac mae targedau penodol sy'n gysylltiedig â'r gweithlu yn canolbwyntio ein hymdrechion ar sicrhau gweithlu amrywiol i adlewyrchu Prydain fodern. Ond rydym hefyd yn edrych y tu hwnt i'r targedau hyn ymhob rhan o'n gweithlu. Rydym wedi gweithio gyda staff o bob un o is-adrannau'r BBC er mwyn iddynt allu deall gofynion craidd Deddf Cydraddoldeb 2010 a'u rhoi ar waith, ac wedi datblygu modiwl hyfforddiant newydd ar-lein i reolwyr newydd ar amrywiaeth.

Merched oedd hanner (49.2%) cyfanswm gweithlu'r BBC y llynedd, ac roedd dros draean ohonynt (36.0%) ar lefelau uwch reolwyr. Mae'r ddau yn sefydlog o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Mae nifer y staff sy'n nodi eu bod yn anabl wedi parhau'n rhesymol gyson ar 4.1% (2010: 4.2%) a 3.0% yw'r ganran ymhlith uwch reolwyr. Mae 12.2% o'n staff yn bobl dduon a lleiafrifoedd ethnig gyda chynnydd bach ar lefelau uwch reolwyr, sydd bellach ar 6.0%.

Gwnaethom newid ein categorïau monitro ethnigrwydd i adlewyrchu Cyfrifiad cenedlaethol 2011, ac rydym wedi cyflwyno trefniadau monitro cyfeiriadedd rhywiol a chrefydd neu gred i'n helpu i ddeall cyfansoddiad ein gweithlu yn well.

Yn ystod y flwyddyn, daeth y BBC yn gadeirydd ar y Rhwydwaith Amrywiaeth Diwylliannol (CDN) a lansiodd raglen hyfforddi a datblygu i ategu cynllun mentora CDN. Ym mis Rhagfyr, dathlwyd Diwrnod Rhyngwladol Pobl Anabl gydag wythnos o raglennu ar bob llwyfan gan gynnwys *Access All Areas*, gyda chyflwynwyr a newyddiadurwyr anabl adnabyddus yn ystyried technoleg, cyflogaeth ac agweddau cymdeithasol.

Gan edrych ar y flwyddyn i ddod, ymhlith meysydd eraill allweddol, byddwn yn canolbwyntio ar ddeall materion sy'n ymwneud ag oedran a gwahaniaethu ar sail oedran yn y diwydiant. Rydym wrthi'n gweithio â meysydd gwneud rhaglenni yn y BBC a chyda'r diwydiant ehangach i ddatblygu ffordd fwy soffistigedig o adlewyrchu pobl o wahanol oedrannau yn ein talent ar yr awyr.

I gael rhagor o wybodaeth am ein hymagwedd tuag at gydraddoldeb ac amrywiaeth ewch i www.bbc.co.uk/diversity.

### Academi'r BBC

Eleni canolbwyntiodd ein hyfforddiant ar feithrin sail dalent yn y DU â sgiliau trosglwyddadwy a'r gallu i fanteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd creadigol a gynigir gan fyd cwbl ddigidol. Yn yr hinsawdd economaidd sydd ohoni, mae'n bwysicach nag erioed bod y BBC yn rhannu hyfforddiant sy'n hawdd cael gafael arno yn uniongyrchol â'r diwydiant.

Un o uchafbwyntiau'r flwyddyn oedd lansio gwefan y Coleg Cynhyrchu, gan ymuno â gwefan y Coleg Newyddiaduraeth a oedd yn bodoli eisoes – gyda'r ddwy yn cael eu cynnig am ddim i bawb yn y DU. A chynigiwyd cyfres o 20 o fodiwlau hawdd eu dilyn ar-lein gennym ar bynciau yn gysylltiedig â safonau golygyddol fel cywirdeb, didueddrwydd a phreifatrwydd. Bydd rhagor i ddilyn.

Ledled y DU, sefydlwyd partneriaethau allweddol gennym gyda chyrff eraill o fewn y diwydiant: gwnaethom ymuno â Chyngor Celfyddydau Lloegr i helpu sefydliadau celfyddydol i greu cynnwys cymhellol o ansawdd uchel gan ddefnyddio technolegau'r we a thechnolegau darlledu; gwnaethom chwarae rhan allweddol wrth lunio a chefnogi Gŵyl Cyfryngau Belfast 2010; ac am y tro cyntaf, roedd gan Academi'r BBC bresenoldeb cryf mewn digwyddiadau blaenllaw i'r diwydiant, gan gynnwys cynnig hyfforddiant am ddim yng Ngŵyl Deledu Caeredin a Gŵyl Rhaglenni Dogfen Sheffield.

Drwy ddiwydiant y cyfryngau, ac fel rhan o'n Partneriaeth Anchor ym Mryste, gwnaethom ddarparu hyfforddiant sy'n ategu arloesedd creadigol ledled De Orllewin Lloegr. Ac mewn



Mae'r BBC wedi hyrwyddo pasbort diogelwch i'r diwydiant cyfan sy'n sicrhau bod staff wedi'u hyfforddi'n llawn ymhob agwedd ar ddiogelwch mewn perthynas â'u gwaith. I gael rhagor o fanylion am hyn a modiwlau hyfforddiant eraill sydd ar gael i'r diwydiant a'r cyhoedd ewch i www.bbctraining.com.

partneriaeth â PACT, y gymdeithas fasnach sy'n cynrychioli ac yn hyrwyddo buddiannau masnachol cynhyrchwyr annibynnol, gwnaethom gyflwyno gweithdai aml-lwyfan i gannoedd o weithwyr llawrydd ledled y DU.

Gwyddom fod y diwydiant yn gwerthfawrogi'r hyfforddiant hwn. Nododd y cylchgrawn Broadcast fod 93% o weithwyr llawrydd o'r farn bod hyfforddiant yn rhan bwysig o'r hyn sy'n eu helpu i fod yn llwyddiannus (Ebrill 2011) ac mae 83% o randdeiliaid y diwydiant o'r farn bod y BBC yn gwneud cyfraniad arwyddocaol o ran hyfforddi'r diwydiant darlledu (ffynhonnell: arolwg Academi'r BBC o randdeiliaid allanol, Mawrth 2011).

Byddwn yn parhau i ddatblygu ein partneriaethau gyda'r diwydiant, gan ehangu buddiannau hyfforddiant y BBC i gronfa ehangach o weithwyr llawrydd y mae'r diwydiant cyfan yn dibynnu arnynt. Ond, yn fewnol, byddwn yn canolbwyntio ein hymdrechion i raddau helaeth ar hwyluso'r broses o symud i Salford a dychwelyd i'r Ganolfan Ddarlledu ar ei newydd wedd yn ystod 2011. Byddwn hefyd yn helpu'r BBC i weithredu'r newidiadau sy'n gysylltiedig â *Sicrhau Ansawdd yn Gyntaf*.

## Diogelwch

Mae ein tîm diogelwch yn ymwneud â holl allbwn y BBC, gydag uchafbwyntiau sylweddol eleni yn cynnwys: darlledu digwyddiadau newyddion yng Ngogledd Affrica a'r Dwyrain Canol; ffilmio'r gyfres nodedig *Africa*, gan wynebu heriau eithafol o ran yr hinsawdd a'r dirwedd, yn ogystal â'r amgylchedd gwleidyddol cyfnewidiol; Gemau'r Gymanwlad yn Delhi; Cwpan Criced y Byd; Glastonbury; y Proms a Proms yn y Parc; rhifyn arbennig *Top Gear* o'r Dwyrain Canol; a sicrhau diogelwch miloedd o ymwelwyr i ddigwyddiadau gan gynnwys *Doctor Who Live* a'r *Doctor Who* Experience.

Ni chafwyd unrhyw farwolaethau yn ystod 2010/11. Gwnaethom roi gwybod i'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch am 38 o ddamweiniau, sy'n cyfateb i gyfradd ddigwyddiadau o 175 fesul 100,000 aelod o staff. Mân ddamweiniau yw'r rhan fwyaf ohonynt.

Ymhlith ein gwaith gydag arweinwyr y diwydiant, cyflogwyr eraill ac HSE eleni roedd cynadleddau diogelwch undydd yn trafod Sŵn yn y Grwpiau Perfformio, Diogelwch Digwyddiadau a Chynnwys Gweithwyr. Rydym wedi bod yn gweithio gydag HSE ac eraill i lunio canllawiau newydd i gerddorion er mwyn helpu i amddiffyn eu clyw.

Rydym yn parhau i ganolbwyntio ar symleiddio diogelwch, yn arbennig ar sicrhau bod y gwaith o gynllunio ar gyfer diogelwch yn gymesur ac yn canolbwyntio ar risg ddifrifol. Rydym wedi cyhoeddi cyfres o ganllawiau poced i staff sy'n osgoi'r angen i ailadrodd gwaith cynllunio ar gyfer tasgau cyffredin a chyfarwydd, ac wedi darparu hyfforddiant ymwybyddiaeth arnynt.

I ddarllen polisïau iechyd a diogelwch y BBC ewch i www.bbc.co.uk/safety.



Mae ein hymagwedd tuag at ddiogelwch yn canolbwyntio ar atal, ond rydym hefyd yn helpu pobl ar ôl digwyddiadau annisgwyl neu ddigwyddiadau nas cynlluniwyd, gan gynnwys gohebydd Arabeg y BBC Assad Sawey, a gafodd ei guro yn ystod protestiadau democratiaeth Sgwâr Ramses yng Nghairo ac a welir yma ar y chwith yn cael cyfweliad gyda'i gydweithiwr o'r adran Newyddion, Lyse Doucet.



Adroddodd *The Road to Coronation Street* gan y cyflenwr allanol ITV Studios, a oedd yn rhan o dymor Planet North BBC Four, hanes genedigaeth anodd sioe sy'n parhau'n un o lwyddiannau mwyaf y diwydiant teledu ac a ddathlodd ei hanner canmlwyddiant ym mis Rhagfyr.

Cynyddu gwerth, parhad/…

## Gwariant ar Dalent 2010/11

| Band cyflog | 2009/10 £000oedd | Nifer yr unigolion | 2010/11 £000oedd | Nifer yr unigolion | Amrywiad £000oedd |
|---|---|---|---|---|---|
| Hyd at £50,000 | 103,877 | 57,859 | 102,433 | 50,029 | (1,444) |
| £50,000-£99,999 | 41,766 | 618 | 38,259 | 562 | (3,507) |
| £100,000-£149,999 | 15,434 | 129 | 16,990 | 142 | 1,556 |
| £150,000-£249,999 | 17,881 | 94 | 14,958 | 80 | (2,923) |
| £250,000-£499,999 | 8,457 | 26 | 10,781 | 33 | 2,324 |
| £500,000-£749,999 | 6,170 | 21 | 4,084 | 19 | (2,086) |
| £750,000-£999,999 | 2,756 | | 3,315 | | 559 |
| £1,000,000-£4,999,999 | 16,964 | | 14,647 | | (2,317) |
| Sefydliadau* | 8,211 | 2,943 | 7,098 | 2,505 | (1,113) |
| Cyfanswm | 221,516 | 61,690 | 212,565 | 53,370 | (8,951) |

* Ystyr sefydliadau yw grwpiau o unigolion o dan gontract fel un – ee cerddorfeydd allanol – felly nid yw'n bosibl rhestru nifer yr unigolion yn erbyn y cyfnod hwn. Cyfunwyd nifer yr unigolion yn y categorïau £500,000+ er mwyn diogelu gwybodaeth bersonol yr unigolion hynny, yn unol ag arfer gorau o ran diogelu data.

### Creu gwerth a synergeddau newydd

#### Economi greadigol y DU

Cred y BBC fod dyfodol darlledu cyhoeddus yn y DU yn dibynnu ar gymuned greadigol fywiog yn y DU. Heb dalent leol ar yr awyr a'r tu ôl i'r llenni, byddai amrywiaeth, ansawdd a lluosogrwydd presennol cynnwys a gwasanaethau darlledu cyhoeddus y DU yn amhosibl i'w cynnal.

#### Canllawiau golygyddol

Dros y blynyddoedd, mae cenedlaethau o wneuthurwyr rhaglenni wedi dysgu llawer o wersi am sut i wneud ein cynnwys. Gwersi sy'n berthnasol hyd heddiw. Ac rydym yn crynhoi'r gwersi hyn yn ein Canllawiau Golygyddol, sydd ar gael yn www.bbc.co.uk/guidelines/editorialguidelines, ac sy'n darparu sicrwydd ysgrifenedig o'n hymrwymiad i'n cynulleidfaoedd yn ogystal â chymorth gwerthfawr i wneuthurwyr rhaglenni mewnol ac allanol.

Yn ogystal â'r canllawiau hawdd eu dilyn, mae'r safle yn rhoi cyngor ar sut i'w dehongli ac yn cysylltu i fodiwlau hyfforddiant bach newydd sbon gan Academi'r BBC, felly gall defnyddwyr o'r BBC a'r tu allan ddysgu (am ddim) sut i'w cymhwyso. Cysylltwch drwy www.bbc.co.uk/academy/collegeofproduction.

#### Cwmnïau annibynnol

Ers ei gyflwyno, mae'r BBC wedi llwyddo'n gyson i fodloni'r cwota oriau teledu a sefydlwyd o dan Ddeddf Darlledu 1990 a anelwyd at gwmnïau cynhyrchu annibynnol, ac fel arfer mae'n llwyddo i ragori ar y cwota hwnnw.

Dros y blynyddoedd, ac wedi'i hybu gan y cwota o 25%, mae'r sector teledu annibynnol wedi tyfu o ran maint ac o ran hyder, ac heddiw mae'n gyfrifol am ddarparu rhai o hoff raglenni'r DU fel *Gareth Malone's Extraordinary School for Boys* a *Sherlock*. Mae'r BBC wedi cyflwyno ei Ffenestr Cystadleuaeth Greadigol (WoCC) ei hun, gan gynyddu ymhellach eto yr oriau teledu a gaiff eu comisiynu gan gwmnïau annibynnol ym maes adloniant, comedi, drama, ffeithiol a phlant. Nodir perfformiad yn erbyn y WoCC ar gyfer teledu yn y ddogfen Performance Against Public Commitments yn yr adran lawrlwytho yn www.bbc.co.uk/annualreport.

Nid yw'r farchnad cyflenwi radio wedi'i sefydlu cystal. Ar hyn o bryd, mae'r BBC o'i wirfodd yn pennu ei gwota ei hun o 10% o raglennu radio cymwys fesul awr ddarlledu gan gynhyrchwyr radio annibynnol. Rydym wedi rhagori ar y cwota hwn o fwy na 2% ar gyfer pob blwyddyn ond un yn ystod y deng mlynedd diwethaf. Ym mis Awst, gofynnodd Ymddiriedolaeth y BBC i'r Bwrdd Gweithredol gyflwyno WoCC ar gyfer y farchnad rhaglenni radio, gan o bosibl gynyddu'r oriau rhaglennu sydd ar gael i gynhyrchwyr annibynnol 10% arall.

#### Gwariant ar dalent

Cadarnhaodd arolwg o gostau talent gan Ymddiriedolaeth y BBC yn 2008 nad oedd y BBC yn talu mwy na phris y farchnad am y dalent orau ar y teledu. Ar y pryd, ymrwymodd y BBC i ostwng ei wariant drwy gynnal arolwg o'r ffordd rydym yn rheoli ac yn gwobrwyo talent ar yr awyr – yr artistiaid, y cyflwynwyr a'r perfformwyr hynny sy'n helpu i lywio barn cynulleidfaoedd am ansawdd a natur nodedig y BBC – ac ystyried sut y gallem wella ein prosesau tra'n parhau i fuddsoddi yn y dalent orau sydd ar gael.


Eleni, rydym wedi parhau i leihau ein gwariant ar y dalent orau a'n gwariant cyffredinol (gostyngiad o £9miliwn arall ar gyfer gwariant cyffredinol ar dalent, gan gynnwys £2.9miliwn ar gyfer y rheini sy'n ennill dros £100,000) wrth i ni ganolbwyntio ar fynd ati i roi ein strategaeth ar waith: i leihau'r cyfraddau a delir, datblygu talent newydd, a gweithio'r dalent sy'n bodoli eisoes yn galetach, fel y bo'n briodol. Fodd bynnag, o ganlyniad i farchnad fasnachol ffyniannus, mae sawl unigolyn proffil uchel wedi ymuno â darlledwyr eraill sy'n golygu bod gostyngiadau pellach yn anodd.

Y llynedd, am y tro cyntaf, gwnaethom gyhoeddi cyfanswm ein gwariant ar dalent. Eleni, rydym yn cyhoeddi'r data ar lefel fanylach, fel y cynigiwyd gan Bwyllgor Dethol Tŷ'r Cyffredin ar Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, gan ddangos ein hymrwymiad i dryloywder a gwerth am arian i dalwyr ffi'r drwydded.

#### Partneriaethau

Credwn fod gweithio mewn partneriaeth ag eraill yn werthfawr iawn. Drwy gyfuno ein harbenigedd a'n hadnoddau







1 *The Ginger Tree* oedd un o'r enghreifftiau cynharaf o gynnwys teledu HD. Ni allai cynulleidfaoedd brofi'r HD, ond serch hynny, llwyddodd y rhaglen i ennill dwy wobr BAFTA ac fe'i henwebwyd am dair gwobr arall.
2 Mae YouView yn rhoi cyfle i bobl wylio BBC iPlayer ar deledu'r teulu heb fod ar gyfrifiadur personol.

## Buddsoddiad mewn arloesedd ers 2006

**£m**




Mae cyfanswm y flwyddyn yn cynrychioli gwariant y BBC ar seilwaith a thechnoleg ddosbarthu, yn ogystal â'i wariant ar weithgarwch ymchwil a datblygu arall nad oedd, ar y pryd, wedi esgor ar gynnyrch neu wasanaeth. Mae hefyd yn cwmpasu buddsoddiad mewn technoleg gynulleidfaol, cynnwys a chynhyrchu – y ceir rhai enghreifftiau ohonynt ar y tudalennau nesaf.

ag arbenigedd ac adnoddau partneriaid allanol a chwmnïau cynhyrchu annibynnol, gallwn gefnogi'r diwydiannau creadigol ehangach wrth iddynt ddatblygu eu sgiliau a'u profiad, ac ehangu'r hyn a gynigir ganddynt ac felly, gyda'n gilydd, ddarparu mwy o werth i'n holl gynulleidfaoedd.

### YouView

Cynigiwyd 'Project Canvas' fel ffordd o gyflwyno fersiwn wedi'i uwchraddio yn cynnwys cysylltiad â'r rhyngrwyd o lwyfan teledu digidol am ddim y DU, Freeview, a chreu dewis amgen o ran cynnwys heb danysgrifiad i gynulleidfaoedd mewn marchnad sy'n llawn dewisiadau teledu â thâl.

Ym mis Mehefin, ar ôl proses ymgynghori helaeth â'r cyhoedd, cawsom gymeradwyaeth i gymryd rhan mewn cyd-fenter galluogi ac o ganlyniad, sefydlwyd YouView TV Ltd ym mis Medi. Mae treialon defnyddwyr wedi'u trefnu yn ddiweddarach yn ystod 2011 ac, ar y cyd â'r cyfranddeiliaid eraill sef ITV, BT, Channel Five, Channel 4, TalkTalk ac Arqiva, rydym yn bwriadu lansio ddechrau 2012.

Bydd defnyddwyr yn gallu prynu blwch pen set a fydd yn integreiddio cynnwys ar alw – o ffynonellau fel BBC iPlayer – â rhaglenni byw a rhaglenni wedi'u recordio.

Mae bod yn agored yn greiddiol i fodel busnes YouView. Bydd safonau technegol cyffredin yn galluogi amrywiaeth o gwmnïau technoleg i wneud blychau a bydd amgylchedd agored o ran cynnwys yn rhoi cyfle i drydydd partïon fel Local TV ymddangos ar sgrîn yr ystafell fyw.

### Freeview HD – DVB-T2

Pan nododd partneriaid Freeview eu bod am gyflwyno gwasanaeth Manylder Uwch i'w cynulleidfaoedd, roedd angen iddynt ddod o hyd i ffordd o ddarlledu'r signalau HD llawer mwy o fewn capasiti'r sbectrwm presennol. Er mwyn gwneud y defnydd mwyaf effeithlon o'r sbectrwm a oedd ar gael, cydweithredodd BBC Research & Development (R&D) ag arbenigwyr darlledu eraill yn Ewrop a oedd yn cynrychioli 40 o gwmnïau ac – mewn llai na 18 mis – gwnaethant ddatblygu system ddarlledu newydd, DVB-T2.

O ganlyniad i DVB-T2, llwyddwyd i lansio Freeview HD mewn pryd ar gyfer Cwpan y Byd FIFA. Erbyn diwedd mis Mawrth, roedd 1.85 miliwn o flychau Freeview HD a setiau teledu Freeview HD wedi cael eu gwerthu.

Mae Freeview HD yn darlledu sianel BBC HD, ITV 1 HD a 4 HD. Ychwanegwyd at y dewis hwn yn ystod hydref 2010 gyda dyfodiad BBC One HD sy'n cyd-ddarlledu fersiwn rhwydwaith o amserlen BBC One am y tro cyntaf.

Ym mis Medi, enillodd gwaith BBC R&D Wobr Arloesedd 2010 IBC ar gyfer Cyflwyno Cynnwys.

### Super Hi-Vision

Rydym yn parhau i ddatblygu partneriaethau drwy sector cyfan y cyfryngau a all fod o fudd i gynulleidfaoedd ymhob man – yn aml y tu ôl i'r llenni a thros gyfnod o flynyddoedd.

Gweithiodd un o dimau BBC R&D gyda'r darlledwr Siapaneaidd NHK ar y ffilm Manylder Uwch gyntaf *The Ginger Tree* yn 1989, er na allai'r gynulleidfa bryd hynny weld buddiannau HD!

Yn y blynyddoedd ers hynny, rydym wedi parhau i gydweithredu ag NHK er mwyn mireinio HD a helpu i ddatblygu systemau arloesol eraill fel y system ddarlledu arbrofol newydd Super Hi-Vision – sydd 16 gwaith yn gliriach na'r system Manylder Uwch bresennol. Yn fwyaf diweddar, rydym wedi rhannu buddiannau arbenigedd sylweddol y BBC ym maes technolegau dosbarthu a chywasgu i helpu NHK i ganfod yn union beth fydd yn bosibl o ran darlledu lluniau SHV dros bellteroedd hir.

Er i'r broses o ddarlledu SHV yn fyw gael ei phrofi yn 2008, roedd y cynnwys a ddefnyddiwyd ar gyfer yr arbrawf hwn yn fach, yn syml ac yn gymharol hawdd i'w ddosbarthu. Roedd angen i ni ganfod a oedd yn bosibl anfon lluniau SHV dros bellteroedd hir drwy roi'r system ar brawf o dan amodau darlledu gwirioneddol. Gan ddefnyddio gwrthrychau y byddai cynulleidfaoedd yn eu gweld fel arfer ar deledu confensiynol, ym mis Medi darlledwyd set gan The Charlatans gennym, yn ogystal â gornest Taekwondo arddangosol gan dîm cenedlaethol yr Alban, o Lundain i Tokyo dros y rhyngrwyd a'u darlledu gan ddefnyddio cyfres o rwydweithiau ymchwil rhyngwladol. Mae diddordeb gennym yn ei botensial o ran darparu lluniau o ansawdd uchel ar sgriniau arddangos

Cynyddu gwerth, parhad/…

1



1 Mae cenhedlaeth newydd y ddrama ffuglen wyddonol *Torchwood* yn gyd-gynhyrchiad rhwng STARZ, BBC Cymru Wales a BBC Worldwide. BBC Worldwide Productions sydd wedi cynhyrchu'r gyfres ddiweddaraf, *Torchwood: Miracle Day*, a ffilmiwyd yn Los Angeles a Chaerdydd, ac sy'n cynnwys lleoliadau o bob cwr o'r byd. Mae'r buddsoddiad gan STARZ a BBC Worldwide wedi darparu gwell gwerthoedd cynhyrchu i ddilynwyr, y BBC a chleientiaid gwerthiannau rhyngwladol.

2 Bu'r Broses Cynigion Agored yn ychwanegiad defnyddiol i fframwaith masnachu'r BBC a bydd yn parhau ar sail barhaus. Roedd y cytundeb unigol mwyaf a ddeilliodd ohoni eleni gyda FremantleMedia Enterprises ar gyfres newydd i blant *Strange Hill High* (llun).

3 Mae *Strictly Come Dancing* yn parhau yn boblogaidd ledled y byd fel y fformat teledu rhyngwladol *Dancing with the Stars*. Yn 2011 fe'i darlledwyd mewn tair tiriogaeth newydd: Fietnam, Armenia ac Indonesia.

cyhoeddus ar gyfer Gemau Olympaidd Llundain yn 2012 ac i ddod yn rhan o ddeunydd archif y BBC o'r Gemau.

I gael rhagor o wybodaeth am BBC R&D, ewch i www.bbc.co.uk/rd.

### System graffeg chwaraeon Piero

Trawsnewidiodd system graffeg chwaraeon Piero (Piero), a gyflwynwyd am y tro cyntaf ar *Match of the Day* ym mis Medi 2004, ein ffordd o ddarlledu chwaraeon. Mae'n gosod graffeg dros luniau teledu, gan gynnig ffordd arall i gyflwynwyr ac arbenigwyr weld a dadansoddi ac egluro digwyddiadau hollbwysig yn y gêm neu benderfyniadau'r dyfarnwr.

Crëwyd Piero yn wreiddiol gan BBC R&D, ac fe'i datblygwyd ers hynny gan Red Bee Media. Gwerthwyd cynnwys i 33 o gwmnïau mewn 25 o wledydd, yn cynnwys digwyddiadau chwaraeon byd-eang fel Pencampwriaeth y Chwe Gwlad RBS a Chwpan y Byd FIFA yn Ne Affrica, lle daeth dros 85% o'r holl effeithiau dadansoddi a ddefnyddiwyd yn y llif byd-eang o system Piero.

Dyfarnwyd 'Gwobr Menter y Frenhines: Arloesedd 2011' ar y cyd i BBC R&D a Red Bee Media am eu gwaith cydweithredol wrth ddatblygu Piero ym mis Ebrill 2011.

I gael rhagor o wybodaeth am Piero ewch i www.bbc.co.uk/rd/projects/virtual/piero/index.shtml neu www.redbeemedia.com/piero.

Mae llawer o'n cydweithrediadau yn mynd y tu hwnt i'r math o bartneriaethau ffurfiol a amlinellir yma, ac rydym yn rhannu ein hadnoddau a'n harbenigedd yn ehangach gydag amrywiaeth eang o sefydliadau. Er enghraifft, rydym yn dosbarthu rhywfaint o'n cynnwys newyddion fideo ar-lein fel

2



rhan o gytundeb gyda The Daily Telegraph, The Guardian, The Independent, Daily Mail a thros 30 o wefannau papurau newydd eraill. I gael gwybod mwy am ein strategaeth partneriaethau ac â phwy yr ydym yn cydweithredu ar hyn o bryd ewch i www.bbc.co.uk/aboutthebbc/future/partnerships. shtml.

### Cyflenwi'r BBC

Ein nod yw dewis ein holl gyflenwyr yn ofalus, er mwyn sicrhau eu bod yn meddu ar arbenigedd penodol ac y gallant gyflwyno gwerth am arian. Rydym wedi gweithio gyda llawer o'n cyflenwyr ers sawl blwyddyn, ac mae rhai yn hanfodol i barhad darlledu – megis Arqiva, Siemens a SES Astra sy'n darparu ac yn cynnal ein rhwydweithiau dosbarthu. Yn ogystal â hynny, bob blwyddyn mae cwmnïau ac unigolion eraill yn gweithio gyda ni am y tro cyntaf, gan gynnwys talent ar y sgrîn a thalent ar yr awyr, cwmnïau cynhyrchu annibynnol, a thrwy ddarparwyr gwasanaethau cymorth ar gontractau allanol.

Caiff ein holl drefniadau cyflenwi eu rheoli drwy dimau caffael arbenigol, er mwyn sicrhau ein bod yn cydymffurfio â'r rheoliadau perthnasol, ac yn defnyddio telerau masnach sy'n safonol i'r diwydiant. Gellir cael gwybodaeth am ein holl anghenion caffael – gan gynnwys tendrau newydd – yn www.bbc.co.uk/supplying.

### Cwmnïau masnachol y BBC

Ymhob peth a wnawn, ein gweledigaeth yw mai ni fydd y sefydliad mwyaf creadigol yn y byd ac y byddwn yn cyfoethogi bywydau pobl â chynnwys sy'n hysbysu, yn addysgu ac yn difyrru. Drwy ein gweithrediadau masnachol – o gytundebau trwyddedu gyda chwmnïau yn y DU a chwmnïau nad ydynt yn y DU i sicrhau bod technolegau digidol yn gweithio'n well i wneuthurwyr rhaglenni yn y stiwdio a darparu newyddion annibynnol, diduedd y gellir ymddiried ynddo yn uniongyrchol – rydym yn anelu at ddatblygu a gwella enw da'r DU yn fyd-eang ac yn genedlaethol fel crewr a darparwr y cynnwys gorau sydd ar gael.

### Defnyddio hawliau eiddo deallusol mewn ffordd deg

Mae Asiantaeth Fasnachol y BBC yn creu gwerth i dalwyr ffi'r drwydded drwy gynhyrchu'r elw masnachol gorau posibl ar raglenni ac eiddo deallusol y BBC.

3



**Worldwide**

**Prif werthiannau £m**

| | |
|---|---|
| 09/10 | 1,074 |
| 10/11 | 1,158 |

**Prif elw £m**

| | |
|---|---|
| 09/10 | 145 |
| 10/11 | 160 |

**Gwerthiannau dramor £m**

| | |
|---|---|
| 09/10 | 587 |
| 10/11 | 643 |

Yn hanesyddol, gwnaed pob buddsoddiad drwy gytundeb Opsiwn Cyntaf gan roi cyfnod negodi unigryw o 30 diwrnod i BBC Worldwide sicrhau hawliau masnachol am bris ar gyfradd y farchnad sy'n dderbyniol i'r BBC. Yn gyfnewid am hyn, mae BBC Worldwide yn talu Gwarant Gofynnol. Llwyddir i ddod i gytundeb mewn 70-80% o achosion, gyda'r hawliau sy'n weddill yn cael eu cyflwyno i'w gwerthu i'r farchnad ehangach.

Yn dilyn Arolwg Masnachol Ymddiriedolaeth y BBC, gwnaethom gyflwyno Proses Cynigion Agored i brofi ein prisiau a gwella tryloywder. Cynhaliwyd arwerthiant uniongyrchol gennym i'r farchnad agored o ddetholiad cynrychioliadol o hawliau (gan gynnwys BBC Worldwide ar delerau cyfwerth). Yn 2010/11, y flwyddyn weithredu gyntaf, cynigiwyd 24 o deitlau gan ddefnyddio'r trefniant hwn.

Cynhyrchwyd bron i £5miliwn gan chwe gwahanol ddosbarthwr, gan gynnwys BBC Worldwide, a fu'n llwyddiannus ar ychydig llai na 70% o'r cynigion a gwblhawyd. Mae'r prisiau cymaradwy a gyflawnir drwy geisiadau Cynigion Agored fwy neu lai'n unol â'r prisiau a gyflawnir yn y trefniadau masnachu arferol. Mae'r ddau ganlyniad yn ategu ein barn bod trefniadau negodi hyd braich rhwng Asiantaeth Fasnachol y BBC a BBC Worldwide yn arwain at brisiau masnachol dilys ar gyfradd y farchnad.

Drwy drwyddedu hawliau i amrywiaeth o bartneriaid masnachol eleni, llwyddodd Asiantaeth Fasnachol y BBC i godi cyfanswm o £111.4miliwn, y swm uchaf erioed, gan gynnwys £77.4miliwn o fuddsoddiadau uniongyrchol mewn rhaglenni.

## BBC Worldwide

Daw mwyafrif incwm masnachol y BBC oddi wrth BBC Worldwide a'i rwydwaith o swyddfeydd gwerthu a chynhyrchu ledled y byd. Mae BBC Worldwide yn buddsoddi mewn hawliau i greu cynnwys i'r cyfryngau, ac wedyn yn defnyddio'r cynnwys hwnnw'n rhyngwladol ar draws amrywiaeth eang o gynnyrch a gwasanaethau. Mae BBC Worldwide yn allforiwr blaenllaw yn ei sectorau ac yn darparu llwyfan byd-eang i dalent a chynnwys o Brydain sy'n helpu'r BBC i gyflawni ei bumed pwrpas cyhoeddus – Cyflwyno'r DU i'r byd a'r byd i'r DU.

Llwyddodd prif werthiannau BBC Worldwide, sef £1,157.7miliwn (2010: £1,074.2miliwn) a'i brif elw, sef £160.2miliwn (2010: £145.2miliwn) yn 2010/11 i ragori ar y perfformiad gorau blaenorol (i fyny 7.8% a 10.3% yn y drefn honno) ac fe'u cyflawnwyd er gwaethaf anawsterau economaidd parhaus o fewn rhai segmentau o'r farchnad. Gellir priodoli gwydnwch parhaus y cwmni yn ystod y dirwasgiad i sawl ffactor: amrywiaeth ei bortffolio cynnyrch a chryfder ei frandiau, dosbarthiad daearyddol ei farchnadoedd, a buddsoddiad blaenorol mewn meysydd busnes newydd sydd bellach yn dechrau dwyn ffrwyth.

Cynyddodd elw i'r BBC yn ystod y flwyddyn £14.4miliwn i £181.9miliwn (2010: £167.5miliwn). Mae'r ffigur hwn yn cynnwys buddsoddiadau uniongyrchol i gyllidebau rhaglennu (£78.5miliwn) a difidendau arian parod (£76.4miliwn). Cynyddodd y prif elw gweithredu ychydig i 13.8% (2010: 13.5%), wedi'i lywio'n bennaf gan lwyddiant parhaus busnesau elw uchel sefydledig (gwerthu rhaglenni a fformatau teledu, a chyhoeddi DVDs) a'r ffaith bod rhai busnesau newydd wedi dechrau gwneud elw.

Bu BBC Worldwide yn canolbwyntio'n benodol yn ystod y blynyddoedd diwethaf ar ddatblygu busnesau newydd er mwyn sicrhau twf yn yr oes ddigidol. Gwnaed cynnydd da yn hyn o beth, gyda BBC.com (fersiwn rhyngwladol www.bbc.co.uk) yn cynyddu ei sail hysbysebu, yn enwedig yn yr UD, ac yn datblygu'n gyflym ers ei lansio yn 2007 tuag at sefyllfa adennill costau. Lansiwyd fersiwn o'r safle wedi'i deilwra'n olygyddol ar gyfer ymwelwyr o'r UD ym mis Gorffennaf 2010 ac un i ddefnyddwyr busnes yn Asia ym mis Mawrth 2011. Mae'r cwmni hefyd wedi lansio gemau symudol ac Apps eraill mewn ymateb i'r ffaith bod ffonau smart a dyfeisiau llechen yn dod yn fwyfwy poblogaidd. Er enghraifft, lawrlwythwyd App BBC Listener 80,000 o weithiau – sy'n cyflwyno'r goreuon o blith cynnwys radio'r BBC i gynulleidfaoedd yng Ngogledd America – ers ei lansio ym mis Mai 2010.

Mae'r cwmni hefyd yn anelu at gynhyrchu mwy o'i werthiannau o'r tu allan i'r DU, a chynyddodd refeniw tramor 9.6% o gymharu â'r llynedd. Cyfran bresennol y refeniw a gynhyrchir y tu allan i'r DU yw 55.5%.

Cynyddu gwerth, parhad/…




O ystyried y perfformiad cryf parhaus yn y DU (mae refeniw wedi cynyddu 5.6%), mae'n bosibl y bydd yn cymryd ychydig yn hwy na'r disgwyl iddo gyrraedd ei darged o gynhyrchu dwy ran o dair o'i refeniw o dramor erbyn 2012.

Mae portffolio BBC Worldwide o 31 o sianelau teledu rhyngwladol â brand y BBC, a lansiwyd gyntaf yn 2007, wedi helpu i gyflwyno amrywiaeth ehangach o raglenni'r DU i gynulleidfaoedd mewn dros 100 o wledydd. Cafodd BBC America, ei sianel gebl yn yr UD, ei blwyddyn orau erioed gyda chynnydd o 36.8% yn ei chyfraddau cyfartalog yn ystod oriau brig ar gyfer y grŵp oedran 25-54 oed o gymharu â'r llynedd. Lansiwyd sianelau newydd yn India (BBC Entertainment), a Seland Newydd a'r Eidal (BBC Knowledge), ymhlith eraill.

Mae BBC Worldwide ar y trywydd cywir i gyrraedd ei darged ar gyfer 2012, sef cynhyrchu 10% o refeniw o fusnesau digidol (2010/11: 8.1%). Mae brandiau mawr fel *Top Gear, Doctor Who* a BBC Earth (brand mantell a ddefnyddir i farchnata catalog hanes naturiol y BBC) yn parhau i dyfu'n gyflym. Gwnaethant gynhyrchu gwerthiannau o £308.1miliwn, cynnydd o 12.6% o gymharu â'r llynedd. Mae BBC Worldwide yn gweithio'n gyson i ddod o hyd i ffyrdd newydd i bobl fwynhau eu hoff sioeau: ymhlith y datblygiadau newydd mae sioe arena glodwiw *Doctor Who* Live, gemau electronig yn gysylltiedig â *Top Gear* a thair ffilm hanes naturiol sy'n cael eu datblygu i'w rhyddhau yn y sinema, gan gynnwys un yn seiliedig ar *Walking with Dinosaurs* mewn 3D.

Cafodd busnes cynhyrchu rhyngwladol BBC Worldwide hefyd flwyddyn dda. Mae fersiwn yr UD o *Strictly Come Dancing*, a wnaed ar gyfer rhwydwaith ABC, yr un mor boblogaidd ag erioed – cyfres 12, a ddarlledwyd ym mis Ebrill a mis Mai 2011, oedd y gyfres fwyaf poblogaidd yn hanes y fasnachfraint. Ymhlith uchafbwyntiau eraill roedd fersiwn yr UD o *Top Gear* ar ran sianel HISTORY™, a fersiynau India a Ffrainc o *The Week the Women Went*. Mae'r tîm cynhyrchu yn Los Angeles wedi datblygu sail gadarn o fformatau yn ogystal â gwneud cyfres newydd o'r gyfres ddrama ffuglen wyddonol *Torchwood* ar ran BBC Cymru Wales a'r sianel STARZ yn yr UD.

Wrth i'r cwmni barhau i roi ei strategaeth ar waith, bydd ei flaenoriaethau fel a ganlyn: cynyddu refeniw digidol a rhyngwladol, ehangu ei sianelau teledu a'i fusnesau cynhyrchu, a datblygu mwy o fusnesau sy'n cysylltu'n uniongyrchol â defnyddwyr drwy ei brif frandiau a rhaglen o ymgysylltu â chwsmeriaid. Bydd hefyd yn gweithio'n galed i gynyddu ei fusnes yn enwedig yn yr UD, marchnad cyfryngau fwyaf y byd.

### BBC Studios and Post Production

Gweithiodd ein cangen cyfleusterau masnachol, BBC Studios and Post Production (BBC S&PP) gyda thros 250 o gwmnïau ym maes y cyfryngau a chleientiaid eraill yn ystod y cyfnod o 12 mis, gan wneud cannoedd o sioeau ar gyfer amrywiaeth o ddarlledwyr, gan gynnwys *10 O'Clock Live* Zeppotron i Channel 4, *Britain's Next Top Model* Thumbs Up Productions i Living TV ac *A League of Their Own* CPL Production i Sky 1.

Er gwaethaf amodau anodd yn y farchnad, perfformiodd y cwmni'n dda, gan ragori ar y gyllideb a gwneud elw gweithredu cyn ailstrwythuro o £6.1miliwn. Dyma'r elw gweithredu uchaf a gyflawnwyd ers ymgorffori'r cwmni a dim ond tair o'r 13 blynedd ddiwethaf a fu'n uwch mewn termau absoliwt (2002/03, 2004/05 a 2006/07 – lle roedd trosiant ddwywaith a hanner yn uwch). Arweiniodd costau ailstrwythuro at golled o £1.6miliwn cyn llog a threthiant (2010: £9.7miliwn).

Ymhlith uchafbwyntiau'r flwyddyn roedd:

- cefnogi dros 22 awr o ddarllediadau byw cymhleth o Etholiad Cyffredinol mis Mai o Stiwdio Un yn y Ganolfan Ddarlledu yn Llundain, gyda chwe thîm cynhyrchu BBC News a phedwar set ar wahanol lefelau, yn ogystal â chynnal a chyflwyno darllediadau Channel 4 ac RTE o'r etholiad a dau gynhyrchiad arall ar yr un noson
- lansio stiwdio deledu gyntaf y DU â gallu 3D (a 108050P HD) yn y Ganolfan Ddarlledu yn Llundain, a gwneud hysbyseb 3D stereosgopig o *Strictly Come Dancing* ar gyfer *BBC Children in Need*.

2




3




1 Fel rhan o benderfyniad i uwchraddio'r set – ac hyd yn oed gynnwys y broses yn y straeon ar y sgrîn – llosgodd y Queen Vic wrth i BBC S&PP ddechrau cyflwyno *EastEnders* mewn HD, rhan o gynnig mawr i adnewyddu technoleg a chyflwyno llifoedd gwaith di-dâp ac HD newydd.

2 Gan weithio ar draws y diwydiant, mae BBC S&PP yn helpu i gyflwyno rhai o'r rhaglenni mwyaf poblogaidd gan ddarlledwyr eraill, gan gynnwys *Deal or No Deal* ar Channel 4.

3 *BBC World News America*, sydd wedi ennill gwobrau Emmy, Peabody a duPont, yw darllediad newyddion cyntaf erioed y BBC i wylwyr yn America.

- ennill contract gwerth miliynau o bunnoedd i gynhyrchu sioe adloniant boblogaidd Channel 4 *Deal or No Deal*, a gynhyrchir gan Endemol UK
- cynhyrchu *EastEnders* heb ddefnyddio tapiau ac mewn HD
- ehangu gwasanaethau adfer ac archif digidol, a lansio'r cyfleuster Media Hub digidol newydd – gan atgyfnerthu a datblygu technolegau sy'n bodoli eisoes er mwyn cysylltu â chwsmeriaid, cyflenwyr a dosbarthwyr ledled y byd
- ailgreu'r gyfres gelfyddydol nodedig *Civilisation* ar gyfer BBC HD ac adfer cyfres antur gwlt ITV *The Persuaders* i'w rhyddhau ar ffurf BluRay ar gyfer Network DVD

Cwblhawyd y broses o ailstrwythuro BBC Studios and Post Production hefyd wrth iddo gau ei fusnes Chwaraeon a Phlant gan fod y gwaith hwn yn symud i Salford, a bydd y cwmni yn canolbwyntio ar ddatblygu'r tri busnes sy'n weddill ganddo:

- busnes Newydd ac Adloniant: darparu cyfleusterau stiwdio ac ôl-gynhyrchu o'r Ganolfan Ddarlledu yn Llundain a Paintworks ym Mryste
- Gwasanaethau Drama: cefnogi gweithrediad *EastEnders* y BBC a rhedeg cyfleuster Stiwdio D a adnewyddwyd yn ddiweddar ar gyfer sioeau â setiau parhaol, y ddau yn Elstree
- Gwasanaethau'r Cyfryngau Digidol: cadw, ail-greu a rheoli cynnwys, golygu deunydd hyrwyddo ar y teledu a chreu effeithiau o'r radd flaenaf

I gael rhagor o wybodaeth am BBC S&PP, ewch i: www.bbcstudiosandpostproduction.com.

## BBC World News

BBC World News yw ein sianel newyddion a gwybodaeth 24 awr ryngwladol a ariennir gan ffioedd tanysgrifio a hysbysebu. Mae ar gael ledled y byd ac mae'n denu 69 miliwn o wylwyr bob wythnos. Yn ogystal â bron i 300 miliwn o gartrefi a bron i 1.8 miliwn o ystafelloedd mewn gwestai, mae'r sianel hefyd ar gael ar rai llongau gwyliau, awyrennau, rhwydweithiau ffonau symudol a nifer o'r prif lwyfannau ar-lein gan gynnwys www.bbc.com/news.

Gan weithredu mewn marchnad hynod gystadleuol, nododd BBC World News elw net o £9.4miliwn ar gyfer y flwyddyn (2010: elw o £3.6miliwn). I gael rhagor o wybodaeth am y sianel ewch i www.bbcworldnews.com.

## Masnachu Teg gan y BBC

Mae gan y BBC fframwaith Masnachu Teg gweithredol manwl sy'n berthnasol i'n holl weithgareddau ac a amlinellir yn ein Canllawiau Masnachu Teg, sydd ar gael yn www.bbc.co.uk/info/policies/fairtrading.

Caiff y trefniadau hyn eu hadolygu bob blwyddyn gan archwilwyr annibynnol ac fe'u hachredwyd gan y safon ansawdd ISO9001:2008.

Mae Cytundeb y BBC yn ei gwneud yn ofynnol i'n holl wasanaethau masnachol fodloni'r meini prawf canlynol:

- cydweddu i'r pwrpasau cyhoeddus
- dangos effeithlonrwydd masnachol
- sicrhau nad ydynt yn peryglu enw da'r BBC na gwerth brand y BBC
- cydymffurfio â Chanllawiau Masnachu Teg y BBC, ac osgoi aflunio'r farchnad

Ar ôl cael adroddiadau gan uwch reolwyr perthnasol, mae Bwrdd Gweithredol y BBC yn fodlon bod yr holl wasanaethau masnachol wedi bodloni'r meini prawf ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill 2010 i 31 Mawrth 2011.

Mae'r BBC wedi cyhoeddi proses cwynion ac apeliadau Masnachu Teg, sydd ar gael yn www.bbc.co.uk/aboutthebbc/policies/fairtrading_complaints/fair_trading.shtml.

Ceir manylion y cwynion Masnachu Teg yr ymdriniwyd â hwy yn ystod y flwyddyn a'r rheini y cyflwynwyd apêl i Ymddiriedolaeth y BBC yn eu cylch yn ein Bwletin Masnachu Teg yn www.bbc.co.uk/info/policies/fairtrading_complaints ac ar dudalen apeliadau Ymddiriedolaeth y BBC www.bbc.co.uk/bbctrust/about/complaints_appeals/fair_trading/.

# Edrych ymlaen

**Ein targedau amgylcheddol – erbyn 31 Mawrth 2013**

| Maes | | Target 2012/13 | Perfformiad 2010/11 |
|---|---|---|---|
| | Lleihad yn yr ynni a ddefnyddir fesul person | -20% | -1% |
| | Lleihad yn y dŵr a ddefnyddir fesul person | -25% | -3% |
| | Lleihad yn y gwastraff a gludir i safleoedd tirlenwi fesul person | -25% | -78% |
| | % y gwastraff a ailgylchir | 75% | 55% |
| | Lleihad mewn allyriadau $CO_2$ sy'n deillio o drafnidiaeth | -20% | -2% |

2010/11 oedd trydedd flwyddyn rhaglen sylweddol a oedd yn canolbwyntio ar wella ein heffaith amgylcheddol. Yn ystod y cyfnod, rydym wedi llwyddo'n gyson i achub ar gyfleoedd i lunio datrysiadau eco-gyfeillgar ar draws amrywiaeth o faterion gwaith. Ym mis Chwefror, cawsom Safon yr Ymddiriedolaeth Garbon, a ddyfernir i sefydliadau y profwyd eu bod wedi cymryd camau ymarferol i reoli a lleihau allyriadau $CO_2$. Ceir nodiadau pellach ar y data amgylcheddol hwn yn ein hadroddiad cyfrifoldeb corfforaethol, sydd ar gael yn www.bbc.co.uk/outreach/reports/.

£111.4m

Cododd Asiantaeth Fasnachol y BBC y swm uchaf erioed o drwyddedu hawliau yn 2010/11, sef £111.4miliwn.

2,300

Nifer y swyddi sy'n symud i MediaCityUK.

£14.4m

Lleihad ym mil cyflogau uwch reolwyr o fis Awst 2009 hyd at ddiwedd mis Mawrth 2011.

## Sicrhau gwerth

Bydd ein buddsoddiadau a'n cynlluniau blaenorol bellach yn dechrau dwyn ffrwyth. Er enghraifft, bydd buddsoddiad uniongyrchol yn MediaCityUK yn Salford yn sicrhau amgylchedd cynhyrchu digidol cwbl ddi-dâp a fydd yn dychwelyd unrhyw fuddsoddiad byrdymor drwy gostau gweithredol is. Mae hyn yn rhoi'r cyfle i ni chwyldroi'r ffordd rydym yn gweithio a gwneud mwy gyda llai.

Ers dechrau'r Cynllun Cymorth Newid i Ddigidol, mae wedi gwario swm sylweddol is na'r swm a ddyrannwyd yn wreiddiol gan y llywodraeth. Yn ystod y tair blynedd ddiwethaf, mae nifer y bobl â theledu digidol wedi cynyddu'n sylweddol a bu nifer y bobl a ddefnyddiodd y Cynllun Cymorth yn is na'r amcangyfrif gwreiddiol. Yn ogystal, mae ymarfer caffael effeithiol iawn wedi lleihau'r gost a ragwelwyd ar gyfer y Cynllun £100miliwn, felly erbyn diwedd y Cynllun yn 2012, disgwyliwn y bydd tanwariant o tua £300miliwn.

## Ychwanegu gwerth

Byddwn yn parhau i ddatblygu ein partneriaethau â'r diwydiant; gan ehangu buddiannau hyfforddiant y BBC i gronfa ehangach o weithwyr llawrydd y mae'r diwydiant cyfan yn dibynnu arnynt. Ond, yn fewnol, byddwn yn canolbwyntio ein hymdrechion i raddau helaeth ar hwyluso'r broses o symud i MediaCityUK yn Salford a dychwelyd i'r Ganolfan Ddarlledu ar ei newydd wedd yn Llundain yn ystod 2011. Byddwn hefyd yn helpu'r BBC i weithredu'r newidiadau sy'n gysylltiedig â *Sicrhau Ansawdd yn Gyntaf*.

## Creu gwerth

O ran gweddill 2011, byddwn yn canolbwyntio'n benodol ar gyflawni cerrig milltir o bwys ar gyfer rhai o'r prosiectau partneriaeth sy'n bodoli eisoes, gan barhau i ddatblygu partneriaethau mewn tri maes allweddol (hyfforddiant, Gofod Cyhoeddus Digidol a phartneriaethau Dinas/Rhanbarthol), a chynllunio ar gyfer sut y bydd y BBC yn cyflawni'r ymrwymiadau partneriaeth newydd y cytunwyd arnynt fel rhan o setliad diweddar ffi'r drwydded.

## Cynaliadwyedd amgylcheddol

Eleni gwnaethom adolygu ein dull gweithredu mewn perthynas â'r amgylchedd a'n harferion cynaliadwyedd ac, o ganlyniad i hynny, rydym wedi datblygu strategaeth newydd i'n helpu i ddod yn sefydliad mwy cynaliadwy. Yn ogystal â'n hymdrechion parhaus i gyrraedd targedau presennol sydd wedi'u hanelu at leihau ein hôl-troed amgylcheddol, rydym wedi cyflwyno ffocws o'r newydd ar ein busnes craidd: gwneud rhaglenni.

Ein nod yw pennu'r safon o ran cynyrchiadau cynaliadwy, ac rydym wedi creu canllaw 'sut i' manwl i staff, ynghyd ag amrywiaeth o fentrau a digwyddiadau eraill i ennyn eu diddordeb mewn materion o'r fath. Rydym wedi datblygu cyfrifiannell carbon, 'Albert', a fydd yn ein galluogi i gasglu data a nodi'r meysydd lle y mae angen i ni wella. Byddwn yn rhannu'r hyn a ddysgir, ac Albert ei hun, gyda'r diwydiant darlledu ehangach. I gael rhagor o wybodaeth ewch i www.bbc.co.uk/outreach/environment.

# LLYWODRAETHU



Cyflwynodd Jeremy Bowen, Golygydd y Dwyrain Canol, ynghyd â Rob Magee a'r cynhyrchydd Cara Swift (nad yw yn y llun) adroddiadau ar ddatblygiadau yn Libya o ganolfan yn Nhripoli, gan weithio ar y radio, teledu ac ar-lein er mwyn dod â'r newyddion a'r dadansoddiad diweddaraf o'r digwyddiadau a'r bobl sydd yn y newyddion yno, ac o fewn y cyd-destun newid ehangach ledled y Dwyrain Canol a Gogledd Affrica.

# Bwrdd Gweithredol

## Mae'r Bwrdd Gweithredol, a gadeirir gan y Cyfarwyddwr Cyffredinol, a'i is-bwyllgorau, yn gyfrifol am ddarparu gwasanaethau'r BBC a gweithrediadau o ddydd i ddydd drwy'r sefydliad.



**Mark Thompson**
Cyfarwyddwr Cyffredinol ers mis Mehefin 2004. Cadeirydd y Bwrdd Gweithredol a Grŵp Cyfarwyddyd y BBC, sy'n cynnwys holl gyfarwyddwyr isadrannol y BBC.



**Caroline Thomson**
Prif Swyddog Gweithredu. Aelod o'r Bwrdd ers mis Mai 2000. Un o ymddiriedolwyr Cynllun Pensiwn y BBC. Un o gyfarwyddwyr anweithredol Digital UK.



**Zarin Patel**
Prif Swyddog Ariannol ers mis Ionawr 2005. Un o ymddiriedolwyr Cynllun Pensiwn y BBC ac un o gyfarwyddwyr anweithredol BBC Worldwide Limited.



**Helen Boaden**
Cyfarwyddwr Newyddion ers 2004. Aelod o'r Bwrdd ers mis Ebrill 2011 fel Cyfarwyddwr, BBC News Group.



**Tim Davie**
Cyfarwyddwr Sain a Cherddoriaeth ers mis Medi 2008. Aelod o'r Bwrdd ers mis Ebrill 2005.



**George Entwistle**
Cyfarwyddwr Dros Dro, Gwasanaethau Gweledol y BBC ers mis Ionawr 2011, cafodd ei gadarnhau yn ei swydd a'i benodi i'r Bwrdd Gweithredol llawn ym mis Ebrill 2011. Cyn hyn ef oedd Rheolwr Comisiynu Gwybodaeth ers mis Ionawr 2008.



**Ralph Rivera**
Ymunodd â'r BBC o Major League Gaming ym mis Hydref 2010 fel Cyfarwyddwr, Cyfryngau Digidol. Aelod o'r Bwrdd – fel Cyfarwyddwr, Cyfryngau y Dyfodol y BBC – ers mis Mawrth 2011.



**Marcus Agius**
Fe'i penodwyd gyntaf yn gyfarwyddwr anweithredol ac yn Uwch Gyfarwyddwr Annibynnol ym mis Rhagfyr 2006. Mae'n cadeirio Pwyllgor Cydnabyddiaeth Bwrdd Gweithredol y BBC. Cadeirydd Grŵp Barclays PLC, Cadeirydd Cymdeithas Bancwyr Prydain, Cadeirydd Ymddiriedolwyr Gerddi Botaneg Brenhinol Kew a Chadeirydd Sefydliad a Chyfeillion Gerddi Botaneg Brenhinol Kew.

Rhoddodd y cyfarwyddwyr gweithredol canlynol y gorau i fod yn aelodau o'r Bwrdd Gweithredol yn ystod 2010/11: Mark Byford (Dirprwy Gyfarwyddwr Cyffredinol), Lucy Adams (Cyfarwyddwr, BBC People), Sharon Baylay (Cyfarwyddwr, Marchnata, Cysylltiadau a Chynulleidfaoedd), Jana Bennett OBE (Cyfarwyddwr, Gwasanaethau Gweledol), Erik Huggers (Cyfarwyddwr, Cyfryngau a Thechnoleg y Dyfodol), a Peter Salmon (Cyfarwyddwr, BBC North). Daeth cyfnod y cyfarwyddwyr anweithredol David Robbie a Dr Samir Shah OBE yn eu swyddi i ben hefyd yn ystod y flwyddyn.


I gael rhagor o wybodaeth am aelodau Bwrdd Gweithredol y BBC, ewch i www.bbc.co.uk/aboutthebbc/running/executive.



**Simon Burke**
Fe'i penodwyd yn gyfarwyddwr anweithredol ym mis Ionawr 2011. Mae'n cadeirio Pwyllgor Archwilio Bwrdd Gweithredol y BBC. Cadeirydd Mitchells & Butlers, Cadeirydd Hobbycraft, a Chadeirydd Eagle Eye Solutions.



**Val Gooding**
Fe'i penodwyd gyntaf yn gyfarwyddwr anweithredol ym mis Ionawr 2008. Cadeirydd Premier Farnell plc. Hefyd cyfarwyddwr anweithredol J Sainsbury plc, Standard Chartered Bank plc, Cymdeithas Tennis Lawnt a'r Swyddfa Gartref. Un o ymddiriedolwyr yr Amgueddfa Brydeinig a'r Rose Theatre.



**Dr Mike Lynch OBE**
Fe'i penodwyd gyntaf yn gyfarwyddwr anweithredol ym mis Ionawr 2007. Fe'i hailbenodwyd am yr ail dro eleni. Entrepreneur ym maes technoleg a sylfaenydd a Phrif Swyddog Gweithredol Autonomy Corporation plc. Mae ei swyddi cyfarwyddwr eraill yn cynnwys Llyfrgell Prydain a Blinkx plc.



**Robert Webb CF**
Fe'i penodwyd gyntaf yn gyfarwyddwr anweithredol ym mis Ionawr 2007. Fe'i hailbenodwyd am yr ail dro eleni. Fe'i penodwyd yn CF yn 1988. Cadeirydd BBC Worldwide a Bwrdd BBC Commercial Holdings. Cadeirydd Autonomy Corporation plc a Sciemus Ltd. Cyfarwyddwr anweithredol Cyfnewidfa Stoc Llundain, Hakluyt & Co Ltd, Argent Group plc a Fforwm Bygythiadau Newydd i Iechyd. Cymrawd Anrhydeddus UNICEF.

## Mae'r Bwrdd Gweithredol yn dirprwyo rhai o'i gyfrifoldebau i bedwar is-bwyllgor:

### Pwyllgor Archwilio'r Bwrdd Gweithredol
**Cadeirydd: Simon Burke**

Sefydlwyd Pwyllgor Archwilio'r Bwrdd Gweithredol o dan erthygl 35(3) o'r Siarter. Mae'n goruchwylio llywodraethu corfforaethol y BBC, yn enwedig ei adroddiadau ariannol, ei reolaeth fewnol a'r ffordd y mae'n rheoli risg. Mae'r pwyllgor yn cynnwys tri chyfarwyddwr anweithredol. Mae'r Cyfarwyddwr Cyffredinol, y Prif Swyddog Ariannol, Pennaeth Sicrwydd Busnes a chynrychiolwyr archwilwyr allanol hefyd yn mynychu'r cyfarfodydd. Mae'r pwyllgor yn cyfarfod bedair gwaith y flwyddyn.

### Pwyllgor Cydnabyddiaeth y Bwrdd Gweithredol
**Cadeirydd: Marcus Agius**

Sefydlwyd Pwyllgor Cydnabyddiaeth y Bwrdd Gweithredol o dan erthygl 35(3) o'r Siarter ac yn unol â'r gofynion a nodwyd yn erthygl 33 o'r Siarter. Mae Pwyllgor Cydnabyddiaeth y Bwrdd Gweithredol yn penderfynu ar gydnabyddiaeth aelodau gweithredol y Bwrdd. Mae'n cynnwys o leiaf dri chyfarwyddwr anweithredol, a Chyfarwyddwr BBC People ac mae'r Cyfarwyddwr Gwobrwyo hefyd yn mynychu'r cyfarfodydd. Mae'n cyfarfod dair gwaith y flwyddyn, ac ar adegau eraill yn ôl yr angen.

### Pwyllgor Masnachu Teg
**Cadeirydd: Val Gooding**

Mae'r Pwyllgor Masnachu Teg yn helpu i sicrhau bod y BBC yn cydymffurfio â'i rwymedigaethau o ran masnachu teg. Mae'n cynnwys tri chyfarwyddwr anweithredol a dau gyfarwyddwr gweithredol. Mae'r Pennaeth Masnachu Teg a'r Cwnsler Cyffredinol hefyd yn bresennol. Mae'r pwyllgor yn cyfarfod bedair gwaith y flwyddyn.

### Pwyllgor Enwebiadau

Mae aelodaeth o'r Pwyllgor Enwebiadau yn dibynnu ar y penodiadau a wneir, p'un a ydynt yn anweithredol neu'n weithredol. Cyfarwyddwr anweithredol fydd yn cadeirio'r pwyllgor pan benodir cyfarwyddwyr anweithredol eraill a'r Cyfarwyddwr Cyffredinol fydd yn ei gadeirio pan benodir cyfarwyddwyr gweithredol. Ni chaniateir i Gadeirydd Pwyllgor Cydnabyddiaeth y Bwrdd Gweithredol gadeirio'r pwyllgor hwn. Sefydlwyd y Pwyllgor Enwebiadau o dan erthygl 35(4) o'r Siarter ac mae'n gweithredu yn unol â'r gofynion a nodir yn erthyglau 30 a 31 o'r Siarter. Mae'r pwyllgor hwn yn goruchwylio'r broses o gynnig, penodi a diswyddo aelodau o'r Bwrdd Gweithredol, ac eithrio Cadeirydd y Bwrdd (y Cyfarwyddwr Cyffredinol), a benodir gan Ymddiriedolaeth y BBC.

# Risgiau a chyfleoedd

Mae'r Bwrdd Gweithredol yn gyfrifol am nodi unrhyw risgiau ac am gymryd camau lliniaru. Y risgiau a'r cyfleoedd cysylltiedig a nodir isod yw'r rhai y credir iddynt gael yr effaith fwyaf sylweddol ar ein cynulleidfaoedd, ein strategaeth a'n gweithrediadau. Ni chânt eu mynegi o ran graddfa nac o ran trefn blaenoriaeth.

**Cynnwys a Chynulleidfaoedd:** Caiff heriau eu lliniaru gan ein strategaeth olygyddol a'n hymrwymiad i *Sicrhau Ansawdd yn Gyntaf.*
Ein cenhadaeth yw hysbysu, addysgu a difyrru cynulleidfaoedd a rheoli unrhyw fygythiadau i'r amcan hwn. Mae'n rhaid i ni barhau i achub ar gyfleoedd priodol a gwasanaethu pob cynulleidfa yn erbyn cefndir o newidiadau mawr yn sector y cyfryngau, a chanolbwyntio ar natur nodedig a gwerth am arian:

| Risg | Gweithredu | Rhagolwg ar gyfer y dyfodol |
|---|---|---|
| • Methiant i gyflawni **gofynion y Siarter** a strategaethau | • Strategaethau golygyddol a busnes effeithiol<br>• Monitro parhaus o gynulleidfaoedd a datblygiadau yn y diwydiant<br>• Arolwg mewnol o brosesau cynhyrchu cyfredol a blaenoriaethau cynulleidfaoedd | • Yr angen o hyd i roi sylw i ddigwyddiadau cymhleth, lledled y byd<br>• Ffocws parhaus ar ein Siarter, ein Cenhadaeth a'n Pwrpasau<br>• Dewisiadau strategol clir, tra'n cynnal ansawdd golygyddol |
| • Gallai methiant i arddel y gwerthoedd a'r safonau uchaf, a chadw cywirdeb a didueddrwydd ym mhob cynnwys, arwain at golli **ymddiriedaeth y gynulleidfa**, gan wneud niwed i'n brand | • Parhau i ddenu a chadw pobl sydd â'r cymysgedd cywir o sgiliau ac arbenigedd<br>• Rheolaethau golygyddol cadarn a phrosesau cydymffurfio effeithiol<br>• Hyfforddiant parhaus o dimau cynhyrchu<br>• Ystyriaeth ddifrifol o gwynion | • Bydd y safonau uchaf o gywirdeb golygyddol a natur ddiduedd yn parhau'n hollbwysig<br>• Ymdrinnir ag unrhyw ddiffygion golygyddol yn gyflym ac mewn ffordd gymesur<br>• Strategaeth i wrthsefyll gogwydd rhanbarthol canfyddedig |
| • Gallai methiant i ddatblygu ochr yn ochr â datblygiadau mewn **technoleg** gyfyngu ar fynediad at gynnwys | • Strategaethau technoleg sy'n adlewyrchu datblygiadau a'r egwyddor o wasanaeth am ddim wrth ei ddefnyddio<br>• Cydweithredu â diwydiant y cyfryngau ar ddatblygiadau technegol (ee lansio Radioplayer) | • Bydd datblygiadau mwyfwy cyflym yn gosod heriau ond hefyd yn cynnig cyfleoedd newydd yn y ffordd rydym yn ymgysylltu â'n cynulleidfaoedd<br>• Cydnabod yr angen i fod yn hyblyg er mwyn datblygu ochr yn ochr â disgwyliadau cynulleidfaoedd (ee defnyddio cyfryngau cymdeithasol)<br>• Adolygu opsiynau i ariannu'r gwaith o ddigideiddio'r archif, er mwyn iddo fod ar gael i dalwyr ffi'r drwydded |

**Gweithrediadau a Gwasanaethau:** Caiff heriau eu lliniaru gan ein strategaeth, ein polisïau a'n gweithdrefnau busnes
Mae cadernid ein gweithrediadau, a gweithrediadau ein cyflenwyr a'n partneriaid, yn hanfodol i ddarparu'r gwasanaethau y mae talwyr ffi'r drwydded yn eu disgwyl fel arfer a phan fo argyfwng. Bydd trawsnewid sefydliadol yn newid ein proffil risg cyffredinol. Mae arloesi yn hanfodol er mwyn rhagweld anghenion cynulleidfaoedd cyfoes:

| Risg | Gweithredu | Rhagolwg ar gyfer y dyfodol |
|---|---|---|
| • Gallai methiant technegol, rhyngddibyniaeth seilwaith, gweithredu diwydiannol neu weithredoedd trydydd partïon gan gynnwys cyflenwyr, arwain at **golli gwasanaethau darlledu** | • Caiff cynlluniau parhad darlledu manwl eu hadolygu a'u profi'n rheolaidd<br>• Strategaethau ymadael a chynlluniau wrth gefn ar gyfer cyflenwyr allweddol<br>• Gwaith buddsoddi mawr i adnewyddu'r rhwydwaith technoleg craidd | • Blaenoriaethu buddsoddiad mewn technoleg ar safleoedd newydd a'r angen cydnabyddedig am hyfforddiant newydd<br>• Bydd datblygiad technolegol yn parhau i gynnig cyfleoedd ochr yn ochr â risgiau<br>• Gwella cadernid drwy opsiynau llwyfan a gynigir gan ddatblygiadau technolegol ar y rhyngrwyd ac ym maes darlledu (ee YouView) |
| • Oni chaiff adnoddau eu dyrannu a'u rheoli'n ofalus, ni fyddwn yn llwyddo i gwblhau cwmpas eang **prosiectau** cyfredol, gan beryglu ein gallu i ddiwallu anghenion cynulleidfaoedd yn y dyfodol (ee y Gemau Olympaidd, Jiwbilî Diemwnt y Frenhines, Newid i Ddigidol) | • Gwersi a ddysgir oddi wrth arolygon allanol o brosiectau mawr<br>• Arolygon cyson o risgiau prosiectau unigol a phortffolio<br>• Gwella'r ffordd y creffir ar gyflawni cerrig milltir ac effeithiau rhyngbrosiect ar y portffolio prosiectau cyffredinol | • Adolygu'n barhaus linell amser prif weithgareddau sy'n effeithio ar feysydd busnes, er mwyn amlygu mannau lle ceir straen<br>• Adeiladu ar yr arbenigedd presennol ar ymdopi â newid, rheoli newid a'r gallu i gyflawni prosiectau<br>• Caiff gwaith cynllunio gallu ar gyfer prosiectau ei gefnogi gan offeryn monitro adnoddau staff, gyda chamau gweithredu wedi'u targedu ar gyfer sgiliau prin ac arbenigol |

**Ariannol a Masnachol:** Caiff heriau eu lliniaru gan ein strategaeth ariannol a'n polisi a'n canllawiau masnachol

Mae'r sefyllfa economaidd sy'n parhau yn y DU a ledled y byd yn effeithio arnom ni a'n holl randdeiliaid a gallai arwain at ostyngiad mewn incwm, er gwaethaf y ffaith bod llai o ansicrwydd oherwydd cytundeb ar lefel ffi'r drwydded hyd at 2016:

| Risg | Gweithredu | Rhagolwg ar gyfer y dyfodol |
|---|---|---|
| • Gallai dirywiad economaidd arwain at lai o **incwm o ffi'r drwydded** a llai o **hyblygrwydd ariannol**, a fyddai yn ei dro yn rhoi mwy o bwysau ar drefniadau benthyca; grym gwariant wedi'i leihau oherwydd **chwyddiant** | • Mesurau wrth gefn sy'n rhan o gynlluniau ariannol<br>• Effeithlonrwydd a geir drwy gydweithredu â phartneriaid a mentrau strategol sy'n parhau<br>• Mynd i'r afael â fforddiadwyedd pensiynau | • Erys y posibilrwydd o ddirwasgiad yn y DU ac efallai y bydd rhagamcanion o chwyddiant isel yn anghywir<br>• Erys cryn ansicrwydd o ran yr economi fyd-eang, gan effeithio ar werth asedau a buddsoddiadau |
| • Gallai ymestyn y tu hwnt i **ffiniau** priodol effeithio ar fuddiannau masnachol gweithredwyr eraill a hynny'n groes i fudd y cyhoedd | • Cydymffurfio â'r canllawiau presennol ar gystadleuaeth annheg<br>• Gwyliadwriaeth ynglŷn â ffiniau a lluosogrwydd | • Gall yr ansicrwydd yn sector y cyfryngau barhau<br>• Bydd datblygiadau mewn technoleg yn gosod heriau newydd<br>• Rôl dryloyw o ran gwasanaeth cyhoeddus |

**Cyfrifoldeb Corfforaethol:** Caiff heriau eu lliniaru gan gryfder ein prosesau busnes

Tra byddwn yn hyrwyddo ein strategaeth i gynnig safon, gwreiddioldeb a gwerth i'n cynulleidfaoedd – sy'n gofyn am risgiau creadigol a dulliau gweithredu arloesol – mae'n rhaid i ni gynnal arferion priodol:

| Risg | Gweithredu | Rhagolwg ar gyfer y dyfodol |
|---|---|---|
| • Gallai rheolaethau annigonol beryglu **iechyd a diogelwch** unigolion, yr **amgylchedd** naturiol a'n henw da | • Gweithdrefnau cadarn ar gyfer asesu risg i ddiogelwch wedi'u cymhwyso'n ddiwyd<br>• Effeithiau amgylcheddol yn cael eu hadolygu'n barhaus | • Sylw i risgiau newydd ac arfer gorau'r diwydiant yn fyd-eang<br>• Achub ar gyfleoedd i lunio atebion ecogyfeillgar |
| • Gallai methiant i gydymffurfio â **gofynion cyfreithiol a rheoliadol** arwain at gosbau | • Cydgysylltu ac ymgysylltu â chyrff rheoleiddio a grwpiau rhanddeiliaid<br>• Rheolaethau penodol wedi'u gwella (ee er mwyn cydymffurfio â'r Ddeddf Llwgrwobrwyo a'r Ddeddf Diogelu Data) | • Mae'r ffocws gwleidyddol ar drefn reoleiddio diwydiant y cyfryngau yn debygol o barhau ac mae'n bosibl y bydd cosbau yn mynd yn llymach<br>• Parhau i astudio a chynllunio ar gyfer effeithiau deddfwriaeth newydd |
| • Gallai methiant i gyflawni cyfrifoldebau **polisi cyhoeddus digidol** gyfyngu ar fwynhad gan bawb | • Newid i Ddigidol yn llwyddiannus iawn hyd yma<br>• Ffocws ar gyfrifoldebau newydd am ddarparu band eang<br>• Ymgysylltu â grwpiau agored i niwed<br>• Darlledu a'r rhyngrwyd; lansio Radioplayer | • Gall datblygiadau arloesol fynd i'r afael â rhai risgiau a'u lliniaru a chynnig cyfleoedd newydd<br>• Gall mentrau newydd y llywodraeth effeithio ar yr adnoddau sydd ar gael i ni |
| • Mae datblygiadau mewn technoleg a newidiadau mewn deddfwriaeth yn dod at ei gilydd i gynyddu bygythiadau posibl oherwydd **tor-diogelwch gwybodaeth** | • Mynd ati i ystyried bygythiadau, gyda mesurau lliniaru yn parhau gan gynnwys cyflwyno amgryptio<br>• Gweithdrefnau a hyfforddiant Diogelu Data yn cael eu hadolygu a'u hadfywio | • Bydd arferion a gweithdrefnau effeithiol yn parhau'n allweddol ac yn parhau i gael eu hadolygu'n rheolaidd<br>• Parhau i ddefnyddio'r dechnoleg orau sydd ar gael i ddiogelu data |

# Adroddiad llywodraethu

## Fframwaith llywodraethu corfforaethol y BBC

Diffinnir fframwaith llywodraethu corfforaethol y BBC yn y Siarter Frenhinol (y Siarter). Gallwch weld y Siarter ar wefan Ymddiriedolaeth y BBC yn www.bbc.co.uk/bbctrust/about/how_we_govern/charter_and_agreement/.

Mae'r Siarter hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i'r Bwrdd Gweithredol ystyried egwyddorion llywodraethu corfforaethol da a dderbynnir yn gyffredinol. Ac er nad yw'r BBC yn gwmni rhestredig, eto i gyd mae wedi dewis mabwysiadu arfer gorau a dilyn darpariaethau Rheolau Rhestru'r Awdurdod Gwasanaethau Ariannol a Chod Cyfunol 2008 y Cyngor Adrodd Ariannol ar Lywodraethu Corfforaethol (y Cod Cyfunol) er mwyn bod yn gyson â chwmnïau a restrir ar farchnad a reoleiddir gan yr UE.

Ym mis Mai 2010, cyhoeddodd y Cyngor Adrodd Ariannol God Llywodraethu Corfforaethol y DU (2010) sy'n weithredol ar gyfer blynyddoedd ariannol yn dechrau ar neu ar ôl 29 Mehefin 2010. Bydd y BBC yn cyflwyno adroddiad ar ei gydymffurfiaeth â'r argraffiad newydd hwn o'r Cod yn ei Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon ar gyfer 2011/12.

Mae'r Bwrdd Gweithredol wedi cydymffurfio â gofynion y Siarter sydd hefyd wedi sicrhau cryn gydymffurfiaeth â'r Cod Cyfunol. Fodd bynnag, mae ychydig o feysydd yn y Cod Cyfunol sydd naill ai'n amhriodol i amgylchiadau'r BBC neu lle mae cydymffurfiaeth â'r Siarter yn drech na chydymffurfiaeth â'r Cod Cyfunol. Mae achos o beidio â chydymffurfio'n llawn â darpariaeth arall o'r Cod Cyfunol wedi codi yn ystod y flwyddyn. O 1 Ionawr 2011 hyd at 25 Mai 2011, roedd Pwyllgor Archwilio'r Bwrdd Gweithredol ond yn cynnwys dau gyfarwyddwr anweithredol, sef Simon Burke a Dr Mike Lynch lle mae'r Cod Cyfunol yn ei gwneud yn ofynnol i bwyllgor archwilio gynnwys o leiaf dri chyfarwyddwr anweithredol. Cred y Bwrdd Gweithredol nad yw'r meysydd hyn yn peryglu ansawdd y trefniadau llywodraethu sydd ar waith na'r ffordd y mae'r Bwrdd Gweithredol yn ymgymryd â'i gyfrifoldebau.

## Cost cydymffurfio

Er mwyn sicrhau ein bod yn cydymffurfio â'r holl ddeddfwriaeth sy'n berthnasol i'r BBC yn 2010/11, aethom i gostau cydymffurfio amcangyfrifedig o £17.3miliwn (2010: £17.6miliwn), sy'n cynnwys tanysgrifiad blynyddol y BBC i Ofcom, sy'n £3.3miliwn.

| Meysydd o'r Cod Cyfunol nad ydynt yn berthnasol i'r BBC | Meysydd lle mae cydymffurfiaeth â'r Siarter yn drech na'r Cod Cyfunol |
|---|---|
| **Elfennau cydnabyddiaeth (egwyddor B.1 o'r Cod Cyfunol):** Mae'r BBC yn pennu lefelau cydnabyddiaeth swyddogion gweithredol a ddylai fod yn ddigonol i ddenu, cadw a chymell cyfarwyddwyr o'r safon angenrheidiol i redeg y sefydliad yn llwyddiannus, yn unol â'r egwyddor hon. Fodd bynnag, o dan yr egwyddor hon mae'n rhaid cysoni cydnabyddiaeth swyddogion gweithredol â'r syniad o wella gwerth i gyfranddalwyr drwy sicrhau bod elfennau o gydnabyddiaeth sy'n seiliedig ar berfformiad yn gyfran sylweddol o gyfanswm y gydnabyddiaeth. Gan fod y BBC yn cael ei ariannu gan ffi'r drwydded a bod iddo bwrpasau cyhoeddus, dylai swm y gydnabyddiaeth amrywiadwy (neu'r gydnabyddiaeth sy'n seiliedig ar berfformiad) y gellir ei ennill fod yn gyfyngedig. Mae tâl amrywiadwy ar ffurf taliadau bonws i gyfarwyddwyr gweithredol y BBC wedi cael ei atal am gyfnod amhenodol. | **Rhannu cyfrifoldebau rhwng y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr (egwyddor A.2 o'r Cod Cyfunol):** Fel y caniatâ'r Siarter, Cadeirydd y Bwrdd Gweithredol yw'r Cyfarwyddwr Cyffredinol, prif swyddog gweithredol y BBC. Nid yw hyn yn cydymffurfio â'r Cod Cyfunol sy'n ei gwneud yn ofynnol i gael rhaniad clir o ran cyfrifoldebau ar lefel uchaf y cwmni rhwng y gwaith o redeg y bwrdd a'r cyfrifoldeb gweithredol am gynnal busnes y cwmni. Ni ddylai fod gan un unigolyn bwerau dilyffethair i wneud penderfyniadau. Er bod y Cyfarwyddwr Cyffredinol yn gweithredu fel Cadeirydd a Phrif Weithredwr, mae'r trosolwg strategol gan Ymddiriedolaeth y BBC yn sicrhau nad oes gan un unigolyn bwerau dilyffethair. |
| **Rhyngweithio â chyfranddalwyr (egwyddorion D.1 a D.2 o'r Cod Cyfunol):** Nid yw'r BBC yn gwmni â chyfranddalwyr sy'n gwneud elw ac felly mae darpariaethau sy'n ymwneud â rhyngweithio â chyfranddalwyr yn amlwg yn amherthnasol. O dan rai amgylchiadau, fodd bynnag, mae'n bosibl ystyried, drwy gyfatebiaeth, y ffordd y mae Ymddiriedolaeth y BBC yn ymgysylltu â thalwyr ffi'r drwydded. Nodir hyn yn arolwg ac asesiad yr Ymddiriedolaeth yn Rhan Un o'r Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon. | **Cydbwysedd ac annibyniaeth y Bwrdd (egwyddor A.3 o'r Cod Cyfunol):** Mae'r Bwrdd Gweithredol yn cynnwys 12 o gyfarwyddwyr ar hyn o bryd mae saith yn gyfarwyddwyr gweithredol ac mae pump yn gyfarwyddwyr anweithredol fel na all unigolyn na grŵp bach o unigolion reoli'r gwaith o wneud penderfyniadau. Mae hyn yn cydymffurfio â'r Siarter sy'n nodi na all nifer y cyfarwyddwyr anweithredol fod yn llai na thraean ac na all fod yn hafal i hanner aelodau'r Bwrdd Gweithredol na mwy na hanner. Fodd bynnag, nid yw hyn yn cydymffurfio â'r Cod Cyfunol sy'n ei gwneud yn ofynnol i hanner y bwrdd o leiaf, heb gynnwys y cadeirydd, fod yn gyfarwyddwyr anweithredol annibynnol. Ystyrir pob cyfarwyddwr anweithredol yn annibynnol at ddibenion y Cod Cyfunol. |

## Bwrdd Gweithredol

Mae'r Bwrdd Gweithredol yn cyfarfod bob mis fel arfer (heblaw am fis Awst); mae cofnodion cryno o'r cyfarfodydd ar gael ar-lein yn www.bbc.co.uk/info/running/executive/minutes.shtml.

Yn ymarferol, mae'r Bwrdd Gweithredol yn dirprwyo peth o'i gyfrifoldeb i grwpiau rheoli eraill ac, yn unol â gofynion a darpariaethau'r Siarter, parhaodd y Pwyllgorau canlynol i weithredu y llynedd:

- Pwyllgor Archwilio
- Pwyllgor Masnachu Teg
- Pwyllgor Enwebiadau
- Pwyllgor Cydnabyddiaeth

Nodir unrhyw ddirprwyaeth o'r Bwrdd Gweithredol yn rheolau sefydlog perthnasol pob grŵp a phennir fframwaith ar gyfer adrodd ac adolygu. Gweler www.bbc.co.uk/aboutthebbc/running/executive/subcom.shtml.

Cynhaliwyd y gwerthusiad mwyaf diweddar o effeithiolrwydd y Bwrdd Gweithredol, ei Bwyllgorau a'i ymwneud â'r Ymddiriedolaeth yn ystod 2009. Fe'i cynhaliwyd gan ymgynghorwyr allanol ac roedd yn cynnwys cyfweliadau ag aelodau'r Bwrdd Gweithredol (aelodau gweithredol ac anweithredol), asesiad o'r protocolau llywodraethu, a'r cymorth gweinyddol i'r Bwrdd Gweithredol. Daeth yr adroddiad i'r casgliad, er ei bod yn anodd cymharu'n uniongyrchol â byrddau corfforaethol neu feincnodi yn eu herbyn oherwydd strwythur llywodraethu anarferol y BBC, yr aseswyd bod y Bwrdd yn gweithio'n dda yn unol â'r meini prawf pwysicaf.

## Adroddiad yr Uwch Gyfarwyddwr Annibynnol

Yn Adroddiad Blynyddol y llynedd ystyriais y ffordd yr oedd ymateb y BBC i'r dirywiad economaidd yn cael effaith ym mhob un o feysydd gweithgarwch y BBC. Eleni, parhau a wnaeth y pwysau ar y Gorfforaeth gydag Adolygiad y Llywodraeth o Wariant yn cael goblygiadau difrifol i'r BBC. Dros setliad chwe blynedd ffi'r drwydded bydd lefel incwm gymharol wastad, y bydd ei werth yn lleihau mewn termau real, ac o 2013 bydd yn rhaid i ffi'r drwydded hefyd ariannu BBC Monitoring, BBC World Service a'r rhan fwyaf o'r darlledwr Cymraeg, S4C.

Mae'r realiti ariannol newydd yn gofyn am ymateb radical gan y Bwrdd.

Yn ystod y flwyddyn, rydym wedi gwneud newidiadau mawr ar lefel y Bwrdd, gan leihau nifer yr aelodau o 16 i 12. Yn sgîl dod â swyddi i ben gadawodd Mark Byford a Sharon Baylay; ymgymerodd Erik Huggers â rôl yn y sector masnachol; a daeth cyfnodau'r cyfarwyddwyr anweithredol David Robbie a Samir Shah yn eu swyddi i ben ddiwedd mis Rhagfyr. Hefyd, ymddiswyddodd tri chyfarwyddwr gweithredol arall o'r Bwrdd, ond mae'n bleser gennyf nodi y byddant yn aros gyda'r BBC: Peter Salmon, Lucy Adams a Jana Bennett.

Diolch iddynt oll am eu cyngor hael a'u doethineb dros y blynyddoedd ac am eu hymrwymiad i'r BBC ar ran talwyr ffi'r drwydded. Dymunwn bob hwyl iddynt yn y dyfodol, yn enwedig Mark Byford sy'n gadael ar ôl 32 mlynedd gyda'r Gorfforaeth.


Yn sgîl y newidiadau hyn cafwyd aelodau newydd Ralph Rivera, Helen Boaden a George Entwistle, a'r cyfarwyddwr anweithredol Simon Burke a fydd yn cadeirio Pwyllgor Archwilio'r Bwrdd Gweithredol. Mae'r amrywiaeth o sgiliau, arbenigedd a phrofiad ar y Bwrdd yn parhau i fod yn gadarn, ac mae manteision Bwrdd llai o faint ac felly fwy ymatebol eisoes yn cael eu gweld.

Mae setliad ffi'r drwydded yn cynyddu'r pwysau i sicrhau effeithlonrwydd o bob rhan o'r busnes. Gan fod y BBC eisoes wedi bod yn gwneud arbedion effeithlonrwydd o flwyddyn i flwyddyn ers 2008, mae hyn yn anodd. Ond rydym yn gweld staff y BBC o bob rhan o'r Gorfforaeth yn cynnig ffyrdd o leihau gwariant mewn modd creadigol a sicrhau buddiant ychwanegol o ffi'r drwydded a chynnal safonau ar yr un pryd. Fel Bwrdd, ac yng ngwaith ein Pwyllgorau, byddwn yn sicrhau bod hyn yn parhau.

Credaf y bydd hyn yn esgor ar fanteision i'r BBC a'i gynulleidfaoedd yn y tymor hwy ond mae ochr negyddol ymgyrch effeithlonrwydd yn cynnwys costau dynol staff sy'n ymadael. Wrth i fwy o staff ddewis gadael am fod eu swyddi yn cael eu hadleoli i Salford rwyf fi – ynghyd â'r cyfarwyddwyr anweithredol eraill – yn canmol y ffordd y mae'r BBC yn ymddwyn wrth reoli'r cyfnod hwn o aflonyddwch.

Wrth gwrs, mae niferoedd mawr hefyd yn dewis derbyn her symud i Salford, gyda'r heriau creadigol a phersonol newydd sy'n codi. Drwy gydol yr holl newidiadau hyn mae'r BBC, nid yn unig wedi ennyn y lefelau gwerthfawrogiad mwyaf erioed ymhlith cynulleidfaoedd/talwyr ffi'r drwydded, ond mae hefyd wedi darparu amrywiaeth o raglenni nodedig na welwyd eu tebyg yn unman arall. Roedd *Sherlock* a *Human Planet* – ffuglen a ffeithiol ond yn adrodd stori yr un mor ddramatig – yn uchafbwyntiau personol i mi yn ystod y flwyddyn.

Ym mis Mai daeth yr Arglwydd Patten yn gadeirydd Ymddiriedolaeth y BBC. Edrychaf ymlaen at weithio gyda'r Cadeirydd newydd yn y misoedd a'r blynyddoedd sydd i ddod, gan gefnogi'r BBC wrth iddo ddarparu mwy o gynnwys gwreiddiol a gwych a werthfawrogir gan y cyhoedd ym Mhrydain sy'n talu amdano, cynnyrch a fydd yn cynrychioli creadigrwydd y DU ar ei orau.



**Marcus Agius**
Uwch Gyfarwyddwr Annibynnol
23 Mehefin 2011

### Sefydlu, perfformiad a datblygiad

Pan fyddant yn ymuno â'r BBC, bydd pob cyfarwyddwr newydd yn cael rhaglen sefydlu ac ystod eang o wybodaeth am y BBC. Bydd cynnwys y rhaglen sefydlu yn amrywio yn dibynnu ar b'un a yw'r penodiad yn un gweithredol neu anweithredol ac a oedd y cyfarwyddwr newydd yn ymgeisydd allanol ai peidio. Mae'r wybodaeth bob amser yn cynnwys manylion am weithdrefnau'r Bwrdd a chyfrifoldebau cyfarwyddwyr.

Gall pob cyfarwyddwr gael cyngor annibynnol allanol os bydd yn dymuno hynny.

Mae'r Cyfarwyddwr Cyffredinol hefyd yn cynnal cyfarfod ar wahân gyda'r cyfarwyddwyr anweithredol bob blwyddyn.

Yn unol â'r Siarter, mae Ymddiriedolaeth y BBC yn cynnal asesiad parhaus o wasanaethau'r BBC, gan gynnwys rhai arolygon llawn o wasanaethau bob blwyddyn (ynghyd ag ymgynghoriad â'r cyhoedd). Mae'r Ymddiriedolaeth hefyd yn adolygu perfformiad pob un o wasanaethau'r BBC gyda'r rheolwyr gwasanaeth a'r cyfarwyddwyr allbwn bob blwyddyn. Mae arolwg ac asesiad Ymddiriedolaeth y BBC ar gyfer 2010/11 i'w gweld yn Rhan Un.

Mae prosesau adolygu perfformiad Pwyllgorau'r Bwrdd Gweithredol yn parhau i ddatblygu ac mae pob un yn adolygu ei berfformiad a'i effeithiolrwydd ei hun. Ni nodwyd unrhyw faterion o bwys yn 2010/11.

Mae gan bob cyfarwyddwr gweithredol ei amcanion personol ac adrannol ei hun, a chaiff ei berfformiad yn eu herbyn ei adolygu gan y Cyfarwyddwr Cyffredinol bob blwyddyn, a chan y Pwyllgor Cydnabyddiaeth.

### Pwyllgor Enwebiadau

Mae'r Pwyllgor Enwebiadau yn goruchwylio'r broses o gynnig, penodi ac – os bydd angen – diswyddo aelodau o'r Bwrdd. Yr unig eithriad yw'r Cyfarwyddwr Cyffredinol, a benodir gan Ymddiriedolaeth y BBC. Mae aelodaeth o'r Pwyllgor Enwebiadau yn ddibynnol ar ba un a yw'n delio â phenodiadau gweithredol neu anweithredol.

#### Penodiadau i'r Bwrdd

Bu'r Pwyllgor Enwebiadau yn goruchwylio nifer o benodiadau yn ystod y flwyddyn. Gwnaed dau benodiad gweithredol: Ralph Rivera, Cyfarwyddwr, Cyfryngau'r Dyfodol (yn weithredol o 1 Mawrth 2011) a Helen Boaden, Cyfarwyddwr, BBC News Group (yn weithredol ar ôl diwedd y flwyddyn, o 1 Ebrill 2011).

Daeth cyfnod y cyfarwyddwyr anweithredol David Robbie a Samir Shah OBE yn eu swyddi i ben ar 31 Rhagfyr 2010. Roedd disgwyl i ddau gyfarwyddwr anweithredol arall, Dr Mike Lynch OBE a Robert Webb CF, roi'r gorau i'w swydd ar 31 Rhagfyr 2010: argymhellodd y Pwyllgor Enwebiadau i'r Bwrdd ac i Ymddiriedolaeth y BBC y dylent gael eu hailbenodi am gyfnod arall. Argymhellwyd penodi un cyfarwyddwr anweithredol newydd i'r Bwrdd a'r Ymddiriedolaeth: penodwyd Simon Burke am gyfnod o ddwy flynedd yn weithredol o 1 Ionawr 2011.

#### Cyfarwyddwyr a adawodd

Yn sgîl newidiadau a weithredwyd eleni i'r Bwrdd Gweithredol gadawodd nifer o gyfarwyddwyr gweithredol ac anweithredol.

Ar ôl i rôl Cyfarwyddwr Marchnata, Cysylltiadau a Chynulleidfaoedd ddod i ben, ymddiswyddodd Sharon Baylay o'r Bwrdd Gweithredol ym mis Tachwedd. Mae ar gyfnod mamolaeth ar hyn o bryd.

Ym mis Chwefror, ar ôl bod yn aelod o'r Bwrdd Gweithredol am fwy na dwy flynedd a bron bedair blynedd gyda'r BBC, gadawodd Cyfarwyddwr Cyfryngau a Thechnoleg y Dyfodol, Erik Huggers, y BBC i ymuno â'r sector masnachol.

Rhoddodd Mark Byford y gorau i'w swydd fel Dirprwy Gyfarwyddwr Cyffredinol y BBC a Phennaeth Newyddiaduraeth y BBC, ar ôl 32 mlynedd o wasanaeth a 13 mlynedd fel aelod o Fwrdd Gweithredol y BBC, gan adael y BBC ym mis Mehefin.

Daeth cyfnod y cyfarwyddwyr anweithredol David Robbie a Dr Samir Shah yn eu swyddi i ben ddiwedd mis Rhagfyr.

Rydym yn ddiolchgar am gyfraniad pob un, yn unigol ac ar y cyd, i'r BBC ac ar ran talwyr ffi'r drwydded, ac rydym yn dymuno'n dda iddynt yn y dyfodol.

Hefyd, rhoddodd tri chyfarwyddwr gweithredol arall y gorau i fod yn aelodau o'r Bwrdd, ond maent yn aros gyda'r BBC: mae Peter Salmon (Cyfarwyddwr, BBC North) yn rhedeg ein canolfan newydd yn MediaCityUK, Salford; ymgymerodd Lucy Adams â rôl newydd gyda meysydd ychwanegol o gyfrifoldeb fel Cyfarwyddwr, Gweithrediadau Busnes; a symudodd Jana Bennett o fod yn Gyfarwyddwr, Gwasanaethau Gweledol y BBC i'n his-gwmni masnachol, BBC Worldwide.

## Presenoldeb yng nghyfarfodydd y Bwrdd Gweithredol a Phwyllgorau

| | Bwrdd Gweithredol | | Pwyllgor Archwilio | | Pwyllgor Masnachu Teg | Pwyllgor Enwebiadau | | Pwyllgor Cydnabyddiaeth | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Cyffredin | Eithriadol | Aelod | Yn bresennol | | Aelod | Yn bresennol | Aelod | Yn bresennol |
| Nifer y cyfarfodydd ar gyfer y cyfnod | **11** | **12** | **4** | | **3** | **3** | | **9** | |
| **Cyfarwyddwr, BBC People** Lucy Adams | 10 | 10 | | | | | 2 | | 9 |
| **Cyfarwyddwr, Marchnata, Cysylltiadau a Chynulleidfaoedd** Sharon Baylay | 7/7 | 6/10 | | | | | | | |
| **Cyfarwyddwr, Gwasanaethau Gweledol** Jana Bennett | 8/9 | 5/10 | | | | | | | |
| **Dirprwy Gyfarwyddwr Cyffredinol** Mark Byford | 10 | 10 | | | | 2/2 | | | |
| **Cyfarwyddwr, Sain a Cherddoriaeth** Tim Davie | 10 | 10 | | | | | | | |
| **Cyfarwyddwr, Gwasanaethau Gweledol** George Entwistle | 3/3 | 2/2 | | | | | | | |
| **Cyfarwyddwr, Cyfryngau a Thechnoleg y Dyfodol** Erik Huggers | 9/10 | 9/11 | | | | | | | |
| **Prif Swyddog Ariannol** Zarin Patel | 11 | 12 | | 4 | 3 | | | | |
| **Cyfarwyddwr, Cyfryngau'r Dyfodol** Ralph Rivera | 1/1 | 2/2 | | | | | | | |
| **Cyfarwyddwr, BBC North** Peter Salmon | 10 | 11 | | | | | | | |
| **Cyfarwyddwr Cyffredinol** Mark Thompson | 11 | 11 | | 3 | | 3 | | | 9 |
| **Prif Swyddog Gweithredu** Caroline Thomson | 11 | 11 | | | 3 | | | | |
| **Cyfarwyddwyr anweithredol:** | | | | | | | | | |
| Marcus Agius | 10 | 10 | | | 3 | 3 | | 8 | |
| Simon Burke | 3/3 | 2/2 | 1/1 | | | | | | |
| Val Gooding | 9 | 10 | | | 2 | | | 7 | |
| Dr Mike Lynch | 8 | 9 | 4 | | | 3 | | | |
| David Robbie | 8/8 | 6/10 | 3/3 | | | | | | |
| Dr Samir Shah | 8/8 | 8/10 | 2/3 | | 3 | | | | |
| Robert Webb | 10 | 8 | | | | | | 8 | |

### Adroddiad Cadeirydd Pwyllgor Cydnabyddiaeth y Bwrdd Gweithredol

Er ei fod yn cydnabod pwysigrwydd denu a chadw pobl o'r radd flaenaf i gyflawni pwrpasau'r BBC er budd talwyr ffi'r drwydded, eleni mae Pwyllgor Cydnabyddiaeth y Bwrdd Gweithredol wedi canolbwyntio ar weithredu argymhellion Arolwg 2009 o Gydnabyddiaeth Bwrdd Gweithredol y BBC:

- rhewi cyflog swyddogion gweithredol am bedair blynedd ac atal taliadau bonws iddynt am gyfnod amhenodol
- rhewi cyflog uwch reolwyr ac atal taliadau bonws iddynt am ddwy flynedd
- lleihau nifer yr uwch reolwyr 20% dros gyfnod o ddwy flynedd (a'r bil cyflog a delir o 25%)
- sicrhau bod cydnabyddiaeth swyddogion gweithredol yn sylweddol is na swyddi cyfatebol yn y farchnad drwy gynnig cyflogau wedi'u disgowntio rhwng 50-80% o gymharu â rolau tebyg yn y sector masnachol

Ar gais Ymddiriedolaeth y BBC mae'r dyddiad targed ar gyfer cyflawni'r mesurau hyn wedi cael ei symud o fis Awst 2013 i fis Rhagfyr 2011.

Rydym yn gwneud cynnydd cyson tuag at ein mesurau targed. Erbyn 31 Mawrth 2011, roedd nifer yr uwch reolwyr wedi lleihau o 86 (13.4%) ac mae'r bil cyflog cysylltiedig wedi gostwng £14.4miliwn (18.3%). Mae cynlluniau ar waith i gyflawni'r targed yn gyfan gwbl erbyn y terfyn amser newydd.

Mae galw o hyd am ein pobl fwyaf talentog o fewn y sector a thu hwnt, a dangoswyd hynny gan y ffaith bod rhai o'n huwch swyddogion gweithredol mwyaf talentog wedi gadael y BBC yn ddiweddar ac wedi cael swyddi tebyg am becynnau sylweddol uwch.

Er gwaetha'r pwysau, rydym wedi parhau i ganolbwyntio ar ddod o hyd i gyfleoedd i leihau ein bil cyflog ar gyfer uwch reolwyr drwy recriwtio uwch reolwyr sy'n cael llai o gyflog na'r deiliad swydd blaenorol. Caiff uwch reolwyr sy'n ymuno â'r BBC a staff sy'n cael eu dyrchafu i uwch swyddi yn ystod y flwyddyn eu talu 8.7% yn llai na'r deiliad swydd blaenorol ar gyfartaledd. O'r 15 o swyddi ar y lefel uchaf sydd wedi cael eu disodli, rydym wedi sicrhau gostyngiad cyflog o 19% ar gyfartaledd.


Yn benodol mae'r Pwyllgor wedi bod yn ystyriol o'r angen i sicrhau bod cyflogau'r Bwrdd Gweithredol yn gwneud cyfraniad sylweddol a chymesur i'r gostyngiadau. I'r perwyl hwn rydym:

- wedi lleihau maint y Bwrdd
- wedi gostwng cyflogau aelodau newydd o'r Bwrdd
- gyda chytundeb unigolion, wedi dileu taliadau pensiwn atodol yn weithredol o fis Ebrill 2011

O ganlyniad, byddwn wedi lleihau bil cyflog y cyfarwyddwyr gweithredol £2.1miliwn (43%) ar gyfer 2011/12. Hefyd, cytunodd aelodau'r Bwrdd (gan gynnwys cyfarwyddwyr anweithredol) i fynd heb gyflog mis, gan leihau enillion swyddogion gweithredol y llynedd £289,000 arall.

Cynhaliodd y Pwyllgor ei ymarfer sicrwydd rheolaidd i feincnodi cyflog swyddogion gweithredol y BBC yn erbyn y farchnad, a datgelodd hyn fod cyflog y Bwrdd Gweithredol wedi'i ddisgowntio 58% ar gyfartaledd o gymharu â'r sector masnachol.

Bydd y dasg o gyflawni targedau ymestynnol o fewn cyfnod byr ynghyd â'r angen i gystadlu benben â chystadleuwyr hynod fasnachol i ddenu a chadw'r dalent orau bosibl yn parhau'n her i'r BBC. Ond rydym yn cydnabod bod twf cyflogau ledled y DU yn is na chyfradd chwyddiant ac mae llawer o dalwyr ffi'r drwydded yn gweld gostyngiad yn eu hincwm personol. Felly mae'n hanfodol bod y BBC yn parhau i reoli cyflogau ar bob lefel.



**Marcus Agius**
Cadeirydd Pwyllgor Cydnabyddiaeth y Bwrdd Gweithredol
23 Mehefin 2011

## Adroddiad cydnabyddiaeth y Bwrdd Gweithredol

Mae'r adroddiad hwn yn nodi polisi cydnabyddiaeth y BBC ac yn rhoi manylion am y gydnabyddiaeth a dderbyniwyd gan aelodau'r Bwrdd Gweithredol. Fe'i paratowyd ar y sail bod gofynion Rheoliadau Cwmnïau a Grwpiau Mawr a Chanolig (Cyfrifon ac Adroddiadau) 2008 a rhai'r Awdurdod Gwasanaethau Ariannol yn gymwys i'r BBC lle bynnag y bo'r darpariaethau datgelu hyn yn berthnasol. Caiff yr adrannau ar bensiynau a chydnabyddiaeth a dderbyniwyd gan aelodau'r Bwrdd Gweithredol eu harchwilio gan KPMG LLP.

### Pwyllgorau Cydnabyddiaeth: cyfansoddiad a gweithrediad

Mae Pwyllgor Cydnabyddiaeth a Phenodiadau Ymddiriedolaeth y BBC yn gyfrifol am bennu'r strategaeth gydnabyddiaeth ar gyfer y Bwrdd Gweithredol ac mae'n gyfrifol am bob agwedd ar gydnabyddiaeth y Cyfarwyddwr Cyffredinol a'r cyfarwyddwyr anweithredol.

Mae Pwyllgor Cydnabyddiaeth y Bwrdd Gweithredol yn gyfrifol am weithredu'r strategaeth y cytunwyd arni ar gyfer pob un o aelodau gweithredol y Bwrdd Gweithredol, ac eithrio'r Cyfarwyddwr Cyffredinol. Mae ei aelodau yn gyfarwyddwyr anweithredol: Marcus Agius (Cadeirydd), Robert Webb CF a Val Gooding CBE.

Mynychir cyfarfodydd y Pwyllgor hefyd, drwy wahoddiad, gan y Cyfarwyddwr Cyffredinol a'r Cyfarwyddwr, Gweithrediadau Busnes, sy'n rhoi cyngor ar faterion yn ymwneud ag aelodau eraill o'r Bwrdd Gweithredol a pherfformiad cyffredinol y BBC. Pan ystyrir materion ynghylch cydnabyddiaeth y Cyfarwyddwr Cyffredinol a'r Cyfarwyddwr, Gweithrediadau Busnes, ni fyddant yn bresennol. Gall y Pwyllgor fanteisio ar arbenigedd mewnol drwy Gyfarwyddwr Gwobrwyo'r BBC, sydd hefyd yn bresennol yn y cyfarfodydd.

Gan gydymffurfio â'r Cod Cyfunol, mae'r Pwyllgor yn cael cyngor arbenigol gan gynghorwyr proffesiynol allanol ar rai materion, yn arbennig y rhai sy'n ymwneud ag arfer y farchnad. Yn ystod y flwyddyn, cafwyd cyngor annibynnol gan PricewaterhouseCoopers.

### Cydnabyddiaeth y cyfarwyddwyr anweithredol

Pennir ffioedd y cyfarwyddwyr anweithredol gan yr Ymddiriedolaeth.

### Cydnabyddiaeth y cyfarwyddwyr gweithredol

Bwriad y strategaeth, a luniwyd gan yr Ymddiriedolaeth, yw rhoi cydnabyddiaeth sy'n denu, yn cymell ac yn cadw'r dalent orau i arwain y BBC, tra'n cydnabod disgwyliadau talwyr ffi'r drwydded. Ariennir y BBC gan ffi'r drwydded ac mae'n rhaid iddo sicrhau gwerth i dalwyr ffi'r drwydded.

## Cydnabyddiaeth a roddwyd

Dangosir cydnabyddiaeth aelodau'r Bwrdd Gweithredol a'r Ymddiriedolwyr yn ystod y flwyddyn isod:

| | | Ffi/cyflog sylfaenol[7] £000 | Buddiannau trethadwy £000 | Cydnabyddiaeth arall[8] £000 | **Isgyfanswm 2010/11** | Iawndal am golli swydd £000 | **Cyfanswm cydnabyddiaeth 2010/11 £000** | Cyfanswm cydnabyddiaeth[9] 2009/10 £000 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfarwyddwyr gweithredol a oedd yn gwasanaethu ar 31 Mawrth 2011** | | | | | | | | |
| Tim Davie | | 335 | 15 | 72 | **422** | – | **422** | 452 |
| Zarin Patel | | 322 | 13 | 68 | **403** | – | **403** | 434 |
| Ralph Rivera | Fe'i penodwyd i Fwrdd y BBC 1 Mawrth 2011 | 25 | 1 | – | **26** | – | **26** | – |
| Mark Thompson | | 613 | 3 | 163 | **779** | – | **779** | 838 |
| Caroline Thomson | | 307 | 15 | 63 | **385** | – | **385** | 419 |
| **Cyfanswm cyfarwyddwyr gweithredol** | | **1,602** | **47** | **366** | **2,015** | **–** | **2,015** | **2,143** |
| **Cyfarwyddwyr anweithredol a oedd yn gwasanaethu ar 31 Mawrth 2011[6]** | | | | | | | | |
| Marcus Agius | | 47 | – | – | **47** | – | **47** | 51 |
| Simon Burke | Ymunodd 1 Ionawr 2011 | 10 | – | – | **10** | – | **10** | – |
| Val Gooding | | 37 | – | – | **37** | – | **37** | 37 |
| Mike Lynch | | 33 | – | – | **33** | – | **33** | 36 |
| Robert Webb[1] | | 123 | – | – | **123** | – | **123** | 83 |
| **Cyfanswm cyfarwyddwyr anweithredol** | | **250** | – | – | **250** | – | **250** | **207** |
| **Cyfarwyddwyr gweithredol a adawodd yn ystod 2010/11** | | | | | | | | |
| Lucy Adams | Ymddiswyddodd 31 Mawrth 2011 | 293 | 15 | 59 | **367** | – | **367** | 328 |
| Sharon Baylay[2] | Ymddiswyddodd 30 Tachwedd 2010 | 207 | 10 | 37 | **254** | 392 | **646** | 345 |
| Jana Bennett[3] | Gadawodd 6 Chwefror 2011 | 353 | 13 | 74 | **440** | – | **440** | 517 |
| Mark Byford[4] | Ymddiswyddodd 31 Mawrth 2011 | 435 | 12 | – | **447** | 949 | **1,396** | 488 |
| Erik Huggers[5] | Gadawodd 25 Chwefror 2011 | 345 | 13 | 56 | **414** | – | **414** | 407 |
| Peter Salmon | Ymddiswyddodd 31 Mawrth 2011 | 344 | 17 | 75 | **436** | – | **436** | 193 |
| **Cyfarwyddwyr gweithredol a adawodd yn ystod 2009/10** | | | | | | | | |
| John Smith | Ymddiswyddodd 30 Medi 2009 | – | – | – | **–** | – | **–** | 348 |
| **Cyfanswm cyn-gyfarwyddwyr gweithredol** | | **1,977** | **80** | **301** | **2,358** | **1,341** | **3,699** | **2,626** |
| **Cyfarwyddwyr anweithredol a adawodd yn ystod 2010/11[6]** | | | | | | | | |
| David Robbie | Gadawodd 31 Rhagfyr 2010 | 31 | – | – | **31** | – | **31** | 41 |
| Samir Shah | Gadawodd 31 Rhagfyr 2010 | 27 | – | – | **27** | – | **27** | 36 |
| **Cyfanswm cyn-gyfarwyddwyr anweithredol** | | **58** | **–** | **–** | **58** | **–** | **58** | **77** |
| **Cyfanswm y Bwrdd Gweithredol** | | **3,887** | **127** | **667** | **4,681** | **1,341** | **6,022** | **5,053** |
| **Cyfanswm yr Ymddiriedolwyr** | | | | | **588** | **–** | **588** | **662** |
| **Cyfanswm** | | | | | **5,269** | **1,341** | **6,610** | **5,715** |

Nodyn 1 Ym mis Hydref 2009, penodwyd Robert Webb yn Gadeirydd anweithredol BBC Commercial Holdings Limited a BBC Worldwide Limited. Er mwyn cydnabod y cyfrifoldebau ychwanegol hyn cafodd ffioedd o £90,000 yn ystod y flwyddyn ariannol 2010/11.

Nodyn 2 Ymddiswyddodd Sharon Baylay o'r Bwrdd ar 30 Tachwedd 2010 ac mae ar Gyfnod Mamolaeth ar hyn o bryd. Cyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2010 y byddai'n gadael y BBC ym mis Mehefin 2011. Pan fydd yn gadael y BBC bydd yn cael telerau diswyddo safonol y BBC a thelir swm o £392,000 i'w digolledu am golli ei swydd.

Nodyn 3 Gadawodd Jana Bennett ei swydd ar 6 Chwefror 2011, gan ymgymryd â swydd yn BBC Worldwide.

Nodyn 4 Cyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2010 y byddai Mark Byford yn ymddiswyddo o'r Bwrdd Gweithredol ar 31 Mawrth 2011 ac yn gadael y BBC ym mis Mehefin 2011. Pan fydd yn gadael y BBC bydd yn cael telerau diswyddo safonol y BBC a thelir swm o £949,000 i'w ddigolledu am golli ei swydd.

Nodyn 5 Gadawodd Erik Huggers y BBC ar 25 Chwefror 2011 ac mae ei gyflog sylfaenol yn cynnwys taliad o £46,000 am wyliau di-dâl.

Nodyn 6 Penodir cyfarwyddwyr anweithredol am gyfnod o ddwy flynedd i ddechrau, ac eithrio'r Uwch Gyfarwyddwr Annibynnol, a benodir am gyfnod o dair blynedd i ddechrau.

Nodyn 7 Cyflwynodd y BBC drefniant aberthu cyflog ar 1 Mehefin 2008 ar gyfer aelodau a ymunodd â'r Cynllun Pensiwn cyn 1 Tachwedd 2006, a chymerodd pob cyfarwyddwr a nodir yn y tabl uchod ran yn y trefniant. Newidiwyd telerau ac amodau cyflogaeth y cyflogeion hynny a ddewisodd y trefniant aberthu cyflog ac o ganlyniad mae cyfraniadau pensiwn cyflogeion a wnaed drwy'r trefniant aberthu cyflog wedi'u trin fel cyfraniadau'r cyflogwr, gyda gostyngiad cyfatebol mewn cyflog. Nid yw cyflogau sylfaenol cyfarwyddwyr gweithredol wedi'u haddasu i adlewyrchu effaith yr aberth cyflog er mwyn gallu eu cymharu â'r blynyddoedd blaenorol. Cyfanswm y cyflog a aberthwyd gan gyfarwyddwyr gweithredol oedd £94,000 (2010: £77,000).

Nodyn 8 Mae cydnabyddiaethau eraill yn ymwneud â threfniadau pensiwn; rhoi symiau arian parod ychwanegol i gyfarwyddwyr yn amodol ar yr uchafswm terfyn blynyddol. Ataliwyd y taliadau arian parod ychwanegol hyn yn weithredol o 1 Ebrill 2011.

Nodyn 9 Ymunodd Lucy Adams, Sharon Baylay a Peter Salmon â'r Bwrdd yn ystod 2009. Ymddiswyddodd John Smith o'r Bwrdd yn 2009. Felly mae cyfanswm cydnabyddiaeth 2009/10 yn adlewyrchu'r ffaith iddynt ddal eu swyddi am ran o'r flwyddyn.

## Cyflog a buddiannau blynyddol y cyfarwyddwyr gweithredol

| | Cyflog cyfarwyddwyr gweithredol ar 31 Mawrth 2010[1] | **Cyflog cyfarwyddwyr gweithredol ar 1 Mai 2011[2]** |
|---|---|---|
| Lucy Adams | 394 | **–** |
| Sharon Baylay | 376 | **–** |
| Jana Bennett | 517 | **–** |
| Helen Boaden | – | **354** |
| Mark Byford | 488 | **–** |
| Tim Davie | 452 | **380** |
| George Entwistle | – | **285** |
| Erik Huggers | 407 | **–** |
| Zarin Patel | 434 | **365** |
| Ralph Rivera | – | **308** |
| Peter Salmon | 467 | **–** |
| Caroline Thomson | 419 | **350** |
| Mark Thompson | 838 | **671** |
| **Cyfanswm** | **4,792** | **2,713** |

[1] Mae cyflog a buddiannau blynyddol y cyfarwyddwyr gweithredol ar 31 Mawrth 2010 yn cynnwys cyflogau blynyddol, buddiannau trethadwy a mathau eraill o gydnabyddiaeth i gyfarwyddwyr gweithredol a oedd yn gwasanaethu ar y dyddiad hwnnw.
[2] Mae bil cyflog y Bwrdd Gweithredol ar 1 Mai 2011 yn cynnwys cyflogau blynyddol, buddiannau trethadwy a ragwelwyd a mathau eraill o gydnabyddiaeth i gyfarwyddwyr gweithredol a oedd yn gwasanaethu ar y dyddiad hwnnw. O 1 Ebrill 2011, gyda chytundeb unigolion, mae'r BBC wedi atal taliadau pensiwn atodol ar gyfer cyfarwyddwyr unigol.

Rydym wedi lleihau maint y Bwrdd Gweithredol, wedi gostwng cyflog aelodau newydd o'r Bwrdd a – gyda chytundeb unigolion – wedi atal taliadau pensiwn atodol yn weithredol o 1 Ebrill 2011. O ganlyniad, gwneir arbedion ariannol sylweddol parhaus yn 2011/12 fel y dangosir yn y tabl hwn.

Hefyd mae cyfarwyddwyr gweithredol wedi cytuno i fynd heb gyflog sylfaenol am fis arall yn ystod y flwyddyn ariannol a ddaw i ben 31 Mawrth 2012. (Nid yw hyn yn cynnwys yr aelodau newydd Ralph Rivera, Helen Boaden a George Entwistle, y mae eu penodiadau yn weithredol yn ystod y flwyddyn, ar 1 Mawrth 2011, 1 Ebrill 2011 a 1 Mai 2011 yn y drefn honno).

Bob blwyddyn, mae Pwyllgor Cydnabyddiaeth y Bwrdd Gweithredol yn adolygu data annibynnol ar daliadau'r farchnad i ategu ei benderfyniadau ar gydnabyddiaeth, a sicrhau bod lefelau tâl yn gyson â'r strategaeth y cytunwyd arni. Dangosodd data a gafwyd ar gyfer 2010 fod cyfanswm iawndal uniongyrchol (cyflog sylfaenol ynghyd â thâl amrywiadwy) yn amrywio rhwng 31% a 60% o'r lefel a dalwyd gan ein cystadleuwyr yn y sector masnachol. Mae'r gwahaniaeth hwn yn adlewyrchu'r symiau ychwanegol sylweddol o dâl amrywiadwy (yn cynnwys dyfarniadau ar sail cyfranddaliadau) a ddarperir yn y sector masnachol.

Mae pob elfen o gyfanswm pecyn cydnabyddiaeth y cyfarwyddwyr gweithredol fel a ganlyn:

### Cyflog sylfaenol

Mae tri ffactor yn pennu lefel cyflog sylfaenol cyfarwyddwr gweithredol:

- a fyddai'r gyfradd yn cael ei chydnabod yn un deg gan y farchnad (cwmnïau sy'n gystadleuwyr) am y swydd?
- a yw perfformiad personol y cyfarwyddwr gweithredol yn cyfiawnhau'r lefel o gyflog sylfaenol?
- a yw'r lefel yn fforddiadwy i'r BBC ac a ystyrir nad yw'n ormodol?

Caiff cyflog sylfaenol ei gysoni â lefel ganolrifol y farchnad ar gyfer cyfanswm cydnabyddiaeth, wedi'i disgowntio o ffactor o 50-80% er mwyn sicrhau nad yw'r BBC yn arwain y farchnad o ran cyflogau swyddogion gweithredol yn sector y cyfryngau.

### Tâl amrywiadwy

Mae taliadau bonws ar sail perfformiad o hyd at 10% o'r cyflog sylfaenol wedi cael eu talu'n hanesyddol i gyfarwyddwyr gweithredol am gyflawni targedau effeithlonrwydd ac amcanion eraill a nodwyd. Fodd bynnag, yn 2009 ataliwyd y cynllun bonws blynyddol i gyfarwyddwyr gweithredol am gyfnod amhenodol. Ni chafodd unrhyw daliadau bonws yn ôl disgresiwn eu talu yn 2010/11.

### Buddiannau

Yn ogystal â phensiynau, y prif fuddiannau cytundebol eraill a ddarperir yw car a lwfans tanwydd, yswiriant iechyd preifat ac aswiriant bywyd. Roedd y Cyfarwyddwr Cyffredinol a'r Dirprwy Gyfarwyddwr Cyffredinol (daeth ei swydd i ben ar 31 Mawrth 2011) yn gymwys y llynedd i gael car â gyrrwr o dan drefniadau cynharach. Nid oes gan y Cyfarwyddwr Cyffredinol hawl i lwfans car personol na lwfans tanwydd.

### Pensiwn

Mae aelodau'r Bwrdd Gweithredol yn gymwys i fod yn rhan o Gynllun Pensiwn y BBC, sy'n darparu ar gyfer buddiannau pensiwn ar sail buddiannau diffiniedig.

Ar gyfer cyflogai a ymunodd â'r Cynllun Pensiwn cyn 1 Tachwedd 2006, y gyfradd gronni yw 1/60ain o'r cyflog pensiynadwy terfynol (cyflog sylfaenol, yn cynnwys pwysoliad Llundain) am bob blwyddyn o wasanaeth. Ar gyfer y grŵp hwn o gyflogeion, yr oedran pensiynadwy arferol yw 60.

Ar gyfer cyflogai a ymunodd â'r cynllun pensiwn ar/ar ôl 1 Tachwedd 2006, y gyfradd gronni yw 1.67% o'u cyflog pensiynadwy am bob blwyddyn o wasanaeth, wedi ei haddasu yn unol â chwyddiant. Ar gyfer y grŵp hwn yr oedran pensiynadwy arferol yw 65.

Mae gan y rhan fwyaf o gyfarwyddwyr gweithredol oedran pensiynadwy arferol o 60.

## Cynlluniau buddiannau diffiniedig

Dangosir manylion hawliadau buddiannau diffiniedig isod:

| Cyfarwyddwyr gweithredol | Oedran ar 31 Mawrth 2010 | Cynnydd mewn pensiwn a gronnwyd dros y flwyddyn £000 | **Cyfanswm pensiwn a gronnwyd ar 31 Mawrth 2011 £000** | Gwerth trosglwyddo'r pensiwn a gronnwyd ar 31 Mawrth 2011 £000 | **Gwerth trosglwyddo'r pensiwn a gronnwyd ar 31 Mawrth 2010 £000** | Cyfraniadau'r cyfarwyddwr (ac eithrio cyfraniadau a dalwyd drwy'r trefniant aberthu cyflog) £000 | Cynnydd/ (gostyngiad) mewn gwerth trosglwyddo llai cyfraniadau'r cyfarwyddwr £000 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Lucy Adams[1] | 46 | 2 | **4** | 29 | **11** | 0 | 18 |
| Sharon Baylay[2] | 42 | 2 | **4** | 26 | **10** | 0 | 16 |
| Jana Bennett[3] | 55 | 2 | **18** | 313 | **247** | 0 | 66 |
| Mark Byford[4] | 52 | 8 | **223** | 3,553 | **3,682** | 0 | (129) |
| Tim Davie | 43 | 2 | **12** | 127 | **92** | 0 | 35 |
| Erik Huggers[5] | 38 | 2 | **6** | 33 | **19** | 0 | 14 |
| Zarin Patel | 50 | 2 | **26** | 349 | **284** | 0 | 65 |
| Peter Salmon[6] | 54 | 2 | **9** | 154 | **107** | 0 | 47 |
| Mark Thompson | 53 | 2 | **14** | 221 | **167** | 0 | 54 |
| Caroline Thomson | 56 | 2 | **75** | 1,436 | **1,460** | 0 | (24) |

[1] Ymddiswyddodd Lucy Adams fel cyfarwyddwr ar 31 Mawrth 2011.
[2] Ymddiswyddodd Sharon Baylay fel cyfarwyddwr ar 30 Tachwedd 2010 ond roedd yn parhau'n aelod gweithredol o'r cynllun ar 31 Mawrth 2011, felly prisiwyd ei phensiwn cronedig fel ag yr oedd ar 31 Mawrth 2011.
[3] Gadawodd Jana Bennett fel cyfarwyddwr ar 6 Chwefror 2011 ond roedd yn parhau'n aelod gweithredol o'r cynllun ar 31 Mawrth 2011, felly prisiwyd ei phensiwn cronedig fel ag yr oedd ar 31 Mawrth 2011.
[4] Ymddiswyddodd Mark Byford fel cyfarwyddwr ar 31 Mawrth 2011.
[5] Gadawodd Erik Huggers fel cyfarwyddwr a gadawodd y Cynllun ar 25 Chwefror 2011. Prisiwyd ei bensiwn cronedig ar adeg gadael y Cynllun fel ag yr oedd ar 31 Mawrth 2011.
[6] Ymddiswyddodd Peter Salmon fel cyfarwyddwr ar 31 Mawrth 2011.

I'r rhai a ymunodd â'r Cynllun Pensiwn ar ôl 31 Mai 1989 gosodir uchafswm terfyn blynyddol ar enillion (£123,600 y flwyddyn ar gyfer 2010/11). Ni chymhwysir unrhyw uchafswm terfyn blynyddol i'r rhai a ymunodd ar neu cyn 31 Mai 1989. Mae'r Cynllun Pensiwn yn darparu ar gyfer ymddeoliad cynnar ar sail feddygol ac aswiriant bywyd o bedair gwaith y cyflog pensiynadwy hyd at derfyn a bennir.

Cafodd cyfarwyddwyr gweithredol a ymunodd â'r Cynllun Pensiwn ar/ar ôl 1 Mehefin 1989, ac mae eu tâl pensiynadwy yn fwy na'r uchafswm terfyn blynyddol, dâl arian parod ychwanegol yn 2010/11, a dalwyd ar gyflog pensiynadwy y tu hwnt i'r uchafswm terfyn blynyddol (gweler y tabl sy'n dangos cynlluniau buddiannau diffiniedig).

Ataliwyd y tâl arian parod ychwanegol hwn yn weithredol o 1 Ebrill 2011.

Mae aelodau o'r Bwrdd Gweithredol a ymunodd â'r BBC ar ôl 1 Rhagfyr 2010 yn gymwys i ymuno â chynllun LifePlan y BBC, sef trefniant cyfraniadau diffiniedig. Mae'r BBC yn talu cyfraniadau cyfatebol rhwng 4-5% gyda chyfraniad ychwanegol o 1% rhwng 6-7%. Uwchlaw hynny darperir 2% yn ychwanegol hyd at uchafswm cyfraniad o 10% gan y cyflogwr.

### Contractau cyflogaeth

Mae contractau cyflogaeth cyfarwyddwyr gweithredol yn cynnwys cyfnod rhybudd o hyd at 12 mis, ond gellir eu terfynu'n gynt am reswm penodol. Nid oes hawl gytundebol i unrhyw gydnabyddiaeth ychwanegol os terfynir contract yn gynnar oni bai ei fod yn cael ei derfynu ar sail diswyddo.

### Buddiannau allanol

Gyda chytundeb y Cyfarwyddwr Cyffredinol a'r Pwyllgor Enwebiadau ymlaen llaw, gall aelodau gweithredol y Bwrdd Gweithredol ddal un swydd cyfarwyddwr allanol â chydnabyddiaeth, a chaniateir hyd at 15 diwrnod y flwyddyn i gyflawni'r dyletswyddau hyn. Gall yr unigolyn gadw cydnabyddiaeth sy'n deillio o swyddi cyfarwyddwyr. Gall cyfarwyddwyr gweithredol hefyd ddal swyddi na thelir cydnabyddiaeth mewn perthynas â hwy y tu allan i'r BBC.

Yn ystod y flwyddyn ni ddaliwyd unrhyw swydd cyfarwyddwr allanol â chydnabyddiaeth gan gyfarwyddwr gweithredol. Er mwyn cael copi o gofrestr buddiannau'r Bwrdd Gweithredol ewch i www.bbc.co.uk/aboutthebbc/running/executive/eb.

Cydnabyddir bod cyfarwyddwyr anweithredol yn debygol o gael swyddi cyfarwyddwyr eraill ac nid yw'r cyfyngiadau sy'n gymwys i gyfarwyddwyr gweithredol yn gymwys iddynt hwy.

### Busnesau masnachol y BBC

Mae gan y BBC dri is-gwmni masnachol:

- BBC Worldwide
- BBC Studios and Post Production
- BBC World News

Mae'r polisi cydnabyddiaeth ar gyfer yr is-gwmnïau yn cynnwys darpariaeth gytundebol o gynllun bonws blynyddol a chynllun cymelldaliadau hirdymor sy'n agored i bob aelod parhaol o staff, gan gynnwys cyfarwyddwyr. Caiff costau llawn cyflogau sylfaenol, taliadau bonws blynyddol a'r Cynllun Cymelldaliadau Hirdymor eu hunanariannu gan refeniw masnachol pob is-gwmni ac ni ddefnyddir ffi'r drwydded i'w talu.

**Adroddiad Cadeirydd Pwyllgor Archwilio'r Bwrdd Gweithredol**

Mae'r BBC yng nghanol un o'r cyfnodau mwyaf diddorol a heriol yn ei hanes, ac mae'n bleser mawr gennyf ymgymryd â rôl Cadeirydd Pwyllgor Archwilio'r Bwrdd Gweithredol ar yr adeg hon. Rwyf wedi etifeddu swyddogaeth archwilio a risg sydd wedi cael ei rheoli'n dda ond gobeithio y gallaf ddod â safbwynt newydd i'r materion a ddygir gerbron y Pwyllgor, ac ar yr un pryd gynnal cadernid presennol y drefn lywodraethu yn y BBC, sy'n hanfodol i sicrhau y gwneir y defnydd gorau o ffi'r drwydded.

Drwy gydol y flwyddyn, mae'r Pwyllgor wedi parhau i ystyried papurau gan reolwyr sy'n cwmpasu amrywiaeth mawr o faterion gan gynnwys diogelwch gwybodaeth y BBC, lefelau twyll a lladrad yn y sefydliad ac arolygon ôl-weithredol o brosiectau mawr.

Hefyd rydym yn ystyried canfyddiadau'r Adran Archwilio Mewnol yn rheolaidd, ac yn olrhain cynnydd rheolwyr wrth iddynt fynd i'r afael â'r rhain. Rydym hefyd yn cadw mewn cysylltiad agos â'r archwilwyr allanol, gan ystyried ymlaen llaw sut y bwriadant gynnal eu harchwiliad a thrafod unrhyw faterion y dymunant eu tynnu at ein sylw. Rydym hefyd yn sicrhau y caiff risgiau eu hystyried yng nghyd-destun llawn gwerthoedd ac amcanion y BBC, drwy gymorth adroddiadau rheolaidd ar broffil risg drwy'r BBC cyfan a hefyd ar faterion penodol o bwys, gyda ffocws allweddol ar sicrhau bod camau lliniaru yn gymesur.

Rydym yn cydnabod mai cwblhau prosiectau cydgysylltiedig niferus yn llwyddiannus ynghyd â rhaglenni newid yw'r allwedd i gyflawni amcanion y BBC, a bwriadwn barhau i ganolbwyntio ar gyflawni cerrig milltir cyflenwi a dwyn rheolwyr i gyfrif. Yn ystod y flwyddyn mae'r Pwyllgor wedi adolygu archwiliadau iechyd ar bob prosiect hanfodol.

Un agwedd werthfawr ar ein gwaith yw cynnig barn annibynnol, herio tybiaethau a safbwyntiau a chyflwyno dulliau gweithredu arloesol i'r BBC, a thrwy hynny helpu'r tîm rheoli i ragweld problemau posibl ac enghreifftiau o aneffeithlonrwydd.

Byddwn yn parhau i sicrhau bod blaenoriaethau cynulleidfaoedd a gwerth am arian wrth wraidd ein hasesiad o ddigonolrwydd yr amgylchedd rheoli.



**Simon Burke**
Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio
23 Mehefin 2011


## Atebolrwydd a rheolaeth fewnol

Mae'r Bwrdd Gweithredol yn gyfrifol am reolaeth weithredol y BBC (heblaw am Uned yr Ymddiriedolaeth), sy'n cynnwys diogelu ei asedau a chael gwerth am arian drwy sicrhau bod proses ar waith ar gyfer rheoli risgiau sylweddol i'r BBC yn ogystal â chynnal system effeithiol o reolaeth fewnol.

## Nodi a rheoli risgiau a pherchenogaeth ohonynt

Mae rheoli risgiau o fewn y BBC yn rhan annatod o'r gwaith o gyflawni ein hamcanion busnes a phwrpasau cyhoeddus. Credwn mai'r ffordd fwyaf effeithiol o gyflawni hyn yw drwy ymwneud y Bwrdd Gweithredol cyfan, sy'n gyfrifol am nodi risgiau a chyfleoedd a allai effeithio ar gynulleidfaoedd, strategaethau a gweithrediadau'r BBC.

Mae ein proses barhaus ar gyfer nodi, gwerthuso, rheoli, monitro ac adrodd ar risgiau mawr i'r BBC, sy'n unol â chanllawiau Turnbull (Rheolaeth Fewnol: Canllawiau Diwygiedig i Gyfarwyddwyr ar y Cod Cyfunol), wedi bod ar waith am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2011 a hyd at ddyddiad cymeradwyo Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon y BBC eleni.



Mae elfennau allweddol y broses yn cynnwys:

- mae cyfarwyddwr pob grŵp busnes yn gyfrifol am nodi a rheoli'r risgiau a wynebir gan eu busnes, a chadw cofrestr o risgiau busnes allweddol, ynghyd â chamau lliniaru
- mae swyddogaethau arbenigol yn goruchwylio'r gwaith o reoli risgiau mawr penodol, megis diogelwch cynyrchiadau, twyll a diogelwch gwybodaeth, gan sicrhau bod fframweithiau priodol ar waith ac y ceir perchenogaeth effeithiol ar lefel uwch
- mae tîm rheoli risg canolog penodol yn gweithio gyda rhanddeiliaid i sicrhau bod y broses yn datblygu'n barhaus a bod perchenogaeth briodol o bob risg
- mae'r Bwrdd yn cael adroddiadau rheolaidd a'r wybodaeth ddiweddaraf am amlygiad y BBC i risgiau a strategaethau lliniaru

### Rheolaeth fewnol

Mae'r Bwrdd Gweithredol yn gyfrifol am sefydlu, cynnal ac adolygu effeithiolrwydd system rheolaeth fewnol y BBC ac am sicrhau y cymerir y camau angenrheidiol i wella diffygion neu wendidau sylweddol a nodir. Mae ein system reoli wedi'i chynllunio i reoli (yn hytrach na dileu) y risg o fethu â chyflawni amcanion busnes a rhoi sicrwydd rhesymol bod asedau'n cael eu diogelu, bod trafodion yn cael eu hawdurdodi'n briodol a bod gwallau perthnasol neu unrhyw achosion o afreoleidd-dra yn cael eu hatal neu eu canfod yn amserol.

Mae elfennau allweddol ein system rheolaeth fewnol yn cynnwys:

- prosesau adrodd misol, chwarterol a blynyddol cynhwysfawr, o fewn grwpiau busnes a hyd at lefel y Bwrdd (gan gynnwys adroddiadau monitro ariannol ac adroddiadau sy'n seiliedig ar gyllideb flynyddol, adroddiadau misol ar ganlyniadau gwirioneddol, newid ffocws a dadansoddi'n rheolaidd amrywiannau a ffactorau ysgogi allweddol, yn ogystal ag arolygon o berfformiad sy'n olrhain cyflawniadau yn erbyn strategaeth)
- adroddiadau rheolaidd ar faterion trysorlys ac arian parod, sy'n dadansoddi gofynion ariannu a hylifedd
- terfynau a phrosesau awdurdodi ffurfiol sy'n cwmpasu pob trafodyn ariannol
- prosesau sy'n sicrhau cydymffurfiaeth â phob deddf a rheoliad sy'n gymwys, gan gynnwys gofynion Ofcom
- polisïau a gweithdrefnau ffurfiol yn ymwneud â phob proses fusnes berthnasol, i sicrhau bod risgiau yn cael eu rheoli a bod gwybodaeth amserol, berthnasol a dibynadwy ar gael ym mhob rhan o'r busnes
- prosesau i sicrhau bod ein staff yn broffesiynol ac yn gymwys, megis polisïau recriwtio, arfarniadau o berfformiad a rhaglenni hyfforddiant

Mae'r Bwrdd Gweithredol yn cadarnhau ei fod wedi ystyried effeithiolrwydd y system o reolaethau mewnol a amlinellir yma ac sydd wedi bod ar waith drwy gydol y flwyddyn ariannol ddiwethaf, a hyd at ddyddiad cymeradwyo'r Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon.

### Archwiliad mewnol

Mae ein Gwasanaethau Archwilio Mewnol, Rheoli Risg ac Ymchwilio yn cyfuno i ffurfio ein swyddogaeth Sicrwydd Busnes, a arweinir gan y Cyfarwyddwr Risg a Sicrwydd. Caiff awdurdod ac annibyniaeth yr Archwiliad Mewnol eu sicrhau gan gysylltiad annibynnol ac uniongyrchol y Cyfarwyddwr Risg a Sicrwydd â'r Cyfarwyddwr Cyffredinol a Phwyllgor Archwilio'r Bwrdd Gweithredol. Mae'r Archwiliad Mewnol yn profi ein systemau rheolaeth a'n prosesau busnes craidd yn rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod yn addas at y diben ac yn cael eu cymhwyso'n gyson. Cytunir ar y cynllun gwaith, sy'n seiliedig ar asesiad parhaus o'r risgiau allweddol, yn flynyddol gyda Phwyllgor Archwilio'r Bwrdd Gweithredol ac mae'n cwmpasu rheolaethau ariannol, gweithredol a chydymffurfio, yn cynnwys arfer hawl y BBC i gynnal archwiliad o gyflenwyr allanol megis cwmnïau cynhyrchu annibynnol a darparwyr gwasanaethau. Hysbysir rheolwyr ar y lefelau priodol o unrhyw fethiannau neu wendidau o bwys a nodir o ran rheolaeth; cyflwynir adroddiad ar statws camau unioni i Bwyllgor Archwilio'r Bwrdd Gweithredol.

### Pwyllgor Archwilio'r Bwrdd Gweithredol

Aelodau cyfredol Pwyllgor Archwilio'r Bwrdd Gweithredol yw'r cyfarwyddwyr anweithredol Simon Burke (Cadeirydd, a benodwyd 1 Ionawr 2011), Dr Mike Lynch a Val Gooding (a benodwyd 25 Mai 2011). Hyd at 31 Rhagfyr 2010, roedd yr aelodau yn cynnwys y cyfarwyddwyr anweithredol David Robbie (Cadeirydd) a Dr Samir Shah, y daeth eu cyfnod yn eu swyddi i ben bryd hynny. Mae'r Bwrdd yn fodlon bod gan Simon Burke, a David Robbie cyn hynny, brofiad ariannol sylweddol, diweddar a pherthnasol.

Mae Pwyllgor Archwilio'r Bwrdd Gweithredol yn ychwanegu at yr ystod o sgiliau a phrofiad sydd gan ei aelodau gyda chyngor fel y bo angen gan unigolion proffesiynol mewnol ac allanol, ar faterion perthnasol yn cynnwys datblygiadau ym maes adroddiadau ariannol a chyfraith cwmnïau. Mae'r Cyfarwyddwr Cyffredinol, y Prif Swyddog Ariannol, y Cyfarwyddwr Risg a Sicrwydd, a chynrychiolwyr Archwiliad Mewnol, Rheoli Risg a'r archwilwyr allanol KPMG LLP hefyd yn mynychu'r cyfarfodydd.

Yn ystod y flwyddyn, mae'r Pwyllgor wedi adolygu ei Gylch Gorchwyl ac wedi cymeradwyo y dylid parhau i'w gymhwyso, gan dybio ei fod yn briodol i sicrhau effeithiolrwydd parhaus y Pwyllgor.

Cyfarfu bedair gwaith yn ystod y flwyddyn ariannol. Mae'n cyfarfod â'r archwilwyr allanol heb unrhyw reolwyr yn bresennol o leiaf unwaith y flwyddyn. Mae Cadeirydd y Pwyllgor yn cyfarfod â'r Cyfarwyddwr Risg a Sicrwydd, ar ei ben ei hun neu gyda'r archwilwyr allanol, heb reolwyr yn bresennol, ac yn cyfarfod yn breifat hefyd gyda'r partner arweiniol archwilio allanol.

Mae cofnodion pob un o gyfarfodydd y Pwyllgor ar gael i'r Bwrdd Gweithredol ac i Ymddiriedolaeth y BBC. Cyflwynir adroddiadau i'r Bwrdd ar argymhellion y Pwyllgor mewn unrhyw faes o fewn ei gylch gwaith lle mae angen cymryd camau gweithredu neu wneud gwelliannau. Mae Cadeirydd y Pwyllgor yn cyflwyno adroddiad ffurfiol i'r Bwrdd o leiaf unwaith y flwyddyn.

Yn ystod 2010/11 mae'r Pwyllgor wedi:

- adolygu effeithiolrwydd y system o reolaethau mewnol, gan gynnwys rheolaethau dros adroddiadau ariannol
- ceisio sicrwydd gan reolwyr eu bod yn ymdrin â materion o ran rheolaeth a nodwyd gan archwilwyr mewnol ac allanol
- ystyried adroddiadau gan reolwyr ar brosesau ar gyfer rheoli risgiau sylweddol
- adolygu datganiadau ariannol grŵp y BBC, gan gynnwys polisïau cyfrifyddu, cydymffurfiaeth â gofynion cyfreithiol a rheoliadol, a chanfyddiadau'r archwilwyr allanol
- goruchwylio perthynas y BBC â'r archwilwyr allanol, gan gynnwys eu penodiad, cwmpas eu gwaith a sut maent yn cyflawni eu gwaith, eu ffioedd, eu perfformiad a'u hannibyniaeth, gan gynnwys cymeradwyo a chydymffurfio â'r polisi ar waith nad yw'n waith archwilio
- cymeradwyo cynllun gwaith yr Archwiliad Mewnol
- adolygu'r prosesau sydd ar waith ar gyfer canfod twyll a threfniadau chwythu'r chwiban
- ystyried arolygon ôl-fuddsoddi o fuddsoddiadau mawr
- monitro'r ffordd y cymerwyd camau gweithredu angenrheidiol o ganlyniad i arolygon a gynhaliwyd gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol

## Annibyniaeth archwilwyr allanol

Rydym yn cydymffurfio â chanllawiau'r Cod Cyfunol ar gynnal cydberthynas briodol ag archwilwyr allanol. Yn ystod 2008 ailbenodwyd KPMG LLP yn archwilwyr allanol am gyfnod o dair blynedd o 2008/09, ar ôl proses dendro ffurfiol. Ers hynny, yn unol â thelerau'r contract, mae'r Pwyllgor wedi cymeradwyo estyniad o ddwy flynedd i'r cyfnod hwn.

Mae'r Pwyllgor yn fodlon bod gan KPMG fesurau diogelu digonol ar waith i osgoi'r posibilrwydd y caiff ei wrthrychedd a'i annibyniaeth archwilio eu peryglu, gan gynnwys cylchdroi ei dîm yn briodol, yn ogystal â rhaglen sicrwydd ansawdd briodol.

Mae'r Pwyllgor wedi pennu polisi clir sy'n diffinio'r trothwy y mae'n rhaid i unrhyw waith arfaethedig nad yw'n waith archwilio a wneir gan KPMG sydd y tu hwnt i'r trothwy hwn gael ei gymeradwyo ymlaen llaw gan y Pwyllgor, ac mae'r polisi hefyd yn diffinio pryd y mae'n rhaid iddo gael ei gyflwyno i dendr cystadleuol, a hynny er mwyn diogelu ac ategu gallu'r archwilwyr allanol i barhau'n ddiduedd ac yn wrthrychol. Ym mhob achos, nid ystyrir KPMG ar gyfer gwaith a allai effeithio'n andwyol ar eu gallu i fynegi barn annibynnol ar ddatganiadau ariannol y BBC. Mae'n rhaid cael cymeradwyaeth ymlaen llaw gan Bwyllgor Archwilio'r Bwrdd Gweithredol cyn i unrhyw un o KPMG gael ei recriwtio i swydd uwch reolwr yn y BBC.

## BBC jam

Lansiwyd BBC jam ym mis Ionawr 2006, er mwyn darparu adnoddau dysgu ar-lein rhyngweithiol am ddim i gefnogi gofynion cwricwla'r DU ar gyfer plant 5-16 oed. Cyllideb wreiddiol y gwasanaeth oedd £150miliwn. Ar ôl ymgynghori'n drylwyr gan gynnwys ymgynghori â Llywodraethwyr y BBC, yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon a'r Comisiwn Ewropeaidd, gosodwyd amodau estynedig a ffiniau gweithredu ar weithgareddau'r gwasanaeth. Er gwaethaf hynny, cafodd y gwasanaeth ei feirniadu gan ddarparwyr addysgol masnachol ac, ar ôl trafodaethau pellach â Llywodraeth y DU a'r Comisiwn Ewropeaidd, penderfynodd Ymddiriedolaeth y BBC atal BBC jam dros dro ym mis Mawrth 2007. Ym mis Ionawr 2008, penderfynodd Ymddiriedolaeth y BBC mai'r ffordd orau o weithredu er budd y cyhoedd oedd drwy derfynu BBC jam pan fyddai ei Drwydded Wasanaeth yn dod i ben ar 30 Medi 2008. Amcangyfrifir, o'r gyllideb o £150miliwn a oedd ar gael, i £96miliwn gael ei wario ar y gwasanaeth cyn iddo gael ei derfynu.

Cymeradwywyd y defnydd o asedau BBC jam o ran cynnwys mewn ieithoedd brodorol ar gyfer Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon gan Ymddiriedolaeth y BBC ym mis Mai 2008 ac unwaith eto ym mis Chwefror 2011. Barnwyd bod y cynnwys hwn yn cynnig gwerth cyhoeddus mawr heb fawr ddim posibilrwydd y byddai'n creu effaith andwyol ar y farchnad. Hefyd, cafodd adnodd dysgu a grëwyd yn arbennig i helpu plant fyddar gyda llythrennedd ei ddychwelyd i'r rhai a'i creodd, sef Shoreditch Consortium. Gwerth yr asedau hyn a ailddefnyddiwyd oedd £13miliwn, gyda chost adfer o £2miliwn. Ers hynny ni chanfuwyd cyfleoedd pellach i gael gwared ar asedau a chyfyngu ar gostau dadgomisiynu BBC jam. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi dweud na ddylai unrhyw waith arall ar ailddefnyddio asedau BBC jam fynd rhagddo bellach. Felly cost net derfynol gwasanaeth BBC jam oedd £85miliwn ar ôl ystyried gwerth yr asedau a adferwyd a chost eu hadfer a'u hailddefnyddio.

## Chwythu'r chwiban

Mae gennym bolisi 'chwythu'r chwiban' (datgeliad wedi ei ddiogelu), i hwyluso'r gwaith o roi gwybod yn gyfrinachol drwy nifer o ffyrdd am unrhyw ddigwyddiad lle mae amheuaeth bod codau'r BBC wedi cael eu torri. Rydym yn cydnabod y gallai digwyddiadau gwirioneddol neu ddigwyddiadau a amheuir fod yn sensitif eu natur ac felly rydym yn darparu llinell gymorth 'chwythu'r chwiban', a weinyddir gan gwmni allanol annibynnol er mwyn sicrhau anhysbysrwydd.

Ymchwilir i bob digwyddiad neu amheuaeth y rhoddir gwybod amdanynt mewn ffordd gyfrinachol, rhoddir ymateb a chymerir y camau gweithredu priodol. Mae Pwyllgor Archwilio'r Bwrdd Gweithredol yn gyfrifol am sicrhau bod trefniadau priodol ar waith i ymchwilio i faterion a godwyd mewn ffordd gymesur ac i gymryd camau dilynol priodol.




Mae'r gwaith gosod ar gyfer MediaCityUK yn Salford (a ddangosir yma) a'r Ganolfan Ddarlledu yn Llundain yn mynd rhagddo ar amser ac yn unol â'r gyllideb.

# RHEOLI EIN CYLLID




Cafwyd perfformiad arbennig gan y gantores a'r gyfansoddwraig caneuon Adele, sydd wedi ennill gwobrau Grammy, ar gyfer *Live Lounge Special* ar BBC Radio 1 ym mis Ionawr, dim ond rhan o'n hymrwymiad nodedig parhaus i gerddoriaeth fyw y llynedd.

# Arolwg y Prif Swyddog Ariannol



Mae'r BBC wedi wynebu nifer o heriau ariannol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Ond mae ein sefyllfa ariannol ar ddiwedd y flwyddyn yn wydn – gallwn oresgyn yr heriau hyn a sicrhau arbedion sylweddol yn y dyfodol hefyd wrth i ni newid ein ffyrdd o weithio, gan barhau i ddarparu cynnwys ardderchog i gynulleidfaoedd ar bob un o'n llwyfannau.

## Gwydnwch ariannol

Gellir priodoli'r canlyniad ar gyfer y flwyddyn i'r ffordd y gwnaethom reoli'r heriau hyn a'n paratoadau ar gyfer y dyfodol. Mae gwarged blwyddyn lawn y grŵp o £483miliwn yn adlewyrchu rhai credydau eithriadol nad ydynt yn rhan o'n gweithrediadau rheolaidd: rydym yn cael budd o gynnydd actiwaraidd o £250miliwn o ganlyniad uniongyrchol i ddiwygiadau pensiwn sylweddol i leihau ein costau pensiwn parhaus, yn ogystal ag elw o £96miliwn yn sgîl gwaredu *Animal Planet* wrth i ni ganolbwyntio ein gweithgareddau masnachol ar sianelau a llwyfannau â brand y BBC. Ac eithrio'r ddwy eitem sylweddol hyn, roedd gwarged sylfaenol y grŵp ar gyfer y flwyddyn yn £137miliwn, neu 2.7% o'n hincwm. Mae gwarged fach o'r fath yn briodol gan ei bod yn adlewyrchu cyfatebiaeth gyffredinol rhwng incwm a gwariant a rhywfaint o hyblygrwydd ar gyfer digwyddiadau neu gostau nas rhagwelir.

Er bod gennym falans arian parod cyffredinol o £513miliwn ar ddiwedd y flwyddyn, mae angen ystyried y balans hwn yng nghyd-destun ein hymrwymiadau byrdymor. Mae £266miliwn o'r arian parod hwn, sef y warged ar y Cynllun Cymorth Newid i Ddigidol a Digital UK, wedi'i neilltuo i'w ad-dalu i DCMS. Mae symiau pellach o £74miliwn a £120miliwn, yn y drefn honno, wedi'u neilltuo i ariannu'r broses o symud i Salford a thaliadau i adfer diffygion pensiwn ar gyfer y ddwy flynedd nesaf. Yn olaf, caiff £69miliwn o'r arian parod hwn ei fuddsoddi yn natblygiad ein gweithrediadau masnachol. Ar ôl caniatáu ar gyfer y symiau hyn, mae gan y BBC orddrafft net sylfaenol o £16miliwn ar ddiwedd y flwyddyn, sy'n lefel resymol.

Y cam cyntaf o ran rhoi gwerth i dalwyr ffi'r drwydded yw sicrhau ein bod yn gwneud y gorau o'n hincwm. Mewn cyfnod economaidd anodd, rydym wedi diogelu lefel yr incwm sy'n dod o ffi'r drwydded ac, ar yr un pryd, wedi cynyddu'r incwm nad yw'n ymwneud â ffi'r drwydded sy'n gynnydd cyffredinol o dros £200miliwn yn ein hincwm. Ni ddylid anwybyddu'r gweithrediadau masnachol gyda chyfraniadau sylweddol gan BBC Worldwide, busnes sy'n mynd o nerth i nerth, ond mae BBC World News a BBC Studios & Post Production (BBC S&PP) wedi cyfrannu hefyd.

Rydym hefyd wedi cytuno â'r llywodraeth ar lefelau ffi'r drwydded tan ddiwedd cyfnod y Siarter ac er bod y cytundeb hwn yn golygu rhwymedigaethau ariannol ychwanegol sylweddol, mae'n rhoi'r sicrwydd ariannol i ni gynllunio ein gweithrediadau a blaenoriaethu ein gwariant er mwyn diwallu anghenion ein cynulleidfaoedd yn y ffordd orau.

## Cyflawni effeithlonrwydd


Rydym mewn sefyllfa i wneud hyn oherwydd yr arbedion effeithlonrwydd gweithredol ac ariannol a gyflawnwyd gennym yn ystod y blynyddoedd diwethaf, o ganlyniad i'r modd y blaenoriaethwyd ein gwariant yn unol â'r blaenoriaethau golygyddol a nodwyd yn *Rhoi Ansawdd yn Gyntaf*.

Rydym bellach yn rhagamcanu y bydd ein Rhaglen Gwelliant Parhaus yn cynhyrchu dros £2biliwn o arbedion, gyda'r holl arian yn cael ei ailgylchu naill ai i wella ein cynnwys neu i'w fuddsoddi yn ein seilwaith, yn enwedig ein safleoedd gweithredol. At hynny, rydym yn parhau i nodi cyfleoedd pellach i leihau costau uwch reolwyr a thalent ac rydym yn parhau ar y trywydd iawn i gyflawni pob un o'n targedau yn y meysydd hyn.

## Heriau ariannol

Yn ystod y flwyddyn hon, rydym wedi cadarnhau maint ein diffyg pensiwn ond hefyd wedi cytuno ar gynllun ar y cyd â'r ymddiriedolwyr pensiwn i adfer y diffyg dros gyfnod y cytunwyd arno gan sicrhau ar yr un pryd na chaiff yr arian sydd ar gael ar gyfer ein gwasanaethau ei beryglu'n ormodol.

Mae'r broses o reoli chwyddiant uchel (gwelwyd cynnydd o 5.3% yn yr RPI yn ystod y flwyddyn) wedi rhoi pwysau sylweddol ar gyllid y BBC, a bydd y sefyllfa honno'n parhau gyda ffi'r drwydded yn cael ei rhewi am y pum mlynedd nesaf. Fodd bynnag, mae profiad diweddar wedi dangos i ni sut i reoli pwysau o'r fath ac mae'n rhoi'r BBC mewn sefyllfa gref i reoli'r pwysau hynny heb gyfaddawdu ein huchelgeisiau o ran gwariant a buddsoddiad.



**Zarin Patel**
**Prif Swyddog Ariannol**
**23 Mehefin 2011**

# Crynodeb o berfformiad ariannol

Mae talwyr ffi'r drwydded, yn gywir ddigon, yn disgwyl i'w buddsoddiad yn y BBC gynnig rhaglenni nodedig o ansawdd uchel ac, ar yr un pryd, sicrhau gwerth real a chynaliadwy iddynt hwy a'u teuluoedd. Mae cyfrifoldeb ar y BBC i reoli'r modd rydym yn gwario incwm ffi'r drwydded yn effeithlon, gan ymdrechu i leihau achosion o ddyblygu a gwastraff ym mhob un o'n gweithrediadau yn barhaus, a chynyddu refeniw o'n gweithgareddau masnachol.

## Gwariant ffi'r drwydded

- Mae 80c o bob £1 o ffi'r drwydded yn cael ei wario ar raglenni neu'r seilwaith sy'n ategu gweithgareddau'r BBC.
- Mae 6c o bob £1 yn cael ei wario ar ddarparu ein gwasanaethau i gynulleidfaoedd drwy analog, DTT, lloeren a'r rhyngrwyd.
- Mae cost casglu ffi'r drwydded yn is na'r llynedd, sef 3.4c am bob £1 a gesglir (i lawr o 3.5c y llynedd).


**Dadansoddiad o wariant ffi'r drwydded 2010/11**

| | £m | % |
|---|---|---|
| Gwariant ar gynnwys | 2,549 | 71 |
| Eiddo a thechnoleg | 308 | 9 |
| Swyddogaethau cymorth a marchnata | 303 | 8 |
| Dosbarthu gwasanaethau | 202 | 6 |
| Casglu ffi'r drwydded | 124 | 3 |
| Cynllun Cymorth Newid i Ddigidol | 80 | 2 |
| Ailstrwythuro | 30 | 1 |
| Cyfanswm | 3,596 | 100 |

## Arbedion effeithlonrwydd

- Cyflawnwyd £1biliwn o arbedion cynaliadwy ers dechrau'r rhaglen Gwelliant Parhaus heb i ni weld dirywiad yn ansawdd ein cynnwys.
- O'r £1.1biliwn sy'n weddill, sicrheir £870miliwn drwy fentrau sydd eisoes ar waith (arbedion sicr).
- Rydym yn parhau ar y trywydd iawn i gyflawni ein targed arbedion blynyddol o 3%.
- Rhagwelir cyfanswm arbedion o £1.9biliwn ar ôl costau gweithredu.


**Arbedion effeithlonrwydd gros parhaus £m**




## Perfformiad masnachol

- BBC Worldwide yn cofnodi gwerthiannau gros o £1.158biliwn – cynnydd o 8% o gymharu â'r llynedd.
- Gwerthiannau BBC World News yn cael budd o adferiad mewn marchnadoedd hysbysebu ac yn dangos cynnydd o 16% o gymharu â'r llynedd.
- Gweithrediadau BBC S&PP yn dangos elw cyn costau ailstrwythuro.
- BBC Worldwide yn dychwelyd £182miliwn i Public Services Broadcasting yn ystod y flwyddyn.

**Newid mewn incwm o flwyddyn i flwyddyn**



# Trosolwg ariannol

Fel gyda llawer o sefydliadau eraill, mae'r BBC wedi parhau i wynebu heriau ariannol sylweddol wrth i economi'r DU barhau i ddioddef y dirwasgiad gwaethaf ers y 1930au. Bu'r gwaith o gasglu ffi'r drwydded yn her yn yr amgylchedd anodd hwn ac, fel y nodais y llynedd, mae gwerth y cynllun pensiwn wedi golygu bod angen i ni fynd i'r afael â diffyg sylweddol.

Mae'r camau a gymerwyd gennym dros y ddwy flynedd ddiwethaf wedi ymateb i'r pwysau byrdymor sydd arnom i ariannu'r diffyg pensiwn a'r incwm is na'r hyn a gynlluniwyd o ran ffi'r drwydded, tra'n cynnal a gwella amrywiaeth, dyfnder a chyrhaeddiad y gwasanaethau a werthfawrogir gan ein gwylwyr, ein gwrandawyr a'n darllenwyr. Credaf fod hyn wedi creu llwyfan cryf ar gyfer dechrau ymateb i'r her o gynnal ansawdd ein hallbwn yn wyneb pwysau ariannu yn y dyfodol.

Nodwyd ein trosolwg strategol ar gyfer y BBC yn *Rhoi Ansawdd yn Gyntaf*, a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2010. Mae'r strategaeth hon yn ad-drefnu'r BBC a'i allbwn mewn ffordd uchelgeisiol er mwyn gwasanaethu cynulleidfaoedd y dyfodol mewn ffordd llawer mwy dynamig na rhaglennu llinol traddodiadol. O dan yr amodau ariannol presennol, byddai wedi bod yn hawdd i ni ymateb drwy gyfyngu ar ein huchelgais i ddarparu rhaglennu mwy creadigol ac arloesol, neu gwtogi ar ein hamrywiaeth o sianelau teledu a radio, neu wneud toriadau i'n rhaglen fuddsoddi drawsnewidiol mewn seilwaith a fydd yn ein galluogi i ddarparu allbwn o ansawdd uchel dros y 25 mlynedd nesaf.

Er hynny, rydym wedi parhau i symud i'r un cyfeiriad ag y gwnaethpwyd o'r cychwyn wrth ddechrau rhoi cynlluniau ar waith i fynd i'r afael â'r prif fater, sef adfer y diffyg yn y cynllun pensiwn. Mae ein datganiadau ariannol, a'r fantolen yn benodol, yn dangos cyflwr sylfaenol y BBC a llwyddiant ein strategaeth fuddsoddi, hyd yn hyn.



Mae'r ystafell newyddion amlgyfrwng yn y Ganolfan Deledu yn dwyn ynghyd ffynonellau newyddiadurol gwahanol er mwyn sicrhau y gall pob un o allfeydd a gwasanaethau newyddion y BBC ar bob llwyfan ymateb i heriau byd digidol ar alw.

## Arbedion effeithlonrwydd fesul categori

| Categori | % o gyfanswm yr arbedion |
|---|---|
| **Pobl**<br>Ailbennu ffocws er mwyn sicrhau bod y cymysgedd cywir o bobl ar gael i barhau i ddarparu allbwn nodedig a werthfawrogir gan gynulleidfaoedd. Rydym yn ymrwymedig i leihau gwariant ar dalent mewn termau real. | 13% |
| **Cynhyrchu a gwella prosesau**<br>Defnyddio technoleg arloesol i wella'r ffordd rydym yn gwneud pethau a lleihau costau ym mhob un o'n gweithrediadau, o amserlennu i ffilmio. | 29% |
| **Caffael a chontractau**<br>Rhyddhau arian ar gyfer rhaglenni a chynnwys gan wneud arbedion drwy swmp-brynu, cynnig gwaith ar gontractau allanol ac ailnegodi contractau. | 23% |
| **Eiddo a thechnoleg**<br>Trawsnewid y ffordd rydym yn gweithio, er enghraifft drwy ddefnyddio dulliau digidol, di-dâp i gynhyrchu cynnwys aml-lwyfan yn fwy effeithlon nag erioed o'r blaen. | 7% |
| **Canolbwyntio ar ansawdd y cynnwys**<br>Mae *Rhoi Ansawdd yn Gyntaf* yn adeiladu ar ein rhaglen effeithlonrwydd bresennol, gyda ffocws golygyddol ar allbwn gwreiddiol o'r ansawdd gorau sy'n cael yr effaith fwyaf ar gynulleidfaoedd | 28% |

## Mae'r enghreifftiau canlynol yn rhoi syniad o sut a ble y gwnaethom rai o'n harbedion effeithlonrwydd parhaus eleni:

### Arbed heddiw, cynllunio ar gyfer yfory

Yn ystod 2010/11, gwnaeth radio rhwydwaith y BBC rai newidiadau ymarferol uniongyrchol i'r modd y caiff ei strwythuro, gan ddileu achosion o ddyblygu a gwella effaith ym mhob rhan o'r is-adran – er budd ein cynulleidfaoedd. Er enghraifft, bellach mae ganddo un uned Digwyddiadau Byw, siop-un-stop lle y gellir rhannu a dod o hyd i gymorth ac adnoddau arbenigol yn hawdd.

Cynhaliodd yr un cydweithwyr nifer o astudiaethau hefyd i nodi cyfleoedd i sicrhau arbedion effeithlonrwydd newydd ac arbedion effeithlonrwydd yn y dyfodol – gan gynnwys arolwg allanol a oedd yn meincnodi gweithrediadau radio cerddoriaeth y BBC yn erbyn y sector masnachol, ac astudiaeth a oedd yn cymharu prisiau rhaglenni ar draws rhwydweithiau radio'r BBC. Rhoddodd y ddwy astudiaeth ddealltwriaeth wirioneddol o arferion cyfredol y BBC a byddant yn helpu i gyflawni gwelliannau cynaliadwy.

### Sicrhau buddiannau parhaus

Er bod contractau hirdymor yn cynnig llawer o fuddiannau, gall newidiadau dramatig yn yr amgylchedd economaidd olygu bod angen rhywfaint o aildrafod. Mae'r dirywiad economaidd dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf a'r ffaith bod ffi'r drwydded wedi'i rhewi wedi rhoi cyfle i ni ailnegodi rhai contractau gyda chyflenwyr a chynnig mwy o werth i dalwyr ffi'r drwydded.

Er enghraifft, gyda gweithrediadau sy'n amrywio o arlwyo i adeiladu, llefydd parcio i lanhau, mae BBC Workplace yn rheoli rhai o'n contractau mwyaf. Yn ystod 2010/11, negododd newid i'r darpariaethau chwyddiant cytundebol (o ddarpariaethau yn seiliedig ar yr RPI i ddarpariaethau yn seiliedig ar y CPI) ac ymgorfforodd ostyngiadau gwarantedig mewn taliadau i ddau gontract gyda darparwyr gwasanaeth. Arweiniodd hyn at arbedion ychwanegol o £1.3miliwn dros y flwyddyn, gwerth tua £7.0miliwn hyd at ddiwedd cyfnod presennol ffi'r drwydded.

### Penawdau'r newyddion

Y llynedd, gwelwyd ein blwyddyn lawn gyntaf o arbedion yn sgîl cyflwyno system ddarlledu newydd ar gyfer y sianel BBC Parliament, sy'n ymroddedig i ddarlledu gwleidyddiaeth o'i Phencadlys yn Millbank, San Steffan. Yn sgîl cyflwyno'r system newydd, cafodd nifer o dasgau allweddol eu hawtomeiddio a hwyluswyd y broses o integreiddio â'r gweithrediadau sy'n ategu'r wefan *Democracy Live*. Gyda'i gilydd, arweiniodd y ffyrdd gwahanol hyn o weithio at arbedion sylweddol o gymharu â'r contract trydydd parti ar wahân blaenorol ar gyfer darlledu sianel BBC Parliament.



### Atebion creadigol

Mae gan genres rhaglenni teledu gwahanol ffyrdd gwahanol o weithio, ac ni ellir cymhwyso'r un ateb i broblem bob amser.

Oherwydd costau stiwdio a gorbenion mawr, mae nifer uwch o gytundebau a chytundebau hirdymor neu swmp-gytundebau yn golygu y gellir rheoli costau cyfresi adloniant yn well, a lleihau cost gyfartalog rhaglenni yn effeithiol. Mae trefniadau swmp-gomisiynu wedi'u defnyddio hefyd i leihau costau cyfartalog rhaglenni drama (oherwydd cost ymylol isel penodau ychwanegol) ac wedi sicrhau arbedion ar sioeau megis *The Armstrong and Miller Show* (llun).

Mae ffilmio penodau drama gyda'i gilydd mewn blociau wedi lleihau amser paratoi, ac felly gostau, sydd wedi'u lleihau ymhellach drwy addasu strwythurau a lefelau'r criw.

Gwelwyd rhai o'r arbedion effeithlonrwydd mwyaf ym maes comisiynu meysydd ffeithiol sy'n dychwelyd. Er enghraifft, mae *The Antiques Roadshow* bellach yn rhaglen 60 munud (50 munud yn 2007/08), sy'n golygu y gellir darparu cynnwys ychwanegol a fyddai wedi'i dorri yn flaenorol a mwy o werth i'r gynulleidfa heb fawr ddim mewnbwn pellach ac heb unrhyw effaith negyddol ar ansawdd y rhaglen.

*The Armstrong and Miller Show.*

Trosolwg ariannol, parhad/…

## Datganiad incwm cyfunol cryno

Am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2011

| | 2011 £m | 2010 £m |
|---|---|---|
| Incwm o ffi'r drwydded | **3,513** | 3,447 |
| Incwm arall | **1,480** | 1,343 |
| **Cyfanswm incwm** | **4,993** | 4,790 |
| Costau gweithredu (ac eithrio costau ailstrwythuro ac incwm pensiwn eithriadol) | **(4,789)** | (4,541) |
| Incwm pensiwn eithriadol | **250** | 334 |
| Costau ailstrwythuro | **(63)** | (62) |
| **Cyfanswm y costau gweithredu** | **(4,602)** | (4,269) |
| Cyfran o ganlyniadau partneriaethau cyswllt a chyd-fentrau | **27** | 37 |
| Ennill o werthu gweithrediadau a gwaredu asedau sefydlog | **96** | 41 |
| Treth, llog a chostau ariannu | **(31)** | (122) |
| **Gwarged y grŵp am y flwyddyn** | **483** | 477 |

Mae'r gwaith o gasglu **ffi'r drwydded** mewn ffordd effeithiol ac effeithlon wedi cynnal incwm er bod twf cartrefi yn parhau i fod yn is na lefelau hanesyddol

Mae **incwm arall** – yn bennaf o'r grŵp masnachol – i fyny 10% gyda thwf cryf yng ngwerthiannau BBC Worldwide

Mae **costau gweithredu** yn adlewyrchu gwerthiannau uwch yn BBC Worldwide. Mae costau hefyd yn adlewyrchu blwyddyn fawr yn y byd chwaraeon a darllediadau o'r Etholiad Cyffredinol a digwyddiadau'r byd

Mae'r **incwm pensiwn eithriadol** yn adlewyrchu'r newid ym muddiannau'r cynllun a gyhoeddwyd yn ystod 2010/11, sydd wedi'i wrthbwyso'n rhannol gan gost ymddeoliadau cynnar a diswyddiadau

Mae a wnelo'r **enillion** eleni â'r penderfyniad gan BBC Worldwide i gael gwared ar *Animal Planet*

## Datganiad incwm a gwariant

Mae'r gwaith o reoli ein heriau ariannol diweddar a'r paratoadau sydd wedi'u rhoi ar waith ar gyfer y dyfodol yn cael eu hadlewyrchu'n helaeth yng nghanlyniad y grŵp, sef gwarged o £483miliwn. Gwnaethpwyd ennill actiwaraidd o £250miliwn o ganlyniad uniongyrchol i ddiwygiadau pensiwn sylweddol i leihau ein costau pensiwn parhaus; a gwnaethpwyd elw o £96miliwn o waredu *Animal Planet* wrth i ni symud i ganolbwyntio ein gweithgareddau masnachol ar sianelau a llwyfannau â brand y BBC. Ar ôl caniatáu ar gyfer y ddwy eitem hyn, roedd gwarged sylfaenol y grŵp am y flwyddyn yn £137miliwn (2.7% o'n hincwm), yn unol â'n nod cyffredinol o sicrhau bod ein hincwm a'n costau yn cyfateb dros gyfnod ffi'r drwydded.

Ffi'r drwydded yw ein ffynhonnell incwm unigol fwyaf a, thrwy gasglu'r ffi mewn modd effeithlon ac effeithiol, rydym wedi gweld cynnydd o £66miliwn eleni. Yn ogystal â'r incwm hwn, rydym yn manteisio'n fasnachol ar gynnwys a ariennir gan ffi'r drwydded drwy ein his-gwmnïau masnachol – BBC Worldwide yn bennaf, ond gwelwyd mwy o gyfraniad gan BBC World News a BBC S&PP eleni hefyd.

Er gwaethaf amodau anodd yr amgylchedd masnachu ehangach, mae cyfanswm y refeniw masnachol wedi cynyddu 13% o gymharu â'r llynedd, gyda chynnydd o 68% mewn elw cyn llog a threth – wedi'i hybu gan y penderfyniad i gael gwared ar *Animal Planet* am £96miliwn wrth i'r BBC barhau i ganolbwyntio ar sianelau a llwyfannau â brand y BBC.

Mae BBC Worldwide wedi cyflawni ei werthiannau gros mwyaf erioed o £1,158miliwn, sy'n gynnydd o 8%. Mae amrywiaeth parhaus ei bortffolio o fusnesau wedi ei alluogi i oresgyn y duedd mewn llawer o farchnadoedd a chynhyrchu elw cryf, gydag elw gweithredu cyn eitemau penodol i fyny 10%.

O ganlyniad i'w weithgareddau yn 2010/11, cyfrannodd BBC Worldwide £182miliwn i'r BBC o ddifidendau a buddsoddiad mewn rhaglennu yn bennaf – cynnydd o 9% o gymharu â'r llynedd. Yn y dyfodol, bydd BBC Worldwide yn parhau i fuddsoddi mewn rhaglennu da, ehangu rhyngwladol, twf ei fusnesau sianelau a chyfleoedd digidol newydd i danio economi greadigol y DU.

Yn ystod y flwyddyn, dibrisiodd BBC Worldwide werth cario ei fuddsoddiad *Lonely Planet* £34miliwn o ganlyniad i gryfder parhaus doler Awstralia – ar ei huchaf ers 27 mlynedd yn erbyn sterling – ac amodau heriol y farchnad sy'n wynebu'r busnes.

Llwyddodd BBC World News i gynnal enw da rhyngwladol y BBC am newyddiaduraeth o safon uchel a chyflawnodd elw gweithredu am y tro cyntaf eleni gyda chynnydd mewn gwerthiannau a lleihad mewn costau – yn benodol, gwelwyd adferiad mewn gwerthiannau hysbysebu ar ôl dirwasgiad y flwyddyn flaenorol a gwelwyd cynnydd mewn gwerthiannau, er bod gwendid parhaus sterling yn rhannol gyfrifol am hynny.

Er gwaethaf amodau anodd yn y farchnad, perfformiodd BBC S&PP yn dda, gan sicrhau elw gweithredu cyn ailstrwythuro o £6miliwn. Dyma'i elw gweithredu mwyaf ers iddo gael ei gorffori. Daeth BBC S&PP â'i fusnes Chwaraeon a Phlant i ben hefyd gan fod y gweithgarwch hwn yn cael ei drosglwyddo i Salford.

Mae'r Ymddiriedolaeth, ar ran talwyr ffi'r drwydded, yn craffu ar y ffordd rydym yn gwario'r refeniw hwn ac yn sicrhau nad yw ein rôl proffil uchel yn y sector yn niweidio'r diwydiant. Ymhlith y dulliau a ddefnyddir gan yr Ymddiriedolaeth i fonitro ein perfformiad mae Trwyddedau Gwasanaeth – rydym yn cytuno ar Gyllideb Sylfaenol ar gyfer pob un o'n 28 o brif wasanaethau ac yn cyflwyno adroddiadau yn erbyn y gyllideb honno o fewn goddefiant o 10% yn uwch neu'n is.

Mae alldro llawn ein gwariant ar gynnwys yn ôl gwasanaeth yn dangos, drwy ein rhaglen effeithlonrwydd, ein bod fwy neu lai'n mynd i'r un gost am ddarparu allbwn â'r llynedd, ac mae hyn yn cynnwys ariannu cost darllediadau o'r Etholiad Cyffredinol a Chwpan y Byd FIFA yn Ne Affrica. Rydym wedi gallu gwneud hyn drwy reoli ein sail costau yn dynn, er enghraifft gyda chostau staff, lle rydym wedi cadw unrhyw godiadau cyflog islaw'r gyfradd chwyddiant unwaith eto.

Rydym wedi gweld cynnydd ymylol iawn yn nifer y staff sy'n gweithio i wasanaethau a ariennir gan ffi'r drwydded (o 17,238 i 17,242 o bobl cyfwerth ag amser llawn) a gostyngiad o 4% ym mil cyflogau staff eleni, sy'n adlewyrchu'r ffocws parhaus ar ostwng lefelau staff parhaol.

## Cyfanswm gwariant gweithredu ar wasanaethau cyhoeddus y DU

| Gwasanaeth 2011 | Cynnwys £m | Dosbarthu £m | Seilwaith/ cymorth £m | **Cyfanswm 2011 £m** | Cyfanswm 2010 £m |
|---|---|---|---|---|---|
| BBC One | 1,130.9 | 50.8 | 221.2 | **1,402.9** | 1,373.6 |
| BBC Two | 421.0 | 21.0 | 86.3 | **528.3** | 575.6 |
| BBC Three | 84.7 | 3.9 | 21.5 | **110.1** | 118.6 |
| BBC Four | 50.8 | 2.9 | 13.4 | **67.1** | 74.0 |
| CBBC* | 78.3 | 3.2 | 17.8 | **99.3** | 57.1 |
| CBeebies* | 28.5 | 3.3 | 7.9 | **39.7** | 28.7 |
| BBC HD | 2.1 | 8.2 | 1.5 | **11.8** | 10.9 |
| BBC ALBA | 5.0 | 1.5 | 1.1 | **7.6** | 6.1 |
| Sianel BBC News | 47.1 | 6.2 | 7.8 | **61.1** | 64.0 |
| BBC Parliament | 2.0 | 4.7 | 1.3 | **8.0** | 10.3 |
| BBC Red Button | 14.9 | 19.5 | 5.1 | **39.5** | 39.3 |
| **Teledu** | **1,865.3** | **125.2** | **384.9** | **2,375.4** | 2,358.2 |
| BBC Radio 1 | 36.7 | 4.8 | 6.6 | **48.1** | 43.8 |
| BBC 1Xtra | 7.4 | 1.2 | 2.4 | **11.0** | 10.1 |
| BBC Radio 2 | 46.7 | 4.9 | 7.6 | **59.2** | 53.2 |
| BBC Radio 3 | 37.3 | 4.9 | 8.5 | **50.7** | 54.7 |
| BBC Radio 4 | 92.8 | 9.9 | 17.1 | **119.8** | 112.7 |
| BBC Radio 4 Extra | 5.3 | 1.1 | 1.8 | **8.2** | 7.8 |
| BBC Radio 5 Live | 55.4 | 6.2 | 11.3 | **72.9** | 72.7 |
| BBC Radio 5 Live Sports Extra | 2.5 | 1.1 | 1.3 | **4.9** | 4.9 |
| BBC 6Music | 7.3 | 1.2 | 2.3 | **10.8** | 10.0 |
| BBC Asian Network | 8.6 | 1.4 | 2.6 | **12.6** | 12.9 |
| Radio Lleol y BBC | 114.8 | 10.1 | 22.6 | **147.5** | 141.5 |
| BBC Radio Scotland | 23.8 | 3.3 | 5.3 | **32.4** | 33.1 |
| BBC Radio nan Gàidheal | 3.8 | 1.4 | 0.9 | **6.1** | 6.3 |
| BBC Radio Wales | 13.0 | 1.2 | 2.8 | **17.0** | 16.7 |
| BBC Radio Cymru | 11.8 | 1.6 | 2.7 | **16.1** | 15.9 |
| BBC Radio Ulster/BBC Radio Foyle | 16.2 | 1.8 | 3.6 | **21.6** | 18.9 |
| **Radio** | **483.4** | **56.1** | **99.4** | **638.9** | 615.2 |
| **BBC Ar-lein** | 125.8 | 21.1 | 47.3 | **194.2** | 199.3 |
| **Gwariant wedi ei reoleiddio gan drwydded gwasanaeth** | **2,474.5** | **202.4** | **531.6** | **3,208.5** | 3,172.7 |

* Newidiodd y fethodoleg ar gyfer pennu gwariant ar gynnwys CBBC a CBeebies yn 2010/11, yn dilyn arolwg Ymddiriedolaeth y BBC o wasanaethau plant yn 2009. Mae'r holl wariant ar wasanaethau plant bellach yn cael ei ddyrannu naill ai i CBBC neu CBeebies, gan gynnwys y gyfran a ddyrannwyd yn flaenorol i BBC One a BBC Two.

Y strategaeth *'mwy am lai'* sy'n creu pwysau ar i lawr ar linellau sylfaen trwyddedau gwasanaeth. Ar ddiwedd y flwyddyn, roedd un drwydded gwasanaeth o dan ei oddefiant o 10% – roedd BBC 1Xtra, a gyflawnodd arbedion drwy sicrhau mwy o synergeddau â'i chwaer orsaf, BBC Radio 1 a sawl un arall yn agos at y nod o 10% wrth i effeithlonrwydd ac arbedion gael eu cyflawni. Er hynny, rydym yn ofalus i sicrhau na chyflawnir yr arbedion hyn ar draul ansawdd ac rydym yn monitro ymateb y gynulleidfa i'n hallbwn yn ofalus er mwyn sicrhau ein bod yn parhau i ddarparu gwerth.

Mae'r costau cynyddol yr eir iddynt gan BBC Radio 1 a BBC Radio 2 yn adlewyrchu eu llwyddiant o ran denu cynulleidfaoedd mwy o faint gan gynyddu felly eu dyraniad o gostau hawlfraint cerddoriaeth a lleihau dyraniadau cyfatebol gwasanaethau eraill.

Mae'r rheolwyr yn ymrwymedig i leihau cyllideb BBC Ar-lein 25% ac maent bellach wedi cytuno ar gynlluniau gyda'r Ymddiriedolaeth i gyflawni'r arbediad hwn dros y tair blynedd nesaf.



Mae ein cerddorfeydd (fel Cerddorfa Genedlaethol Gymreig y BBC, a ddangosir) a'n cantorion wedi'u lleoli ledled y DU, ac maent yn gweithio ymhlith cymunedau a grwpiau lleol yn ogystal â chymryd eu lle teilwng ar y llwyfan byd-eang. I gael rhagor o wybodaeth ewch i www.bbc.co.uk/orchestras/.




Mae tîm *In Your Corner* yn teithio o amgylch Gogledd Iwerddon yn chwilio am y straeon sy'n effeithio ar bobl gyffredin ar y stryd.

## Cyfanswm gwariant y BBC

| 2011 | Cynnwys £m | Dosbarthu £m | Seilwaith/ cymorth £m | Eitemau eraill £m | **Cyfanswm 2011 £m** | Cyfanswm 2010 £m |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Gwariant wedi ei reoleiddio gan drwydded gwasanaeth** | 2,474.5 | 202.4 | 531.6 | – | 3,208.5 | 3,172.7 |
| **Gwariant arall UK PSB** | | | | | | |
| Costau casglu ffi'r drwydded | – | – | – | 123.6 | 123.6 | 126.5 |
| Cerddorfeydd a grwpiau perfformio | 20.2 | – | 3.9 | – | 24.1 | 24.1 |
| S4C | 26.9 | – | 5.3 | – | 32.2 | 36.6 |
| Gwariant datblygu | 27.6 | – | 5.3 | – | 32.9 | 37.1 |
| Costau yr aed iddynt i gynhyrchu incwm trydydd parti | – | – | – | 64.6 | 64.6 | 41.5 |
| **Cyfanswm gwariant arall UK PSB** | 74.7 | - | 14.5 | 188.2 | 277.4 | 265.8 |
| Costau ailstrwythuro | – | – | – | 29.6 | 29.6 | 36.9 |
| **Cyfanswm gwariant gwasanaethau cyhoeddus y DU** | 2,549.2 | 202.4 | 546.1 | 217.8 | 3,515.5 | 3,475.4 |
| Newid i ddigidol (Digital UK Limited) | – | – | – | 25.0 | 25.0 | 29.2 |
| Newid i ddigidol (DSHS Limited) | – | – | – | 55.3 | 55.3 | 55.6 |
| **Cyfanswm gwariant Grŵp UK Public Service Broadcasting** | 2,549.2 | 202.4 | 546.1* | 298.1 | 3,595.8 | 3,560.2 |

* Mae costau seilwaith a chymorth yn cynnwys gwariant ar gymorth dysgu a digwyddiadau cymunedol, marchnata, y wasg a chyhoeddusrwydd, Uned Ymddiriedolaeth y BBC (£14.0miliwn (2010: £13.9miliwn)) a gorbenion eraill ac eithrio ailstrwythuro.

## Mantolen gryno

am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2011

| | 2011 £m | 2010 £m |
|---|---|---|
| Asedau anghyfredol | **1,947** | 1,533 |
| Asedau cyfredol | **2,082** | 2,242 |
| Rhwymedigaethau cyfredol | **(1,344)** | (1,498) |
| Rhwymedigaethau anghyfredol (ac eithrio pensiynau) | **(1,357)** | (1,084) |
| Asedau net (ac eithrio pensiwn) | **1,328** | 1,193 |
| Rhwymedigaeth pensiwn net | **(927)** | (1,647) |
| Asedau/(rhwymedigaethau) net | **401** | (454) |
| Cynrychiolir gan | | |
| Cronfeydd wrth gefn y BBC | **394** | (470) |
| Buddiannau heb reolaeth | **7** | 16 |
| | **401** | (454) |

Mae'r gwaith adnewyddu a gwblhawyd ar y Ganolfan Ddarlledu wedi arwain at gynnydd mewn **asedau anghyfredol** a gostyngiad mewn **asedau cyfredol** wrth i'r gwerth rhagdaledig gael ei gyfalafu. Mae cydnabyddiaeth o'r rhwymedigaeth prydlesau cyllidol yn arwain at gynnydd mewn rhwymedigaethau

Mae'r prisiad o rwymedigaethau net y **cynllun pensiwn** yn adlewyrchu newidiadau i fuddiannau'r cynllun, y taliadau ar gyfer lleihau'r diffyg a newidiadau i brisiad asedau ar y farchnad

### Y fantolen – offer, eiddo a chyfarpar

Mae cipolwg cyflym ar y newid yn ein mantolen o'r llynedd yn dangos cynnydd yng ngwerth ein hasedau anghyfredol, yn enwedig ein hoffer, eiddo a chyfarpar, h.y. yr asedau rydym yn dibynnu arnynt i wneud a dosbarthu rhaglenni.

Y prif reswm dros y cynnydd yw'r ffaith bod un o brif ddatblygiadau'r BBC sef adnewyddu'r Ganolfan Ddarlledu yn Llundain wedi'i gwblhau, a hynny cyn y dyddiad disgwyliedig ac yn unol â'r gyllideb. Yr adeilad hwn, ynghyd â Pacific Quay yn Glasgow, MediaCityUK yn Salford a Phentref Drama Porth y Rhath ym Mae Caerdydd (bydd y ddau safle olaf yn dod yn weithredol y flwyddyn nesaf) yw conglfeini ein strategaeth i drawsnewid y ffordd rydym yn gweithio, ac i symud y BBC allan o Lundain. Dim ond pan fydd y Ganolfan Ddarlledu yn dod yn gwbl weithredol yn 2011/12 y bydd y dibrisiant yn dechrau.

Mi fydd hi'n anodd gadael y Ganolfan Deledu (fel y cyhoeddwyd ar gyfer 2015) ond mae angen buddsoddiad sylweddol ar yr adeilad ac mae'n dod yn llai ac yn llai addas o ran y ffordd y caiff rhaglenni eu gwneud nawr. Mae ein hadeiladau newydd yn cynrychioli buddsoddiadau sylweddol i wella trefniadau cydweithredol creadigol a gwaith ar wahanol lwyfannau. Mae'r buddsoddiad hwn hefyd yn fodd i ailddosbarthu ein seilwaith ledled y DU er mwyn sicrhau bod 50% o'r gwariant ar deledu rhwydwaith yn digwydd y tu allan i Lundain erbyn 2016.

Er bod ein sylfaen asedau parhaol wedi cynyddu £414miliwn eleni, byddwn yn sicrhau arbedion cost yn y dyfodol drwy ddefnyddio gofod, pobl ac amser yn fwy effeithlon ac ehangu ein deialog â chynulleidfaoedd ledled y DU, canfod a meithrin talent newydd a sicrhau bod cyfleoedd cynhyrchu ar gael y tu hwnt i'r M25. Mae'r buddiannau hyn yn cyfiawnhau ein penderfyniad i barhau â'r prosiectau hyn er gwaethaf y risgiau a'r pwysau economaidd ychwanegol.

### Rhwymedigaeth pensiwn

Dangosodd y prisiad o'n cynllun pensiwn y llynedd ddiffyg o £1,647miliwn ac roedd hi'n amlwg bod angen mynd i'r afael â'r sefyllfa. O ganlyniad i berfformiad cryfach gan fuddsoddiadau'r cynllun, diwygiadau pensiwn a thaliad adfer diffyg cychwynnol a wnaed i'r cynllun yn 2010/11, mae'r cynllun wedi gwneud cynnydd sylweddol i adfer y diffyg. Ar 31 Mawrth 2011, mae'r diffyg wedi lleihau £720miliwn (44%) i £927miliwn.

Mae tri phrif reswm dros y gwelliant hwn:

#### Cwtogi ar bensiynau

Yn ystod y flwyddyn, cyhoeddwyd cynlluniau i ddiwygio buddiannau pensiwn aelodau gweithredol o'r cynllun a lleihau cost buddiannau yn cronni yn y dyfodol. Cyfrifir y bydd ennill o £250miliwn yn seiliedig ar gamau gweithredu disgwyliedig y sawl sy'n cymryd rhan yn y cynllun.

#### Ennill actiwaraidd ar gynlluniau pensiwn buddiannau diffiniedig

Gwelwyd ennill net o £304miliwn yn y flwyddyn o ganlyniad i gynnydd yn y marchnadoedd ecwiti, a newidiadau yn y tybiaethau demograffeg allweddol.

#### Taliadau ychwanegol

Rydym wedi cytuno ar *Gynllun Lleihau Diffyg* gydag Ymddiriedolwyr y Cynllun sydd, ar ôl gwneud taliad cychwynnol o £110miliwn yn 2010/11, yn caniatáu ar gyfer taliadau blynyddol o rhwng £60miliwn a £100miliwn dros y deng mlynedd hyd at 2021/22 ar lefelau yr ystyrir eu bod yn fforddiadwy ac nad ydynt yn peryglu cynnwys rhaglenni a buddsoddiadau eraill yn ormodol.

## Datganiad llif arian parod cyfunol cryno

am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2011

| | 2011 £m | 2010 £m |
|---|---|---|
| Mewnlif arian parod net o weithgareddau gweithredu | **475** | 441 |
| All-lif arian parod net o weithgareddau buddsoddi | **(149)** | (147) |
| All-lif arian parod net o weithgareddau ariannu | **(110)** | (144) |
| Cynnydd net mewn arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod | **216** | 150 |
| Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod ar ddechrau'r flwyddyn | **264** | 124 |
| Effaith newidiadau yn y gyfradd gyfnewid dramor ar arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod | **(1)** | (2) |
| Arian parod a ddosberthir yn arian a ddelir i'w werthu a chronfeydd cyfyngedig | **34** | (8) |
| Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod ar ddiwedd y flwyddyn | **513** | 264 |


**Gwarged weithredu'r** grŵp ac eithrio dibrisiant, ond yn cynnwys newidiadau mewn cyfalaf gweithio

Ychwanegu a gwaredu **asedau llai llog** a enillwyd

**Llog a dalwyd** a **phrydlesau cyllidol** yr ymrwymwyd iddynt

Mae ffigur 2011 yn cynrychioli:
£266m – tanwariant digidol
£69m – cwmnïau masnachol
£178m – Gwasanaethau'r DU a Gwasanaethau nad ydynt yn y DU

### Symudiadau mewn arian parod £m




* Yn cynnwys tanwariant o £132miliwn ar Newid i Ddigidol ar ddechrau'r flwyddyn.

### Arian parod

Rydym yn ceisio sicrhau bod yr arian parod a gesglir oddi wrth dalwyr ffi'r drwydded yn cyfateb i'r rhaglenni a'r gwasanaethau a ddarparwn bob amser. Fodd bynnag, eleni, mae gennym swm sylweddol o arian parod ar gadw, a hynny am dri rheswm da iawn:

### Newid i Ddigidol

Mae £266miliwn o'r arian parod ar ddiwedd y flwyddyn yn arian a gasglwyd gennym i ariannu'r broses o newid i ddigidol. Mae hyn yn adlewyrchu'r cyfraddau sylweddol is a fanteisiodd ar y cymorth a gynigiwyd i newid i ddigidol o gymharu â'r hyn a dybiwyd i ddechrau, ynghyd ag arbedion effeithlonrwydd wrth gaffael contractau. Mae £32miliwn o'r arian parod a arbedwyd hyd yma eisoes wedi'i ad-dalu i DCMS a disgwyliwn ad-dalu swm sylweddol mwy dros y flwyddyn nesaf.

### Buddsoddi yn ein seilwaith

Fel y nodais uchod, rydym yn buddsoddi yn ein seilwaith cynhyrchiol ledled y DU. Mae'r rhain yn brosiectau mawr sy'n ymestyn dros nifer o flynyddoedd ac mae'r galwadau o ran arian parod yn amrywio o flwyddyn i flwyddyn. Felly, mae arian parod wedi'i neilltuo nawr i ariannu'r prosiectau hyn hyd at eu terfyn. Rydym hefyd yn wynebu'r her o symud 1,600 o swyddi o Lundain i Salford. Dechreuodd y broses honno ym mis Mai 2011 ac fe'i cwblheir ym mis Rhagfyr ar gost wedi'i chyllidebu o £74miliwn.

### Adfer diffyg y cynllun pensiwn

Fel y nodwyd uchod, rydym wedi cytuno ar gynllun lleihau diffyg gydag ymddiriedolwyr y cynllun ac wedi gwneud darpariaethau ariannol i dalu'r £120miliwn sy'n ddyledus hyd at 2013.

Wrth i'r pwysau hyn grisialu a chynyddu yn sgîl yr heriau ariannol sy'n deillio o'r ffaith bod setliad ffi'r drwydded wedi'i rewi o'r flwyddyn hon ymlaen a'r amgylchedd chwyddiant ehangach, bydd balans arian parod y BBC yn lleihau'n gyflym.

1


2


Bu'n flwyddyn bwysig i raglennu gwyddoniaeth ar deledu'r BBC – diolch i syniadau creadigol llwyddwyd i gyflawni targedau effeithlonrwydd presennol a chyflwyno newidiadau cynaliadwy mewn arferion gwaith.

1 Bu cyflwynydd y rhaglen *Bang Goes the Theory*, Liz Bonnin, yn darlledu o Hawaii ar gyfer *Stargazing Live*, gan siarad ag amrywiaeth o arbenigwyr dros y tair rhaglen. Manteisiodd tîm cynhyrchu Bang… ar y cyfle i weithio ar ddwy stori berthnasol ar gyfer y rhaglen honno, gan gwblhau mewnosodiadau ffilm na fyddent wedi bod yn fforddiadwy fel arall. Rhannodd timau *Bang…* a *Stargazing* yr holl staff ar leoliad, a manteisiodd y ddau dîm ar y defnydd gwell a wnaed o amser gwerthfawr y cyflwynydd, gan sicrhau arbedion ar gostau lleoliad a theithio.

2 Aeth *Horizon* ati i wella effeithlonrwydd ei chymysgedd staffio fel bod y ddau Gynhyrchydd a oedd yn gyfrifol am y Gyfres yn cyflawni'r rhan fwyaf o rôl y cynhyrchydd datblygu, yn gwneud mwy o ddefnydd o system olygu FCP bwrdd gwaith er mwyn lleihau costau ôl-gynhyrchu ac – fel y nifer cynyddol o dimau ffeithiol eraill fel *The One Show* – yn ffilmio mwy o'r deunydd eu hunain, gan leihau nifer y staff yr oedd ei angen i ffilmio. Drwy ddefnyddio cyfuniadau gwahanol o fentrau, sicrhawyd arbedion sylweddol heb effeithio ar ansawdd y rhaglen.

3 *The One Show*.

## Gwneud y gorau o'n hincwm – casglu ffi'r drwydded mewn ffordd sensitif

Rwy'n ymwybodol iawn o'r ymddiriedaeth unigryw sydd gan dalwyr ffi'r drwydded yn y BBC, ac mae hyn yn golygu bod gennym gyfrifoldebau pwysig: defnyddio'r arian yn dda a'i wario ar y pethau pwysig, defnyddio'r arian yn effeithlon ac, yn olaf, gwneud yn siŵr bod pawb a ddylai dalu yn talu. Mae osgoi talu yn gwbl annheg ac yn cosbi'r rheini sydd yn talu.

O fewn yr egwyddorion hyn, rydym wedi parhau i wella ein gwasanaethau casglu – drwy gynnig gwahanol ffyrdd o dalu; gwella opsiynau hunanwasanaeth ar y we; defnyddio deunydd marchnata wedi'i dargedu'n well a gohebiaeth atgoffa a chamau dilynol cynharach pan na chaiff trwyddedau eu hadnewyddu.

Yn ystod y flwyddyn hon, mae'r gostyngiad a welwyd yng nghyfradd twf incwm ffi'r drwydded y llynedd wedi pylu wrth i dwf cartrefi ddechrau dangos arwyddion o adferiad. Hefyd, er gwaethaf pwysau'r dirwasgiad ar yr economi, mae'r gyfradd osgoi talu wedi parhau'n sefydlog. Mae incwm yn uwch na'r llynedd, a gellir priodoli hynny i'r cynnydd yng nghost Trwydded Deledu. Dyma'r tro olaf y caiff y ffi ei chodi dros y pum mlynedd nesaf o dan y setliad y cytunwyd arno â'r llywodraeth.

3



Hyd yn oed mewn amgylchedd casglu anodd, mae'r gost casglu yn is na'r llynedd ac mae'r gost fesul £1 a gesglir yn is, sef 3.4c. Mae tystiolaeth bod pobl yn ffafrio dulliau electronig o dalu gan fod trafodion hunanwasanaeth ar ein gwefan wedi cynyddu i 54% a thelir am tua 68% o drwyddedau bellach drwy ddebyd uniongyrchol.

Rydym wedi parhau i ganolbwyntio ar weithgarwch gorfodi ac wedi cymryd camau dilynol cynharach pan na chaiff trwyddedau eu hadnewyddu neu pan na thelir taliadau debyd uniongyrchol. Ond, ochr yn ochr â hyn, rydym wedi gallu cynnig ffyrdd hyblyg o dalu drwy'r cynlluniau arian parod ac, er bod y gweithgarwch hwn yn ddrud o'i gymharu ag adnewyddu trwyddedau drwy ddebyd uniongyrchol, mae dal yn ffordd gost-effeithiol o ddiogelu ein hincwm. At hynny, credaf fod y dull hwn o weithredu yn rhesymol ac yn deg, barn a gefnogir gan y ffaith bod nifer y cwynion a gofnodwyd 20% yn is eleni, sef llai nag 1% o'r trwyddedau sydd mewn grym.

Eleni, mewn cydweithrediad â Harris, asiantaeth pôl piniwn sydd ag enw da yn fyd-eang, rydym wedi dechrau cynnal Mynegai Enw Da er mwyn olrhain agwedd pobl Prydain tuag at y modd y cesglir ffi'r drwydded. Yn ystod y flwyddyn, mae'r mynegai hwn wedi cynyddu o 100 i 102.

Am y tro cyntaf eleni, mae'r BBC yn cyhoeddi Datganiad gan yr Ymddiriedolaeth sy'n datgelu'n benodol yr holl incwm o ffi'r drwydded a gesglir ac a delir i Drysorlys EM. Archwilir y datganiad gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol.

1


2


## Sicrhau bod ffi'r drwydded yn gweithio'n galetach – stori effeithlonrwydd

Mae edrych ar yr hyn a wnawn a'r ffordd rydym yn gwneud hynny wedi dod yn rhan o'r ffordd y mae'r BBC yn gweithredu ers i'r rhaglen *Gwerth am Arian* gael ei lansio yn 2005. Rydym bellach yn nhrydedd flwyddyn rhaglen pum mlynedd o Welliant Parhaus sy'n anelu at gynhyrchu dros £2biliwn o arbedion heb effeithio ar ansawdd. Mae'r arian hwn wedi'i ailgylchu er mwyn datblygu ein cynnwys a'n seilwaith.

Eleni, cynhyrchwyd £434miliwn o arbedion a bydd y camau a gymerwyd hyd yn hyn, os parheir â hwy, yn sicrhau dros £2biliwn o arbedion erbyn diwedd 2012/13. Mae cynlluniau ar waith i gyflawni'r arbedion effeithlonrwydd sy'n weddill erbyn mis Mawrth 2013 ac er bod risgiau'n gysylltiedig â gwneud hyn, rwy'n hyderus y byddwn yn parhau i gyflawni amcanion y rhaglen hon.

Y tu hwnt i welliant parhaus, rydym wedi ystyried ymhellach faint rydym yn ei wario ar gyflogau uwch aelodau o staff. Rydym wedi pennu targedau heriol i ostwng bil cyflogau uwch reolwyr 25% a lleihau nifer yr uwch reolwyr 20% – y nod yw cyflawni'r ddau darged erbyn mis Rhagfyr 2011. Rydym ar y trywydd iawn i gyflawni'r targedau hyn. Mae costau talent wedi'u targedu hefyd yn dilyn gostyngiad o 3% yn yr hyn a wariwyd ar dalent y llynedd. Llwyddwyd i arbed £9miliwn pellach eleni.

Roedd y cynllun arbedion Gwelliant Parhaus, gostyngiadau yng nghyflogau uwch reolwyr a gwariant ar dalent yn fentrau a oedd eisoes ar waith ar ddechrau'r flwyddyn ac mae pob un ohonynt yn gwneud cyfraniad pwysig sy'n ein galluogi i wario cymaint o ffi'r drwydded â phosibl ar gynnwys. Pan gadarnhawyd y prisiad o'r diffyg pensiwn, roedd yn amlwg na fyddai diwygiadau pensiwn yn ddigonol ynddynt hwy eu hunain i gau'r bwlch, ac y byddai angen gwneud cyfraniadau ychwanegol i'r cynllun. Er mwyn fforddio'r cyfraniadau ychwanegol hynny, rhoddwyd cyfres bellach o heriau ar waith i gynhyrchu arbedion.

1 Yn y llun gwelir Hilary Kay, un o arbenigwyr *The Antiques Roadshow*, sy'n deall pwysigrwydd gwybod beth yw gwerth asedau. Gwerthwyd y fformat gan BBC Worldwide.

2 Yn y llun gwelir *Civilisation*, cyfres gelfyddydol gofiadwy Syr Kenneth Clark o 1969, sydd wedi'i hailgreu eleni gan BBC S&PP mewn HD i'w darlledu a'i manwerthu.

# Edrych ymlaen



Mae setliad ffi'r drwydded yn golygu ein bod yn gallu blaengynllunio, gan gynnwys buddsoddi mewn rhaglenni a genres fel *Lost Land of the Tiger* sydd ag amseroedd cynhyrchu rhagarweiniol hir ac sy'n galw am ymrwymiad i ddarparu adnoddau ymlaen llaw ac felly'n anneniadol o bosibl i gynhyrchwyr masnachol.

**20%**
Gostyngiad yn y sail costau flynyddol ar ôl effaith setliad ffi'r drwydded ac Adolygiad o Wariant y Llywodraeth.

**£501m**
Arbedion effeithlonrwydd rhagamcanedig ar draws y BBC ar gyfer 2011/12, ar ben y £999miliwn a gyflawnwyd eisoes.

**£9m**
Gostyngiad mewn gwariant ar dalent, artistiaid a chyfranwyr o gymharu â'r llynedd – ychydig dros 4%.

## Heriau yn y dyfodol

Gan adlewyrchu ar ein perfformiad ariannol yn 2010/11 a chryfder ein mantolen, rydym mewn sefyllfa dda i reoli ein tynged ein hunain. Rydym wedi wynebu risgiau ariannol sylweddol ac wedi rheoli'r risgiau hyn hyd yma, gan barhau i gyflawni ein prif ddiben, sef gwasanaethu talwyr ffi'r drwydded. Er mwyn parhau i wneud hynny, mae angen i ni ddangos yr un ffydd yn ein strategaeth a pharhau i ganolbwyntio ar gyflawni blaenoriaethau'r busnes a nodir yn *Rhoi Ansawdd yn Gyntaf*.

Byddwn yn wynebu heriau newydd y flwyddyn nesaf ac, am y tro cyntaf, rydym wedi cyhoeddi crynodeb o'n cyllideb sy'n nodi'r heriau a'n hymateb iddynt. Ymhlith y prif heriau fydd symud i Salford a dychwelyd i'r Ganolfan Ddarlledu. Bydd hyn yn creu heriau logistaidd ond rwy'n falch o gadarnhau bod y risg ariannol yn ein cynlluniau.

Rydym hefyd yn paratoi ar gyfer prif ddigwyddiadau darlledu 2012 (Gemau Olympaidd, Jiwbilî Ddiemwnt) a'n buddsoddiad pellach mewn mentrau cynhyrchu digidol. Mae'r costau hyn yn y gyllideb hefyd.

Mae heriau yn deillio o'r terfynau ariannu a bennwyd ar gyfer BBC World Service yn Adolygiad Cynhwysfawr y Llywodraeth o Wariant y llynedd, a arweiniodd at ostyngiad o 16% mewn Cymorth Grant dros dair blynedd. Cyhoeddwyd nifer o fentrau arbed arian i ymateb i'r heriau hyn ym mis Ionawr 2011: cau pum gwasanaeth iaith, rhoi'r gorau i ddarllediadau radio mewn gwasanaethau eraill er mwyn canolbwyntio ar gynnwys ar-lein a chyfryngau newydd, arbed costau dosbarthu a chymorth, a chyflwyno newidiadau i'r amserlen Saesneg. Bydd mwy na 400 o swyddi yn cael eu colli o ganlyniad i'r newidiadau hyn a darparwyd ar gyfer y gost honno yn y cyfrifon eleni.

Mewn cyhoeddiad arall ym mis Hydref, amlinellodd y llywodraeth ddyfodol ffi'r drwydded ar gyfer y tymor canolig. Bydd gwerth cyfredol y ffi yn parhau'n ddigyfnewid am weddill cyfnod y Siarter ac, yn y dyfodol, caiff ei defnyddio hefyd i ariannu BBC World Service ac S4C. Amcangyfrifwn y bydd y golled yn sgîl cadw ffi'r drwydded yn ddigyfnewid a'r incwm a gaiff ei ddefnyddio i ariannu gwasanaethau a ariannwyd yn flaenorol gan y llywodraeth yn cyfateb i tua 20% o'n harian parhaus o ffi'r drwydded. Nid ydym o'r farn ei bod yn bosibl darparu ar gyfer y fath leihad mewn pŵer gwario drwy arbedion effeithlonrwydd yn unig. Rydym bellach yn ymgymryd ag ymarfer pwysig sy'n cynnwys pob un o weithrediadau'r BBC i benderfynu ar ddarpariaeth y sefydliad. Rydym yn bodoli er mwyn hysbysu, addysgu a diddanu'r cyhoedd yn y DU, felly byddwn hefyd yn gofyn am adborth gwylwyr a gwrandawyr ar y syniadau hyn, drwy'r Ymddiriedolaeth.

Fel y disgrifiwyd uchod, byddwn yn gweld newidiadau sylweddol i weithrediadau'r BBC yn 2011/12 ac, ar y cyd â'r arbedion effeithlonrwydd a gyflawnwyd a'r strategaethau ariannol a weithredwyd, mae'r BBC mewn sefyllfa gref a gwydn wrth iddo fynd ati i *Sicrhau Ansawdd yn Gyntaf*.

# Y tu hwnt i ddarlledu

Mae gan y BBC staff a gwasanaethau sydd wedi'u lleoli ledled y DU ac sy'n darparu rhaglenni lleol a chenedlaethol ac yn mynychu neu'n trefnu digwyddiadau, o Melas bach lleol i *BBC Radio 1's Big Weekend* a Proms y BBC. Ble bynnag yr awn, ein nod yw ymddwyn yn gynaliadwy ac yn foesegol yn y cymunedau hynny y gweithredwn ynddynt.

I gael rhagor o wybodaeth am y gweithgareddau sydd wedi'u hamlinellu ar y dudalen hon – a dolenni i lawer mwy – ewch i www.bbc.co.uk/outreach.

## BBC Outreach

Mae ein gweithgareddau Allgymorth yn parhau i ganolbwyntio ar gyrraedd cynulleidfaoedd na chânt eu gwasanaethu'n ddigonol. Yn ogystal â chefnogi dysgu drwy sicrhau bod ein hadnoddau ar gael yn helaeth ar-lein, er enghraifft, rydym yn trefnu gweithgareddau cymunedol ledled y DU. Y llynedd, roedd y gweithgareddau hyn yn cynnwys prosiectau dinasyddiaeth fel *School Report* a *Schools Question Time*. Hyrwyddwyd addysg a dysgu hefyd drwy, er enghraifft, *BBC Bitesize* a *BBC Headroom* ac ysgogwyd creadigrwydd drwy *BBC Writersroom*.

Mae *Bang Goes the Theory LIVE* wedi bod yn llwyddiant mawr. Aethom â phrif sioe wyddoniaeth BBC One allan i gwrdd â chynulleidfaoedd ledled y DU. Cafodd pob digwyddiad unigol ei drefnu gyda chymorth partneriaid allanol ac roedd yn cynnwys sioe lwyfan wedi'i harwain gan gyflwynwyr yn ogystal ag amrywiaeth o arddangosfeydd rhyngweithiol. Erbyn diwedd mis Mawrth, roedd dros chwarter miliwn o bobl wedi ymweld â *Bang LIVE*. Bwriedir cynnal mwy ohonynt yn ddiweddarach eleni. Gweler www.bbc.co.uk/tv/features/bang/aps/. I gael gwybodaeth am weithgareddau Allgymorth eraill neu i gofrestru ar gyfer y newyddion diweddaraf ewch i www.bbc.co.uk/outreach.



Pudsey a Syr Terry Wogan yn ymuno yn hwyl '*Strictly*'.

## Rhoddion elusennol

Unwaith eto, darlledwyd apeliadau ar gyfer amrywiaeth eang o achosion lleol, cenedlaethol a rhyngwladol, gan helpu i godi ymwybyddiaeth ac arian. Ymhlith yr apeliadau proffil uchel eleni roedd apêl flynyddol *Plant mewn Angen y BBC* ym mis Tachwedd a gododd £39miliwn a *Comic Relief* ym mis Mawrth, a gododd £74miliwn ar y noson, y swm mwyaf erioed. Yn gyffredinol, darlledwyd apeliadau ar gyfer cyfanswm o 63 o achosion elusennol drwy ein rhaglen wythnosol *BBC Radio 4 Appeal* ac apêl fisol *Lifeline* ar BBC One, yn ogystal ag apêl DEC ar gyfer Pacistan. I gael rhagor o wybodaeth am ein hapeliadau elusennol – gan gynnwys sut i wneud cais am Apêl – ewch i www.bbc.co.uk/charityappeals/. Mae Pwyllgor Cynghori ar Apeliadau annibynnol yn cynghori'r BBC ar ei bolisi a'i arfer.

Ac i gael rhagor o wybodaeth am ein helusennau corfforaethol ewch i'r gwefannau unigol:

- Plant mewn Angen y BBC: www.bbc.co.uk/pudsey/.
- Cronfa Celfyddydau Perfformio y BBC: www.bbc.co.uk/performingartsfund/.
- Cronfa Bywyd Gwyllt y BBC: www.bbc.co.uk/wild/.
- Ymddiriedolaeth BBC World Service: www.bbc.co.uk/worldservice/trust/.

Y llynedd, darparwyd gwasanaethau a oedd yn cyfateb i werth £420,000 (2010: £384,000) i elusennau.

Yn ogystal ag apeliadau darlledu, rhoddodd busnesau masnachol y BBC £26,700 i elusennau yn ystod y flwyddyn (2010: £6,700).

## Cyfrifoldeb corfforaethol

Nod y BBC yw bod yn arweinydd yn y diwydiant o ran rheoli ei fusnes yn gyfrifol. Eleni, rydym wedi cynnal safon Platinwm Mynegai Cyfrifoldeb Corfforaethol Busnes yn y Gymuned gyda sgôr o 98%. Rydym yn rhannu ein gwybodaeth ac yn dysgu oddi wrth eraill drwy gymryd rhan yn Fforwm Cyfryngau CSR, y Grŵp Cyfrifoldeb Corfforaethol, y Grŵp Cyfrifoldeb Corfforaethol Seneddol Cyswllt, Busnes yn y Gymuned a Grŵp Meincnodi Llundain.

## Datganiad ariannol cryno

Mae'r datganiad ariannol cryno yn cynnwys Datganiad Incwm Cryno'r BBC ar dudalen 2-72, Mantolen Gryno ar dudalen 2-75 a Datganiad Llif Arian Parod Cryno ar dudalen 2-76. Mae'r rhain yn cynnwys y prif ddata allweddol o'r datganiadau ariannol llawn sydd ar gael ar-lein yn y ganolfan lawrlwytho yn www.bbc.co.uk/annualreport.

Nid yw'r datganiad ariannol cryno yn cynnwys digon o wybodaeth i ddeall yn llwyr ganlyniadau na sefyllfa Grŵp y BBC fel y ceir yn y datganiadau ariannol blynyddol llawn. Mae archwilwyr annibynnol y BBC, KPMG LLP, wedi rhoi barn archwilio ddiamod ar y datganiadau ariannol llawn.

Cymeradwywyd y datganiad ariannol cryno, gan gynnwys yr adroddiad Llywodraethu ac Adroddiad Cydnabyddiaeth y Bwrdd Gweithredol, gan y Bwrdd Gweithredol ar 23 Mehefin 2011 ac fe'i llofnodwyd ar ei ran gan:

**Mark Thompson**
Cyfarwyddwr Cyffredinol

**Zarin Patel**
Prif Swyddog Ariannol

## Datganiad yr archwiliwr annibynnol i Ymddiriedolwyr y Gorfforaeth Ddarlledu Brydeinig (BBC)

Rydym wedi archwilio'r datganiad ariannol cryno sy'n cynnwys y Datganiad Incwm Cyfunol Cryno ar dudalen 2-72, y Fantolen Gyfunol Gryno ar dudalen 2-75, y Datganiad Llif Arian Parod Cyfunol Cryno ar dudalen 2-76 ac Adroddiad Cydnabyddiaeth y Bwrdd Gweithredol ar dudalennau 2-60 i 2-63.

Mae Ymddiriedolwyr y BBC wedi ein penodi i archwilio'r datganiad ariannol cryno a baratowyd fel petai'r BBC yn gwmni a restrir a chanddo'r hawl i baratoi datganiad o'r fath o dan Adran 426 o Ddeddf Cwmnïau 2006.

Gwneir y datganiad hwn yn unswydd i Ymddiriedolwyr y BBC fel corff ar delerau rydym wedi cytuno arnynt. Cynhaliwyd ein gwaith archwilio er mwyn i ni allu hysbysu Ymddiriedolwyr y BBC o'r materion hynny rydym wedi cytuno i'w hysbysu ohonynt mewn datganiad o'r fath ac nid at unrhyw ddiben arall. Hyd y caniateir o dan y gyfraith, nid ydym yn derbyn nac yn cymryd cyfrifoldeb i unrhyw un ac eithrio'r BBC ac Ymddiriedolwyr y BBC fel corff, am ein gwaith, am y datganiad hwn, nac am y farn a luniwyd gennym.

### Priod gyfrifoldebau'r cyfarwyddwyr, yr Ymddiriedolwyr a'r archwilwyr

Yr Ymddiriedolwyr a'r Bwrdd Gweithredol sy'n gyfrifol am baratoi arolwg ac asesiad Bwrdd Gweithredol y BBC fel petai Adran 428 o'r Ddeddf Cwmnïau yn gymwys i'r BBC a'i fod yn gwmni a restrir.

Ein cyfrifoldeb ni, yn unol â thelerau ein penodiad, yw rhoi ein barn i chi ar gysondeb y datganiad ariannol cryno yn arolwg ac asesiad Bwrdd Gweithredol y BBC â'r datganiadau ariannol blynyddol llawn ac Adroddiad Cydnabyddiaeth y Bwrdd Gweithredol, a'i gydymffurfiaeth â gofynion perthnasol adran 428 o Ddeddf Cwmnïau 2006 a'r rheoliadau a wnaed yn unol â hi fel petaent yn gymwys i'r BBC a'i fod yn gwmni a restrir.

Rydym hefyd yn darllen y wybodaeth arall a gynhwysir yn arolwg ac asesiad Bwrdd Gweithredol y BBC ac yn ystyried y goblygiadau i'n hadroddiad os deuwn yn ymwybodol o unrhyw gamddatganiadau ymddangosiadol neu anghysondebau perthnasol â'r datganiad ariannol cryno.

### Sail y farn

Gwnaethom gynnal ein gwaith yn unol â Bwletin 2008/3: Datganiad yr archwiliwr ar y datganiad ariannol cryno a gyhoeddwyd gan y Bwrdd Arferion Archwilio. Mae ein hadroddiad ar ddatganiadau ariannol blynyddol llawn y BBC yn disgrifio sail ein barn archwilio ar y datganiadau ariannol hynny ac Adroddiad Cydnabyddiaeth y Bwrdd Gweithredol.

### Barn

Yn ein barn ni mae'r datganiad ariannol cryno yn gyson â'r datganiadau ariannol blynyddol llawn ac Adroddiad Cydnabyddiaeth y Bwrdd Gweithredol ar gyfer y BBC am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2011 ac mae'n cydymffurfio â gofynion cymwys adran 428 o Ddeddf Cwmnïau 2006 a'r rheoliadau a wnaed yn unol â hi fel petaent yn gymwys i'r BBC a'i fod yn gwmni a restrir.

**Scott Cormack**
**Dros ac ar ran KPMG LLP, Archwiliwr Statudol**

Cyfrifwyr Siartredig
15 Canada Square
London E14 5GL
23 Mehefin 2011

# Geirfa

## Rydym wedi defnyddio rhai termau yn yr adroddiad hwn i egluro sut rydym yn gweithredu, a allai fod yn anghyfarwydd i'n darllenwyr. Mae'r rhestr ganlynol yn rhoi diffiniadau ar gyfer rhai o'r termau mwyaf cyffredin.

| | |
|---|---|
| Rhaglenni a Gaffaelir | Prynir **Rhaglenni a Gaffaelir** mewn cyflwr gorffenedig oddi wrth gyflenwr arall, er enghraifft, cafodd y ddrama heddlu *The Killing* ei thrwyddedu gan y darlledwr DR o Ddenmarc a'i dangos ar BBC Four. Y llynedd trwyddedwyd rhaglenni o fwy nag 20 o wledydd. |
| Mynegai Gwerthfawrogi neu AI | **Mynegai Gwerthfawrogi** neu **AI** yw cyfanswm faint y nododd pobl eu bod yn mwynhau rhaglenni unigol, wedi'i fynegi fel rhif allan o 100. |
| Economi greadigol | Mae **economi greadigol** y DU yn cynnwys y sefydliadau a'r bobl sy'n gweithio yn y diwydiannau dylunio a'r cyfryngau, gan gynnwys cwmnïau annibynnol, actorion ac awduron. Dangosodd adroddiad diweddar a oedd yn diweddaru arolwg annibynnol gan Deloitte a gyhoeddwyd yn wreiddiol ym mis Mawrth 2010 fod y BBC wedi cyfrannu o leiaf £8.1biliwn at economi greadigol y DU yn 2009/10 (cynnydd o 5.1% o gymharu â'r llynedd), gan gynhyrchu gwerth £2 o werth economaidd am bob punt o ffi'r drwydded. |
| BARB | **BARB** (Broadcasters Audience Research Board) yw'r sefydliad annibynnol sy'n gyfrifol am ddarparu'r mesur swyddogol o gynulleidfaoedd teledu'r DU. |
| Cost fesul Awr Defnyddiwr | Mae **Cost fesul Awr Defnyddiwr** (CPUH) neu **Gost fesul Awr Gwrandäwr** yn cyfuno gwariant a defnydd o'r gwasanaeth er mwyn helpu i lywio asesiad o werth am arian. Mae gan BBC Radio 2 y CPUH isaf o holl wasanaethau radio'r BBC (tua 0.5c) oherwydd ei phoblogrwydd. |
| Newid i ddigidol | Mae'r broses o **newid i ddigidol** yn golygu diffodd system ddarlledu teledu analog y DU erbyn 2012. I gael rhagor o wybodaeth ewch i www.helpscheme.co.uk. |
| Freesat | Mae **Freesat** yn wasanaeth teledu lloeren a ddarlledir am ddim a ddarperir gan y BBC ac ITV, lle mae defnyddwyr yn talu am yr offer ond ddim yn talu tanysgrifiad misol. Ewch i www.freesat.co.uk/. Mae Freesat gan Sky hefyd ar gael am daliad untro: www.freesatfromsky.co.uk. |
| Freeview | **Freeview** yw prif wasanaeth teledu daearol digidol y DU a ddarlledir drwy erial gan ddefnyddio blwch pen set. Nid oes angen tanysgrifiad. Freeview yw'r llwyfan teledu digidol a ddefnyddir fwyaf. Mae wedi bod ar gael mewn HD ers mis Ebrill 2010. Gweler www.freeview.co.uk. |
| HDTV | Mae **HDTV** – neu deledu manylder uwch – ar gael naill ai drwy flwch pen set neu deledu digidol integredig, ac mae'n rhoi darluniau eglur iawn o ansawdd gwell i wylwyr. |
| Effaith | Mae **effaith** yn dangos pa mor gofiadwy yw rhaglen neu wasanaeth neu faint y mae'n cael ei ganmol, a gellir mesur yr effaith yn ôl sawl gwobr a enillir gan wasanaeth, neu'r sylwadau (cadarnhaol neu negyddol) a geir yn y wasg. |
| IPTV | Mae **IPTV** (Internet Protocol TV) fel arfer yn darparu cynnwys ar alw i lawr llinell ffôn i deledu. Mae YouView yn enghraifft o'r cyfleoedd sydd ar gael o ganlyniad i ddatblygiad IPTV. |
| Ar alw | Mae gwasanaethau **ar alw** yn galluogi'r gwyliwr neu'r gwrandäwr i fwynhau rhaglen ar adeg sy'n addas iddynt hwy, er enghraifft drwy gyfrwng BBC iPlayer, itvplayer, 4oD neu Sky Player. |
| Oriau brig | Mae **oriau brig** gwasanaethau teledu'r BBC rhwng 6pm a 10.30pm. Mae radio'n wahanol iawn, ac fel arfer diffinnir oriau brig fel amser brecwast ac oriau cymudo. |
| PSB | Darlledwyr Cyhoeddus y DU (**PSB**s) yw'r BBC, ITV, Channel 4, Channel Five ac S4C. |
| Rajar | **Rajar** (Radio Joint Audience Research) yw'r corff swyddogol sy'n gyfrifol am fesur cynulleidfaoedd radio yn y DU. Mae'r BBC a'r RadioCentre yn berchen arno ar y cyd ar ran y sector masnachol.. |
| Cyrhaeddiad | **Cyrhaeddiad** ar *deledu* yw nifer neu ganran grŵp cynulleidfa sy'n gwylio rhaglen neu sianel (15 munud yn olynol bob wythnos yw mesur arferol y BBC, o gymharu â thair munud ar deledu masnachol); ac ar y *radio* dyma nifer neu ganran y bobl 15+ oed sy'n gwrando ar o leiaf bum munud o radio mewn cyfnod o 15 munud yn ystod wythnos arferol. |
| Cyfran | **Cyfran** o gyfanswm y gwylwyr neu'r gwrandawyr sy'n gwylio neu'n gwrando ar raglen neu wasanaeth penodol dros gyfnod penodol o amser, wedi ei mynegi fel canran o gyfanswm yr oriau gwylio/gwrando. Er enghraifft, mae gan BBC One gyfran o 21% o'r gwylio ym mhob cartref bob wythnos, ac roedd gan BBC Radio Ulster/Foyle gyfran o bron 23% o'r gwrando yn ei ardal ddarlledu ar gyfer y flwyddyn. |
| Defnyddwyr unigryw | Mae **defnyddwyr unigryw** neu borwyr unigryw yn fesur ar gyfer defnyddwyr gwefannau. Nid yw'n arolwg traddodiadol o 'bobl', ond fe'i mesurir yn awtomatig gan ddefnyddio naill ai logiau gweinyddwyr neu drwy dag a ymgorfforir yn y tudalennau gwe. |
| WoCC | Mae'r Ffenestr Cystadleuaeth Greadigol (**WoCC**) yn sicrhau bod 25% o oriau teledu cymwys a 10% o oriau radio cymwys yn destun cystadleuaeth rydd rhwng timau cynhyrchu mewnol y BBC a chynhyrchwyr allanol. Mae WoCCs yn ychwanegol at leiafsymiau Ofcom a lleiafsymiau gwirfoddol sy'n bodoli eisoes. |

Os hoffech gael gwybodaeth neu os hoffech wybod mwy am sut y caiff y BBC ei redeg, ewch i www.bbc.co.uk/aboutthebbc.

# Cysylltu â ni
# Mwy o wybodaeth

## Cysylltu â'r BBC

Os hoffech wybod mwy am berfformiad blwyddyn lawn y BBC hyd at fis Mawrth 2011 – gan gynnwys datganiadau ariannol llawn a pherfformiad pob gwasanaeth yn erbyn ei Ddatganiad o Bolisi Rhaglenni, yn ogystal ag ymrwymiadau cyhoeddus eraill, ewch i www.bbc.co.uk/annualreport.

Mae'r Adroddiad Blynyddol hefyd ar gael yn Saesneg ac mewn fersiwn sain.

Os hoffech gael gwybodaeth neu os hoffech gael gwybod mwy am sut y caiff y BBC ei redeg ewch i www.bbc.co.uk/aboutthebbc. Yma hefyd ceir blog lle mae uwch aelodau o staff ac arbenigwyr yn rhoi cipolwg mewnol a rheolaidd ar yr hyn sy'n digwydd yn y BBC.

Am docynnau i sioeau, teithiau a digwyddiadau, ewch i www.bbc.co.uk/showsandtours.

Os oes gennych sylw, gwerthfawrogiad neu gŵyn am raglenni a gwasanaethau'r BBC ewch i www.bbc.co.uk/feedback.

Neu ysgrifennwch i BBC Audience Services,
PO Box 1922, Darlington DL3 0UR

Llinell ffôn sylwadau: 03700 100 222*
Llinell ffôn ymholiadau eraill: 03700 100 123*
Ffôn testun: 03700 100 212*

Mae'r llinellau ar agor 24 awr y dydd, saith diwrnod yr wythnos.

Efallai y caiff galwadau eu monitro neu eu recordio at ddibenion hyfforddiant.

## Ymddiriedolaeth y BBC

Os oes gennych unrhyw sylwadau neu gwestiynau am waith Ymddiriedolaeth y BBC, gallwch gysylltu â hi'n uniongyrchol drwy'r post, drwy e-bost, neu dros y ffôn.

BBC Trust Unit
1st Floor
180 Great Portland Street
London W1W 5QZ

E-bost: trust.enquiries@bbc.co.uk
Ffôn: Llinell BBC Information 03700 103 100†*
Ffôn testun: 03700 100 212*

Mae'r llinellau ar agor o ddydd Llun i ddydd Gwener rhwng 9.30am a 5.30pm.

## Cynghorau Cynulleidfa'r BBC

Mae'r Cynghorau Cynulleidfa yng Nghymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon yn helpu Ymddiriedolaeth y BBC i ddeall anghenion a phryderon cynulleidfaoedd ledled y DU.

I gysylltu â'r Cynghorau Cynulleidfa:

### Cyngor Cynulleidfa Cymru
E-bost: acw@bbc.co.uk

### Audience Council England
E-bost: audiencecouncil.england@bbc.co.uk

### Audience Council Scotland
E-bost: acs@bbc.co.uk

### Audience Council Northern Ireland
E-bost: audiencecouncil.ni@bbc.co.uk

† Gellir monitro galwadau at ddibenion hyfforddiant.
* Rhifau 'ledled y DU' yw rhifau 0370 ac ni fyddant yn costio mwy na galwadau i rifau daearyddol 01 neu 02.

## Credydau a hawlfraint

Mae gan y BBC hawlfraint dros y ffotograffau neu cânt eu defnyddio o dan delerau cytundeb PACT, ac eithrio: tudalen 2-15 a 2-18, lluniau o Sgwâr Tahrir, Cairo gan Hugh Sykes; tudalen 2-16 llun o Sgrîn Fawr (h) european pressphoto agency b.v.; tudalen 2-49 llun o *Deal or No Deal* (h) Endemol UK/Channel 4; tudalen 2-51 llun o Jeremy Bowen a Rob Magee gan Cara Swift. Mae'n rhaid cael caniatâd deiliad yr hawlfraint cyn atgynhyrchu unrhyw ffotograffau.

Gellir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y gwneir hynny mewn ffordd gywir nad yw'n gamarweiniol. Mae'n rhaid ei achredu i'r BBC.

## Dyluniad
luminous.co.uk

## Cyfieithiad
Prysg Cyf

British Broadcasting Corporation
Broadcasting House
London WIA IAA
bbc.co.uk
(h) BBC 2011